Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2018–2019











llyw.cymru

# Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Caiff Cyfrifon Llywodraeth Cymru eu paratoi yn unol ag Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019, ynghyd â Thystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â hwy.

Gosodwyd gerbron y Cynulliad yn unol ag Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru.

Hawlfraint y Goron 2019 ISBN digidol 978-1-83876-970-3 WG37804

# Trosolwg gan yr Ysgrifennydd Parhaol



Shan Morgan

Mae'n bleser gen i gyflwyno fy nhrydydd cyfrifon cyfunol ar ran Llywodraeth Cymru.

Nid oes unrhyw amheuaeth ein bod ni wedi wynebu un o'r heriau mwyaf yn ein hanes diweddar eleni – paratoi ar gyfer y posibilrwydd o Brexit heb gytundeb. Er mwyn ymateb i'r sefyllfa unigryw hon, roedd rhaid inni gynllunio a chydlynu ar lefel nas gwelwyd erioed o'r blaen. Bu'n rhaid i bob adran ystyried yr effaith y byddai Brexit heb gytundeb yn ei chael ar eu meysydd busnes ac roedd hefyd raid iddynt gydbwyso'r gwaith hanfodol hwn â blaenoriaethau ehangach y Rhaglen Lywodraethu. Daeth staff sy'n gweithio ar bob lefel ac ym mhob maes yn y sefydliad ynghyd i gynllunio at argyfwng, gan weithio'n aml y tu allan i'w rolau arferol er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn barod i ymateb i unrhyw argyfwng a allai godi.

Yn ogystal â'r paratoadau trylwyr sydd eu hangen i reoli trefniadau cynllunio at argyfyngau sifil posibl, gweithiodd cydweithwyr ar draws y sefydliad yn agos gyda'n tîm gwasanaethau cyfreithiol ar ymarfer deddfwriaethol nas gwelwyd mo'i debyg o'r blaen. Gwneud y cywiriadau angenrheidiol i gyfraith sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd (UE) mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru oedd diben yr ymarfer hwn. Cafodd 128 o Offerynnau Statudol eu gosod yn Senedd y Deyrnas Unedig (DU) gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, a chafodd 41 eu gosod yn y Cynulliad Cenedlaethol. Roedd hon yn dasg enfawr ac nid oedd unrhyw sicrwydd y byddai modd ei chwblhau erbyn 31 Mawrth. Rwy'n hynod ddiolchgar felly i'r holl unigolion a aeth ati gyda'r fath frwdfrydedd ac ymroddiad i sicrhau bod y gwaith wedi'i gwblhau gan fodloni amserlen fer.

Bydd y misoedd sydd o'n blaenau yn gyfle inni ddysgu gwersi. Bydd rhaid inni addasu ein cynlluniau i adlewyrchu'r amgylchiadau sy'n newid, paratoi ar gyfer swyddogaethau newydd a pharhau i ddadansoddi buddiannau polisi Cymru yn unol â'r blaenoriaethau a bennir gan Is-bwyllgor Cabinet Llywodraeth Cymru ar Drefniadau Pontio'r UE. Bydd gwaith yn parhau hefyd ar baratoadau ar gyfer canlyniadau eraill ar wahân i Brexit heb gytundeb er mwyn sicrhau ein bod mewn sefyllfa gadarn beth bynnag fydd yn digwydd.

Mae Brexit wedi hawlio tipyn o'r sylw dros y rhan fwyaf o'r flwyddyn sydd newydd fynd heibio – mae hynny'n anorfod. Er gwaethaf hyn, roedd agenda ehangach y llywodraeth yn dal i fod mor bwysig ag erioed ac mae'r sefydliad wedi gweithio'n galed i gynnal y momentwm o ran cyflawni'r Rhaglen Lywodraethu. Ers mis Rhagfyr, mae'r Prif Weinidog a'r Cabinet newydd wedi pennu rhagor o flaenoriaethau i Gymru a byddwn yn parhau i'w cyflawni er gwaetha'r cyni cyllidol sy'n parhau.

Rhoddwyd mwy o bwysau ar gapasiti a gallu gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru nag a welwyd mewn unrhyw gyfnod cymharol yn hanes datganoli wrth iddo ymateb i'r amgylchiadau hynod heriol hyn. Yn wir, meithrin gallu a sgiliau'r gwasanaeth sifil ar bob lefel, er mwyn sicrhau ein bod yn fwy parod i wynebu'r heriau o'n blaenau, oedd fy union fwriad pan sefydlais fy menter Diogelu'r Dyfodol yn 2017.

Rwy'n falch o allu dweud bod y newidiadau rydym yn eu gwneud drwy'r fenter Diogelu'r Dyfodol eisoes yn cael effaith ar agweddau pwysig ar y ffordd rydym yn gweithio. Mae'r adborth rwy'n ei glywed oddi wrth y staff hefyd yn parhau i fod yn gadarnhaol. Dros y cyfnod adrodd hwn, cafodd cynnydd sylweddol ei wneud mewn llawer o feysydd. Cafodd sgyrsiau rheoli perfformiad mwy rheolaidd, sy'n canolbwyntio ar gryfderau, i'n helpu i ymateb yn gyflymach i'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg, eu cyflwyno gennym. Rydym hefyd wedi rhoi trefniadau asesu mwy cadarn a chyson ar waith ac wedi cyflwyno cyfleoedd datblygu ar gyfer cael dyrchafiad er mwyn sicrhau bod yr unigolion cywir yn cael eu penodi i swyddi. Rydym yn parhau i feithrin ein sgiliau drwy gynnig cyfleoedd dysgu a datblygu sy'n torri tir newydd a buddsoddi hefyd mewn offer TGCh newydd sy'n caniatáu i staff ym mhob cwr o Gymru weithio mewn ffordd fwy hyblyg a bod yn fwy cynhyrchiol.

Rwy'n hynod falch o'm cydweithwyr am ymateb i'r heriau a wynebwyd gennym yn fedrus a chydag ymrwymiad. Rwy'n gwybod y byddant yn parhau i wneud popeth yn eu gallu i gefnogi Gweinidogion Cymru er mwyn sicrhau bod pobl a chymunedau Cymru yn gweld newid go iawn yn ystod y flwyddyn sydd o'n blaenau.

# Cynnwys


**Trosolwg gan yr Ysgrifennydd Parhaol** i

**Beth sydd yn yr Adroddiad a'r Cyfrifon: Ciplun** iv

**Rhan Un:**

Cyflwyniad i Lywodraeth Cymru 1

Y Cabinet 3

Ffyniant i Bawb – rhaglen gyflawni Llywodraeth Cymru 4

Y Gwasanaeth Sifil 5

Paratoi ar gyfer Brexit 6

Rheoli ein Rhaglen Ddeddfwriaethol 8

Datblygu Polisi Trethi 12

Benthyciadau gan Weinidogion Cymru 13

Gweinyddu Cyllid Grantiau 14

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru 17

Bodloni ein Hymrwymiad i Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 20

Diogelu Dyfodol ein Sefydliad 22

Gwella ein Gwasanaethau Corfforaethol 24

Ein Hymrwymiad i Urddas a Pharch 26

Gweithio'n Ddwyieithog 29

Gweithio mewn Partneriaeth 30

Diogelu ein Hamgylchedd 31

Rheoli ag Uniondeb 32

**Rhan Dau:**

Yr Adroddiad Atebolrwydd 36

Y Datganiad Llywodraethiant 38

**Rhan Tri:**

Y Cyfrifon 84

# Beth sydd yn yr Adroddiad a'r Cyfrifon: Ciplun

Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Adroddiad a Chyfrifon blynyddol. Mae'r Adroddiad yn rhoi darlun manwl o'r ffordd rydym wedi rheoli ein cyllid a bodloni ein rhwymedigaethau statudol, ond mae hefyd yn gyfle i rannu gwybodaeth am y ffordd y mae'r sefydliad wedi cael ei redeg dros y flwyddyn flaenorol.

Mae'n bwysig gwybod nad yw'r Adroddiad a'r Cyfrifon yn rhoi disgrifiad o'r cynnydd a wnaed o safbwynt rhaglen gyflawni Llywodraeth Cymru, *Ffyniant i Bawb*. Gallwch weld yr adroddiad cynnydd blynyddol llawn ar *Ffyniant i Bawb* ar ein gwefan.

Mae tair elfen i'r Adroddiad a'r Cyfrifon:

Adroddiad ar ein gweithgareddau gweithredol yw **Rhan Un**. Yn yr adran hon, gallwch ddarllen trosolwg o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdano, manylion aelodaeth y Cabinet yn ystod y flwyddyn gyfrifyddu, ac eglurhad o'r hyn sydd wedi'i gynnwys yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru yn ogystal â rhywfaint o wybodaeth am sut y mae Gweinidogion Cymru wedi dewis arfer eu pwerau gwario a benthyca.

Gwelwch hefyd rai prif ffeithiau a ffigurau ynglŷn â'r sefydliad ei hun, gan gynnwys faint o bobl a gyflogir gennym, yr adeiladau rydym yn meddu arnynt neu'n eu prydlesu, y gwasanaethau a'r nwyddau rydym yn eu prynu a'r cynlluniau grantiau a weinyddir gennym.

Gweinidogion Cymru sy'n pennu'r uchelgais polisi a'r blaenoriaethau cyflawni sy'n llunio rhaglen y Llywodraeth, ond yr Ysgrifennydd Parhaol a'r uwch-dîm arwain sy'n gyfrifol am sicrhau bod y sefydliad yn perfformio'n effeithiol i gyflawni'r rhaglen honno. Rhoi darlun cyffredinol o'r ffordd y mae'r sefydliad wedi cael ei strwythuro a'i redeg yn ystod cyfnod beichus o her a newid yw ein nod yn y rhan hon o'r Adroddiad.

Mae hyn yn cynnwys y dull rydym wedi ei ddilyn i reoli paratoadau cymhleth, sy'n ddibynnol ar eu cyflawni mewn byr amser, ar gyfer y posibilrwydd o Brexit heb gytundeb ynghyd â'r gwaith sydd ei angen i baratoi ar gyfer sefyllfa fwy strwythuredig, a rheoledig, ar ôl inni ymadael â'r UE. Roedd angen gwneud cryn dipyn o waith ar y ddeddfwriaeth ac offerynnau statudol sy'n gysylltiedig â'r UE, ac roedd hwn yn ychwanegol at y gwaith a gynlluniwyd eisoes ar gyfer rhaglen ddeddfwriaeth ddomestig sylweddol y Llywodraeth. Ceir crynodeb yn yr Adroddiad o'r cynnydd a wnaed ar bob darn o ddeddfwriaeth yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae **Rhan Un** hefyd yn cynnwys trosolwg o'r ffordd y mae'r sefydliad wedi gweinyddu'r pwerau cyllidol newydd a drosglwyddwyd i Weinidogion Cymru a gweithredu polisi trethi'r Cabinet yn ogystal â darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am weinyddu grantiau.

Yn yr un modd â llawer o gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi ei rhwymo gan **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** ac mae'r Adroddiad hwn yn cynnwys diweddariad ar sut rydym yn rhoi'r Ddeddf honno ar waith – o safbwynt y ffordd rydym yn gweithio'n fewnol yn ogystal â chyda'n rhanddeiliaid a'n partneriaid cyflenwi. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys diweddariad cryno ar sut y mae'r sefydliad yn bodloni ei chyfrifoldebau mewn perthynas â **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**.

Mae'r ffordd rydym yn gweithio yn un o brif themâu'r fenter Diogelu'r Dyfodol yr Ysgrifennydd Parhaol – rhaglen o newid a gwelliant eang ei chwmpas sydd wedi'i chynllunio i feithrin gwasanaeth sifil hyderus, medrus a chadarn a all fodloni'r heriau rydym yn eu hwynebu heddiw ond hefyd baratoi'r sefydliad at heriau'r dyfodol. Mae **Rhan Un** yr Adroddiad yn rhoi trosolwg eang o'r cynnydd o ran datblygu a gwella sefydliadol sy'n cynnwys y fenter Diogelu'r Dyfodol, diweddariad ar ymgyrch fawr yr Ysgrifennydd Parhaol i hyrwyddo urddas a pharch yn y gweithle

a gwybodaeth am sut rydym yn mynd ati i adolygu ein prif wasanaethau corfforaethol a chymorth i sicrhau eu bod mor hydrin ac effeithlon â phosibl.

Mae gan Lywodraeth Cymru **Gytundeb Gweithio mewn Partneriaeth** hirsefydlog â'n Hundebau Llafur ac mae'r ysbryd hwn o bartneriaeth gymdeithasol wedi bod yn hynod werthfawr i'n helpu i ymateb i'r heriau dros y flwyddyn a aeth heibio. Mae Ochr yr Undebau Llafur yn gweithio'n agos gyda'r uwch-dîm reoli ar ein holl brif fentrau gwella sefydliadol ac mae ganddi rôl dyngedfennol i'n helpu i fodloni ein hymrwymiad i gyflogaeth deg, iechyd a diogelwch ac amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r adroddiad yn darparu rhywfaint o wybodaeth am ein partneriaeth gweithio a'i heffeithiolrwydd.

Mae rheoli gydag uniondeb a phriodoldeb yn gwbl hanfodol i'n gwerthoedd craidd ac mae **Rhan Un** yn gorffen gyda chrynodeb byr o'n gwaith i gefnogi hawliau dynol drwy gaffael moesegol a mynd i'r afael â llygredigaeth, llwgrwobrwyaeth a thwyll. Mae'r adran hon hefyd yn crynhoi ein gwariant ar hysbysebu a'n dull o noddi ac mae'n darparu crynodeb o gŵynion yn erbyn Llywodraeth Cymru yr aed i'r afael â hwy gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

Yn **Rhan Un** o'r Adroddiad drwyddi draw, rydym wedi cynnwys astudiaethau achos byr ac enghreifftiau sydd wedi'u cynllunio i roi cipolwg i'r darllenydd ar weithrediadau dyddiol Llywodraeth Cymru a'r hyn y mae'n ei olygu i weithio yma. Mae'r rhain yn cynnwys cipluniau o'r gwaith a wnaed gan dimau a gyrhaeddodd rownd derfynol **Gwobrau Llywodraeth Cymru 2019**. Mae'r Gwobrau eu hunain yn dathlu llwyddiant ac yn rhannu arferion gorau – ond nid dathlu er mwyn dathlu yw hyn. Rydym am annog pob tîm yn y sefydliad i ddysgu o'r gorau ac i fod yn uchelgeisiol am yr hyn y gallant ei gyflawni ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau ac mae'r astudiaethau achos a gyflwynir yn y gwobrau yn cynnig cipolwg ar y gwaith eithriadol a wneir gan y sefydliad.

Mae **Rhan Dau** o'r ddogfen hon yn cynnwys yr **Adroddiad Atebolrwydd.** Mae'r rhan hon o'r Adroddiad a'r Cyfrifon yn darparu gwybodaeth am sut y mae Gweinidogion a staff sy'n gweithio ar lefelau uwch yn cael eu talu ac yn rhoi trosolwg o alldro ariannol Llywodraeth Cymru yn erbyn y gyllideb y pleidleisiwyd arni. Mae'n bwysig nodi ei bod hefyd yn cynnwys y **Datganiad Llywodraethiant** gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r Datganiad Llywodraethiant yn amlinellu'r rheolaethau sydd ar waith i alluogi'r Prif Swyddog Cyfrifyddu a Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol i ymgymryd â'u dyletswyddau a rheoli adnoddau'r sefydliad.

Mae **Rhan Tri** o'r Adroddiad a'r Cyfrifon wedi'i neilltuo ar gyfer y cyfrifon eu hunain. Mae'r cyfrifon yn cynrychioli datganiad cynhwysfawr ar y costau a ysgwyddir gan Lywodraeth Cymru a manylion ei hasedau a'i rhwymedigaethau.

# Llywodraeth Cymru mewn rhifau

## Cyllid
**£17bn**
o wariant

## 26
**Cyfanswm Eiddo yr Ystad Weinyddol**


20 swyddfa yng Nghymru
1 swyddfa yn Llundain
5 eiddo arbenigol yng Nghymru

## Cyfanswm asedau
**£27bn**

## 5 pris faes gwariant

- Dyraniadau Craidd y GIG: £6,847m
- Cyllid Refeniw Cyffredinol Llywodraeth Leol: £3,220m
- Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr: £431m
- Darpariaeth Addysg Bellach: £415m
- Dyraniadau Uniongyrchol Eraill y GIG: £277m

**5,092**
o staff




**50%** ⬇
Gostyngiad mewn carbon ers 2014–15

**25%** ⬇
Gostyngiad yn y dŵr a ddefnyddiwyd ers 2014–15

**98%** ⬇
Gostyngiad yn y gwastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi ers 2014–15

## Dangosyddion cynaliadwyedd

Cyfanswm allyriadau gros ('000 t$CO_2$e)
8.4 (2014–15) ⬇ 4.2 (2018-19)

Cyfanswm gwastraff (tunelli)
500 (2014–15) ⬇ 372 (2018-19)

Tirlenwi (tunelli)
127 (2014–15) ⬇ 3 (2018-19)

## Llwyddiannau allweddol o ran cydraddoldeb

**8fed**
Mynegai Stonewall o 100 Cyflogwr Gorau'r DU (allan o 445 o gwmnïau)

**Statws aur**
yng ngwobrau a:gender

**Cyflogwyr Gorau o ran Hil**
Cyflogwyr o Blaid Hil, Busnes yn y Gymuned

**Lefel 3 'Arweinydd'**
Hyderus o ran Anabledd

**44%**
Cyllid Caffael LIC a gaiff ei wario yng Nghymru

**94%**
Anfonebau a gaiff eu talu ar amser (Gweinyddiaeth ariannol)

**323**
Cynlluniau grant a gaiff eu gweinyddu

**£14.9bn**
Cyfanswm y cronfeydd grant

# Cyflwyniad i Lywodraeth Cymru

## Cipolwg ar Lywodraeth Cymru

Llywodraeth ddatganoledig Cymru yw Llywodraeth Cymru ac mae'n gweithio ar draws meysydd allweddol bywyd cyhoeddus fel iechyd, addysg, yr economi, amaethyddiaeth a'r amgylchedd. Cafodd ei sefydlu'n ffurfiol yn 2007 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, a oedd yn rhannu swyddogaethau rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y ddeddfwrfa) a Llywodraeth Cynulliad Cymru (y weithrediaeth).

Ers hynny, cafodd yr enw ei newid yn gyfreithiol i Lywodraeth Cymru gan Ddeddf Cymru 2014. Mae setliad datganoli Cymru wedi esblygu'n ddramatig ers sefydlu'r Cynulliad ym 1999 ac mae'n parhau i ehangu wrth i bwerau newydd gael eu datganoli.

Dan arweiniad y Prif Weinidog, mae Llywodraeth Cymru'n gwneud penderfyniadau ac yn gyfrifol am gyflawni yn y meysydd a ddatganolwyd iddi, fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddfau Cymru 2014 a 2017. Mae hyn yn golygu datblygu a gweithredu polisïau; sefydlu a chyfeirio gwaith cyflenwi a llywodraethiant; cynnig Cyfreithiau Cymru (Biliau Cynulliad); a llunio is-ddeddfwriaeth, fel rheoliadau a chanllawiau statudol. Mae hefyd yn ariannu Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol.

Ar 1 Ebrill 2018, daeth model datganoli ar sail cadw pwerau i rym yng Nghymru, gan roi mwy o benderfyniadau yn nwylo Gweinidogion Cymru. Mae'r model newydd yn nodi'n glir beth sydd wedi'i ddatganoli (ac sy'n gyfrifoldeb ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru) a beth sydd wedi'i gadw (ac sy'n gyfrifoldeb ar Senedd y DU).

Mae'r rheoliadau hefyd yn dod â llawer o'r pwerau eraill a ddatganolir i'r Cynulliad a Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Cymru 2017 i rym, gan gynnwys pwerau dros etholiadau, trafnidiaeth a'r amgylchedd.



## Ffin Gyfrifyddu Llywodraeth Cymru 2018-19

Mae'r cyfrifon hyn yn adlewyrchu'r asedau a'r rhwymedigaethau cyfunol a chanlyniadau endidau sy'n dod o fewn ffin gyfrifyddu gyfunol Llywodraeth Cymru. O ran cysyniad, gellir ystyried y ffin gyfrifyddu fel grŵp yng nghyd-destun cyfrifyddu corfforaethol, ond caiff ei seilio ar feini prawf rheoli ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae rhagor o wybodaeth am y ffin gyfrifyddu i'w chael yn y Datganiadau Ariannol a Nodyn 1.2 i'r cyfrifon.

Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys endidau Craidd Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru ei hun) yn ogystal ag endidau Grŵp Llywodraeth Cymru fel y nodir isod:

Grŵp Llywodraeth Cymru:

- Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd GIG Cymru
- Banc Datblygu Cymru
- WGC Holdco Limited
- Dewis Gyrfa Career Choices Limited
- Trafnidiaeth Cymru
- Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (LLP)

Mae Ymddiriedolaethau GIG Cymru a Thrafnidiaeth Cymru wedi cael eu cynnwys yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru am y tro cyntaf yn 2018-19.

Mae'r sefydliadau cyfunol hyn yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi eu hadroddiadau a chyfrifon blynyddol eu hunain.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru a chyrff Comisiynwyr, ond nid ydynt wedi'u cyfuno yn y cyfrifon hyn oherwydd nad ydynt yn dod o fewn ffin gyfrifyddu gyfunol Llywodraeth Cymru.

# Y Cabinet



**Cyn mis Rhagfyr 2018, roedd y Cabinet a'r Gweinidogion fel a ganlyn:**

| | |
|---|---|
| Y Gwir Anrh Carwyn Jones | Y Prif Weinidog |
| Julie James | Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip |
| Alun Davies | Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Mark Drakeford | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid |
| Vaughan Gething | Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Lesley Griffiths | Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig |
| Ken Skates | Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth |
| Kirsty Williams | Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg |
| Hannah Blythyn | Gweinidog yr Amgylchedd |
| Huw Irranca-Davies | Y Gweinidog Plant, Gofal Cymdeithasol a Phobl Hŷn |
| Rebecca Evans | Y Gweinidog Tai ac Adfywio |
| Eluned Morgan | Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes |
| Dafydd Elis-Thomas | Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon |
| Jeremy Miles | Y Cwnsler Cyffredinol |

**O fis Rhagfyr 2018, mae'r Cabinet a'r Gweinidogion fel a ganlyn:**

| | |
|---|---|
| Y Gwir Anrh Mark Drakeford | Y Prif Weinidog |
| Rebecca Evans | Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd |
| Vaughan Gething | Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Lesley Griffiths | Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig |
| Julie James | Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol |
| Jeremy Miles | Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit |
| Eluned Morgan | Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol |
| Ken Skates | Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth |
| Kirsty Williams | Y Gweinidog Addysg |
| Hannah Blythyn | Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol |
| Jane Hutt | Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip |
| Julie Morgan | Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Dafydd Elis-Thomas | Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth |
| Lee Waters | Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth |

# Ffyniant i Bawb – rhaglen gyflawni Llywodraeth Cymru

Cafodd blaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer tymor y llywodraeth hon eu nodi yn 'Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol' ym mis Medi 2017, ar sail deuddeg o amcanion llesiant. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi pum maes â blaenoriaeth: y blynyddoedd cynnar; tai; gwell iechyd meddwl; sgiliau a chyflogadwyedd; a gofal cymdeithasol. Mae'r rhain yn feysydd lle y gall mabwysiadu ymagwedd llywodraeth gyfan wneud y cyfraniad mwyaf at ffyniant a llesiant pobl yn y tymor hir.

Ym mis Hydref 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadroddiad blynyddol cyntaf yn erbyn y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni Ffyniant i Bawb. Mae'r adroddiad i'w weld ar wefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-adroddiad-blynyddol-2018




Fel rhan o hyn, adolygodd Llywodraeth Cymru ei hamcanion llesiant gan ystyried y cynnydd a wnaed gyda chamau penodol. Daeth i'r casgliad mai'r set bresennol o amcanion llesiant yw'r meysydd lle y gall Llywodraeth Cymru wneud y cyfraniad mwyaf tuag at y nodau llesiant o hyd. Fodd bynnag, mae pwysigrwydd yr agenda ddatgarboneiddio a'r angen i bob maes o lywodraeth weithio gyda'i gilydd i gyflawni ei thargedau uchelgeisiol yn golygu bod hwn wedi dod yn chweched maes â blaenoriaeth.

Er na fydd amcanion llesiant Llywodraeth Cymru yn newid o ganlyniad, bydd yn darparu dull 'llywodraeth gyfan' ac yn golygu bod datgarboneiddio yn gwneud mwy o gyfraniad tuag at gyflawni'r nodau llesiant.

# Y Gwasanaeth Sifil

Y weinyddiaeth anwleidyddol sy'n cefnogi Prif Weinidog a Gweinidogion Llywodraeth Cymru yw'r gwasanaeth sifil.

Mae cryfderau craidd y gwasanaeth sifil – amhleidioldeb gwleidyddol; gweinyddiaeth effeithlon; llywodraethiant da a rheoli arian cyhoeddus yn gadarn – yn darparu sylfaen gadarn i gefnogi Llywodraeth Cymru.

## Yr Uwch-dîm Arwain

Yr Ysgrifennydd Parhaol yw pennaeth y sefydliad a phrif was sifil Cymru. Mae staff yn gweithio mewn un o bum Grŵp dan arweiniad yr Ysgrifennydd Parhaol a phedwar Cyfarwyddwr Cyffredinol.

**Shan Morgan**
Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol

Trysorlys Cymru | Cyllid | Llywodraethiant | Adnoddau Dynol



**Des Clifford**
Cyfarwyddwr Cyffredinol, Swyddfa'r Prif Weinidog a'r Grŵp Brexit



- Is-adran y Cabinet
- Swyddfa'r Cabinet
- Cyfathrebu
- Materion Cyfansoddiadol a Chysylltiadau Rhynglywodraethol
- Y Trefniadau Pontio Ewropeaidd
- Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach
- Yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol
- Swyddfa'r Prif Weinidog
- Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol
- Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol, Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus



- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Cymunedau a Threchu Tlodi
- Addysg
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Tai ac Adfywio
- Llywodraeth Leol
- Swyddfa'r Prif Swyddog Digidol
- Is-adran y Gymraeg

**Andrew Goodall**
Cyfarwyddwr Cyffredinol, Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Prif Weithredwr, GIG Cymru



- CAFCASS Cymru
- Iechyd Meddwl, Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol y GIG
- Nyrsio
- Cynllunio, Cyflawni a Pherfformiad
- Iechyd Poblogaethau
- Gofal Sylfaenol a Gwyddorau Iechyd
- Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
- Technoleg a Thrawsnewid
- Y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol

**Andrew Slade**
Cyfarwyddwr Cyffredinol, Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol



- Busnes a Rhanbarthau
- Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
- Seilwaith Economaidd
- Yr Economi, Strategaeth a Datgarboneiddio
- Yr Amgylchedd a Morol
- ESNR - Cyllid a Gweithrediadau
- Tir, Natur a Bwyd
- Swyddfa'r Prif Gynghorydd Gwyddonol
- Swyddfa'r Prif Filfeddyg
- Y Grŵp Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes (SHELL)
- Gwasanaethau Masnachol a Chaffael Cenedlaethol LIC (Interim)

# Paratoi ar gyfer Brexit

Ers i'r DU bleidleisio dros ymadael â'r UE ar 23 Mehefin 2016, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio i sicrhau Brexit sy'n diogelu buddiannau Cymru. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae cynllunio'r trefniadau pontio o'r UE, gan gynnwys paratoadau hanfodol i reoli argyfyngau sifil posibl yn sgil Brexit heb gytundeb, wedi galw am waith helaeth gan bron pob rhan o'r sefydliad.

Mae cefnogi Gweinidogion yn yr amgylchedd unigryw a hynod heriol hwn wedi bod yn brif flaenoriaeth i'r Ysgrifennydd Parhaol a'r uwch-dîm rheoli, sydd wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn i gael trosolwg o'r gwaith hanfodol hwn a sicrhau bod ymdrech ac adnoddau ar draws y sefydliad wedi cael eu neilltuo i'r meysydd Brexit â blaenoriaeth uchaf a busnes hanfodol y llywodraeth. Mae hyn wedi galw am fod yn hyblyg iawn ac ailystyried blaenoriaethu wrth i dimau ac unigolion gael eu had-drefnu i reoli a chynllunio ar gyfer yr effeithiau posibl ar ein cymunedau, a'n cadernid economaidd ac amgylcheddol.

Cafodd y Tîm Trefniadau Pontio Ewropeaidd ei sefydlu i gydlynu gwaith Llywodraeth Cymru ar ddatblygu deddfwriaeth, trosolwg strategol o negodiadau a fframweithiau a sicrhau ein bod yn barod ar gyfer Brexit ac mae'r tîm hwn wedi parhau i arwain ar yr ymdrechion i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu diogelu yn y negodiadau wrth i'r DU ymadael â'r UE, ac wedi bod yn gyfrifol am gydlynu'r ymdrechion hynny. Mae'r tîm yn cefnogi Gweinidogion Cymru yng nghyfarfodydd Is-bwyllgorau'r Cabinet i drafod ein safbwynt negodi gan gynnwys drwy Gyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) a Fforwm y Gweinidogion (Negodiadau'r UE).

Ar y cyd â'r Tîm Trawsnewid, mae timau polisi ar draws Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio i gryfhau cysylltiadau ag adrannau Llywodraeth y DU. Mae'r timau hyn yn cydweithio i ddatblygu safbwyntiau negodi ar gyfer y DU gyfan, a cheisio cytundeb arnynt, ac yn gweithio gyda'i gilydd hefyd i gryfhau rôl Llywodraeth Cymru yng ngham nesaf y negodiadau gyda'r UE. Mae'r sefydliad wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar brosiectau paratoi sy'n berthnasol i feysydd datganoledig ac wedi bod yn datblygu camau i fynd i'r afael ag amgylchiadau a blaenoriaethau sy'n benodol i Gymru nad ydynt yn cael eu teimlo i'r un graddau o bosibl ar lefel y DU a chydlynu paratoadau cyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer ymadael â'r UE.

Yn ystod chwarter olaf y flwyddyn, bu paratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb yn un o brif agweddau gwaith paratoi'r UE a pharatôdd y sefydliad ar gyfer gweithredu Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau Cymru 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos o ganol mis Mawrth gyda mwy na 90 o aelodau o staff yn barod i weithio ar sail patrymau shifft. Mae'r Ganolfan yn ymgymryd â rôl hanfodol i asesu'r effaith ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac i fod yn barod i ymateb i argyfyngau a allai godi cyn, yn ystod, ac ar ôl ymadael. Mae'r Ganolfan hefyd yn gwbl ganolog wrth inni gyfathrebu a chydgysylltu â Gweinidogion Cymru ar faterion sy'n codi ac mae ganddi gysylltiadau uniongyrchol â swyddogion cyfatebol yn Whitehall sy'n gyfrifol am gynllunio at argyfyngau sifil posibl.

Gofynnir i uwch-swyddogion weithio hefyd yn swyddfa Llywodraeth Cymru yn Stryd Fictoria, Llundain ar sail wirfoddol am gyfnod byr bob mis i gynrychioli Llywodraeth Cymru mewn cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal yn Whitehall a sicrhau bod llais Cymru yn cael ei glywed yn y trafodaethau niferus a gynhelir. Cafwyd saib o ran y gofyniad i Ganolfan Cydgysylltu Argyfyngau Cymru weithio 24 awr y dydd wedi i Lywodraeth y DU gyhoeddi y byddai'r dyddiad ymadael â'r UE yn cael ei symud ymlaen i 31 Hydref 2019. Lleihawyd nifer yr uwch-weision sifil yr oedd yn rhaid iddynt fod ar alw yn Whitehall hefyd, ond mae'r paratoadau ar gyfer ymadael â'r UE yn parhau i fod yn flaenllaw ar draws cryn dipyn o agenda waith y sefydliad.

Cyhoeddwyd adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ym mis Chwefror 2019 (Paratoadau yng Nghymru ar gyfer Brexit heb gytundeb). Roedd yr adroddiad hwn yn cydnabod y rôl arweiniol a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru i nodi risgiau cenedlaethol a strategol a'u rheoli, gan weithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill.



# Rheoli ein Rhaglen Ddeddfwriaethol

Rheoli rhaglen ddeddfwriaethol helaeth Llywodraeth Cymru yn effeithiol yw un o brif flaenoriaethau yr Ysgrifennydd Parhaol a'r uwch-dîm reoli, a bydd hyn yn galw am gydlynu a gweithio fel tîm ar draws y sefydliad cyfan.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu'n rhaid cydbwyso'r rhaglen a drefnwyd o ddeddfwriaeth ddomestig gyda'r angen brys am ddeddfwriaeth hanfodol i baratoi ar gyfer effaith ymadawiad y DU â'r UE.

## Y Trefniadau Pontio o'r UE

Er mwyn sicrhau bod modd parhau i weithredu llyfr statud Cymru ar ôl ymadael â'r UE, bu'n rhaid cynnal ymarfer deddfwriaethol yn 2018-19, a hynny ar fyrder ac ar raddfa na welwyd mo'i thebyg o'r blaen. Roedd hyn yn galw am tua 189 o Offerynnau Statudol newydd, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio pwerau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), i wneud y cywiriadau angenrheidiol i gyfraith sy'n deillio o'r UE mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru. Cafodd 128 o Offerynnau Statudol eu gosod yn Senedd y DU gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, o dan delerau'r Cytundeb Rhynglywodraethol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a chafodd 41 eu gosod yn y Cynulliad Cenedlaethol. Roedd 20 o Offerynnau Statudol eraill nad oedd angen eu gosod cyn y diwrnod ymadael pe byddai'n digwydd ar 29 Mawrth a byddant yn cael eu datblygu dros y misoedd sydd i ddod. Bydd y rhaglen o Offerynnau Statudol mewn perthynas ag Ymadael â'r UE yn arwain at gynnydd mawr yn swyddogaethau gweithredol Gweinidogion Cymru.

Yn 2018, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gynlluniau i gyflwyno Bil Brys i ddiogelu datganoli, a elwir yn ffurfiol yn Fil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru). Fodd bynnag, yn dilyn y gwelliannau i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ac yn sgil sefydlu'r Cytundeb Rhynglywodraethol, cytunodd Llywodraeth Cymru i gymryd camau i ddiddymu'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru), pan fyddai wedi cael y Cydsyniad Brenhinol, a ddigwyddodd ym mis Mehefin 2018. Diddymwyd y Ddeddf fel yr oedd ar y pryd, yn unol â'r Cytundeb Rhynglywodraethol, ym mis Tachwedd 2018.

## Biliau datganoledig

Yn ogystal â'r gofynion deddfwriaethol sy'n ofynnol fel rhan o'r paratoadau ar gyfer Brexit, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal rhaglen ddeddfwriaethol eang ei chwmpas sy'n torri tir newydd.

Mae'r rhaglen wedi cynnwys yr eitemau canlynol o ddeddfwriaeth a gafodd naill ai eu deddfu neu eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn.



## Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2019

Mae'r Ddeddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu cyllid ar gyfer gofal plant i blant cymwys sydd â rhieni sy'n gweithio ac i lunio rheoliadau am drefniadau gweinyddu a gweithredu cyllid o'r fath. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth er mwyn gallu asesu eu cymhwysedd i gael y cyllid a bydd yn galluogi adrannau perthnasol o Lywodraeth y DU i rannu gwybodaeth â Gweinidogion Cymru er mwyn penderfynu a yw person yn gymwys ai peidio. Mae'r llwybrau rhannu data hyn yn rhan annatod o'r broses lle gall rhieni cymwys ymgeisio am gyllid a darparu tystiolaeth o'u cymhwysedd drwy system sy'n ddigidol yn bennaf. Ni fydd Gweinidogion yn dechrau eu dyletswydd i gyllido o dan adran 1 o'r Ddeddf hyd nes i'r system fynd yn fyw ym mis Medi 2020. Cafodd y Bil ei gyflwyno ar 16 Ebrill 2018 a chafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 30 Ionawr 2019.

## Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018

Diddymodd y Ddeddf yr Hawl i Brynu (gan gynnwys yr Hawl i Brynu a Gadwyd a'r Hawl i Brynu a Estynnwyd) a'r Hawl i Gaffael yng Nghymru ar 26 Ionawr 2019. Diogelu stoc tai cymdeithasol Cymru ar gyfer pobl nad ydynt yn gallu prynu tŷ drwy'r farchnad dai yw'r diben a nodwyd ar gyfer y Ddeddf gan Lywodraeth Cymru. Ystyriai fod y dull hwn yn seiliedig ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a bydd hefyd yn annog awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i fuddsoddi mewn tai cymdeithasol newydd. Cafodd y Ddeddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018 ei chyflwyno fel Bil ar 13 Mawrth 2017 a derbyniodd y Cydsyniad Brenhinol ar 24 Ionawr 2018.

## Y Bil Cosb Resymol

Diben y Bil yw diddymu amddiffyniad y gyfraith gyffredin o gosb resymol fel nad yw ar gael mwyach yng Nghymru i rieni neu'r rheini sy'n gweithredu in loco parentis fel amddiffyniad am ymosod ar blentyn neu ei guro. Mae'r amddiffyniad yn gymwys ar hyn o bryd yng nghyd-destun y gyfraith droseddol a'r gyfraith sifil. O dan y gyfraith droseddol, mae'n gymwys mewn perthynas â throseddau'r gyfraith gyffredin o ymosod a churo. O dan y gyfraith sifil, mae'n gymwys mewn perthynas â chamwedd tresmasu yn erbyn person.

Bwriedir i'r Bil gefnogi hawliau plant drwy wahardd y defnydd o gosb gorfforol, drwy ddileu'r amddiffyniad hwn. Disgwylir i'r Bil, ynghyd ag ymgyrch i godi ymwybyddiaeth a chefnogaeth i rieni, leihau ymhellach y defnydd o gosbau corfforol i blant, yn ogystal â'r goddefgarwch tuag at gosbau o'r fath, yng Nghymru. Cafodd y Bil ei gyflwyno ar 25 Mawrth 2018.

## Y Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru)

Cafodd y Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) ei gyflwyno ar 11 Mehefin 2018 a bydd yn gwahardd taliadau penodol a wneir mewn cysylltiad â rhoi ac adnewyddu contractau meddiannaeth safonol neu â'u parhâd.

Mae'n gwneud darpariaeth hefyd mewn perthynas â thrin a thrafod blaendaliadau cadw. Cytunodd y Cynulliad ar y Bil ar 27 Mawrth 2019. Disgwylir iddo gael ei gychwyn ar 1 Medi 2019.

## Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018

Cafodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 y Cydsyniad Brenhinol ar 9 Awst 2018. Nod y Ddeddf yw mynd i'r afael â phryderon Llywodraeth Cymru am y niwed i iechyd a'r niwed cymdeithasol a achosir gan yfed gormod o alcohol.

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, ragnodi isafbris uned ar gyfer cyflenwi alcohol i berson yng Nghymru ac mae'n sefydlu cyfundrefn orfodi o dan arweiniad yr awdurdodau lleol.

## Y Bil Deddfwriaeth (Cymru)

Ym mis Rhagfyr 2018, cyflwynodd Cwnsler Cyffredinol Cymru Fil i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch, clir a syml i'w defnyddio. Mae'n gwneud darpariaeth ynglŷn â dehongli a gweithredu deddfwriaeth Cymru, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru gymryd camau i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Ar yr un pryd, cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol Dacsonomeg Drafft ar gyfer Codau Cyfraith Cymru i ddangos sut y gellid trefnu a chyhoeddi'r Llyfr Statud i Gymru yn y dyfodol.





# Astudiaeth Achos

## Gwaith sydd wedi ennill gwobrau

**Cyflawni Canlyniadau: Tîm y Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif**

Mae'r Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif yn fuddsoddiad hirdymor, strategol yn ein seilwaith addysgol. Mae'r Rhaglen wedi'i hadeiladu ar y cyd, ei hariannu ar y cyd a'i rheoli ar y cyd â phartneriaid cyflenwi mewn llywodraeth leol ac addysg bellach. Mae Bwrdd y Rhaglen yn cynnwys aelodau o awdurdodau lleol a cholegau ac yn gyffredinol mae colegau a phrosiectau yn cael arian cyfatebol o 50/50. Cynrychiola'r Rhaglen y buddsoddiad mwyaf mewn ysgolion a cholegau ers y 1960au. Mae mwy na £1.4bn wedi cael ei fuddsoddi yn ystod 2014-19 ac mae 193 o ysgolion a cholegau wedi cael eu hailadeiladu neu eu hailwampio, a hyn oll wedi'i gyflawni yn erbyn targed cychwynnol o150, gan olygu bod y rhaglen wedi rhagori ar yr hyn y bwriadwyd ei gyflawni yn ystod y cam cyntaf gan o leiaf 28%. Golyga hyn fod mwy na 100,000 o ddysgwyr yn elwa ar adeiladau sy'n newydd neu wedi'u hailwampio ar draws Cymru.

Mae'r Tîm hefyd yn rheoli cyfuniad cymhleth o grantiau cyfalaf eraill sy'n cynnwys materion fel gofal plant, meintiau dosbarthiadau babanod, offer Addysg Bellach ac Uwch, cynnal a chadw ysgolion/colegau ac addysg cyfrwng Cymraeg.



# Datblygu polisi trethi

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio fframwaith polisi trethi – https://llyw.cymru/fframwaith-polisi-trethi i lywio'r ffordd y mae'n defnyddio ei phwerau trethi. Mae'r pum egwyddor sydd wedi'u hymwreiddio yn y fframwaith yn ceisio sicrhau bod trethi yn deg, yn glir ac yn sefydlog, eu bod yn helpu i gyflawni amcanion polisi – yn benodol o ran swyddi a thwf – a'u bod yn cael eu datblygu drwy fynd ati'n rhagweithiol i ymgysylltu, cydweithio a chynnwys.

Mae'r gwaith hwn ar y polisi trethi wedi'i gynllunio i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a bydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at amcanion llesiant Llywodraeth Cymru.

Mae Trysorlys Cymru yn gweithio ar draws y llywodraeth, y sector cyhoeddus yn ehangach a'r gymuned drethi i ddatblygu polisi trethi a chynllunio trethi sydd wedi'u datganoli'n llwyr, er mwyn sicrhau bod polisïau yn gydgysylltiedig a'u bod yn cefnogi blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru. Mae polisi trethi Cymru hefyd wedi cael ei lywio gan amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys yn benodol aelodau Grŵp Cynghori'r Gweinidog Cyllid ar Drethi, y Grwpiau o Arbenigwyr Technegol ar y dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi, a'r Grŵp Cyfeirio a sefydlwyd er mwyn helpu i ddatblygu treth tir gwag bosibl.

Mae fforymau treth a chynadleddau undydd hefyd wedi cynnig cyfle i randdeiliaid gyfrannu eu syniadau a'u harbenigedd i syniadau Llywodraeth Cymru.

## Cyfraddau Cymru y Dreth Incwm

Mae Deddf Cymru 2014 a Deddf Cymru 2017 yn datganoli pwerau trethu a benthyca i Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

O fis Ebrill 2019, Llywodraeth Cymru fydd yn pennu'r cyfraddau'r Dreth Incwm a delir gan drethdalwyr Cymru bob blwyddyn. Gallai Llywodraeth Cymru amrywio cyfraddau'r Dreth Incwm neu eu cadw ar yr un lefel â'r cyfraddau a delir gan drethdalwyr Lloegr a Gogledd Iwerddon. Bydd Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn gyfrifol am sawl agwedd ar y dreth incwm. Fel treth sydd wedi'i datganoli'n rhannol, bydd cyfraddau Cymru y Dreth Incwm yn parhau i gael eu casglu gan CThEM, fel y nodir yn Neddf Cymru 2014. Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn cadw cyfrifoldeb llawn am dreth incwm o gynilion a difidendau.

## Diwygio trethi lleol

Mae trethi lleol – y dreth gyngor ac ardrethi annomestig – yn cyfrannu mwy na £2.5 biliwn y flwyddyn tuag at gronfeydd sy'n cael eu gwario gan lywodraeth leol wrth gyflenwi gwasanaethau i gymunedau ym mhob cwr o Gymru. Rydym yn datblygu'r trethi lleol hyn fel rhan annatod o'r system gyllid llywodraeth leol yn ehangach. Sicrhau tegwch i'n dinasyddion a'n busnesau, gan gynnal cyllid ar gyfer gwasanaethau lleol hanfodol ar yr un pryd, yw ein blaenoriaethau ar gyfer y gwaith hwn. I'r perwyl hwn, mae rhaglen o waith tymor byr, tymor canolig a hirdymor ar y gweill gennym. Mae crynodeb o'r gwaith hwn i'w gael ar wefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/diwygio-cyllid-llywodraeth-leol-yng-nghymru-diweddariad-2018

Rydym wedi canolbwyntio dros y flwyddyn a aeth heibio ar wneud cyfres o welliannau i'r dreth gyngor i'w gwneud yn fwy teg, i dargedu'n well yr ystod o ryddhadau sydd ar gael i helpu trethdalwyr i dalu eu biliau ac i ddechrau ymchwilio i weld pa mor ymarferol fyddai mathau eraill o drethi.

# Benthyciadau gan Weinidogion Cymru

O dan adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (a ddiwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014 a 2017) cafodd rhagor o bwerau benthyg eu rhoi i Weinidogion Cymru, i gael effaith o fis Ebrill 2018. Caiff unrhyw symiau a fenthycir ac a ad-delir o dan y darpariaethau hyn eu gwneud drwy gyfrwng Cronfa Gyfunol Cymru a chânt eu hadlewyrchu yn y cyfrifon hynny felly. Cafodd y pwerau benthyg eu harfer am y tro cyntaf yn 2018-19 pan dalwyd £65m i Gronfa Gyfunol Cymru o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol.

# Gweinyddu Cyllid Grant

Mae'r cyllid grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn cefnogi ystod eang o sefydliadau, busnesau a phrosiectau ar draws Cymru gyfan. Diffiniad y sefydliad o grant yw pob taliad heb ei gaffael i gyrff neu unigolion allanol ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion polisi neu rwymedigaethau statudol Llywodraeth Cymru. Caiff grantiau eu rhannu yn ddau gategori penodol:

- Mae grantiau heb eu neilltuo yn cynnwys taliadau a ddarperir i fyrddau iechyd a llywodraeth leol, a dyma ydyw £11.4bn o'r cyfanswm o £14.9bn a dalwyd ar ffurf grantiau ar gyfer 2018-19.
- Taliadau ag amcanion y gellir eu cyflawni a meini prawf penodol yn gysylltiedig â'u diben yw grantiau wedi eu neilltuo, a dyma ydyw'r £3.5bn o gyllid sy'n weddill.

## Y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau

Mae'r tîm yn gyfrifol am wella polisi rheoli grantiau, darparu cyngor a chymorth ymarferol i reolwyr grantiau, hyfforddi ac ymwreiddio arferion gorau ar draws y sefydliad. Y tîm yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau yn ymwneud â grantiau yn y sefydliad. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, llwyddwyd i ddatrys dros 1,600 o ymholiadau drwy'r e-bost. At hynny, cynhaliodd y tîm gyfarfodydd helaeth wyneb yn wyneb a dros y ffôn â rheolwyr grantiau, gan ddarparu cymorth ac arweiniad iddynt ar bob agwedd ar reoli grantiau.

Dros y cyfnod 2018-19, cyflawnodd y tîm amryw o weithgareddau allweddol hefyd gan gynnwys cynnal arolwg allanol o dderbynwyr grantiau, canllawiau cynhwysfawr ar faterion grant a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), a thempled dyfarnu grant gorfodol i sicrhau cysondeb a chydymffurfiaeth o safbwynt polisïau grant. Gweithiodd hefyd gydag awdurdodau lleol i adolygu trefniadau archwilio ac i gyflwyno'r Panel Sicrwydd Grantiau a'i ymwreiddio.

## Arolwg Allanol Derbynwyr Grantiau 2018

Comisiynwyd arolwg ar-lein gan y Ganolfan Rhagoriaeth Grantiau i geisio adborth oddi wrth sefydliadau sy'n derbyn cyllid grant gan Lywodraeth Cymru ar eu profiadau nhw o ymwneud â Llywodraeth Cymru. Cysylltwyd â mwy na 1,900 o sefydliadau ac roedd y gyfradd ymateb yn 20% ar gyfartaledd (sy'n arferol ar gyfer arolwg ar-lein). Canolbwyntiai'r arolwg ar ba mor fodlon yr oedd derbynwyr grantiau presennol gyda'r broses, o'r cam ymgeisio hyd at gau cynllun grant. Roedd yn cynnwys cwestiynau ynglŷn â dyblygu, cysondeb a lefelau boddhad.

Derbyniwyd ymatebion o sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn fodlon â'r broses. Gyda'r broses hawlio a thaliadau y gwelwyd y lefel boddhad uchaf (80%). Gyda'r broses ymgeisio a phenderfynu y gwelwyd y lefel boddhad isaf (67%).

Bydd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn defnyddio canlyniadau'r arolwg ar-lein i fireinio eu hadborth ar gyfer rheolwyr grantiau, canllawiau a hyfforddiant a cheisiadau ar-lein. Cyhoeddwyd Adroddiad yr Arolwg Allanol ar wefan Llywodraeth Cymru ar 14 Tachwedd 2018: https://llyw.cymru/arolwg-o-dderbynyddion-grantiau-llywodraeth-cymru-2018

## Archwilio Grantiau Awdurdodau Lleol

Yn dilyn adolygiad yn nodi bod angen pwyslais newydd ar y rhesymeg archwilio ar gyfer grantiau awdurdodau lleol, cynhaliwyd cynllun peilot gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru i adolygu'r broses archwilio ariannol draddodiadol. Ystyried sut oedd cynnal y sicrwydd gofynnol gan hefyd sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol ar draws adrannau Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru ac awdurdodau lleol oedd y nod.

Amcan y cynllun peilot oedd ystyried faint o werth fyddai symud i ffwrdd o gynnal profion helaeth ar drafodiadau ariannol, i ystyried pa weithgareddau a oedd yn cael eu cyflawni drwy grantiau a chanolbwyntio wrth archwilio ar ystyried a gyflawnwyd canlyniadau ai peidio.

Penderfynwyd erbyn hyn na fydd angen gofyn i Swyddfa Archwilio Cymru graffu ar ddyfarniadau grantiau i awdurdodau lleol drwy broses o archwiliad ariannol allanol mwyach. O 2019-20, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi eu hymddiriedaeth mewn swyddog â'r awdurdod priodol yn yr awdurdod lleol, sef Swyddog Adran 151 neu Brif Swyddog Cyfrifyddu.

## Bwrdd Gwella Effeithlonrwydd Llywodraeth Cymru

Mae Bwrdd Gwella Effeithlonrwydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar nodi cyfleoedd i leihau'r baich gweinyddol ar dimau Llywodraeth Cymru a sefydliadau allanol, gan geisio gwella effeithiolrwydd prosesau sylfaenol ar yr un pryd. Mae amryw o ffrydiau gwaith yn eu lle sy'n cynnwys y meysydd a ganlyn: yr Uned Cyrff Cyhoeddus, Adolygiad o Wasanaethau Corfforaethol, Timau Ceisiadau Sengl, Grwpiau Rhanddeiliaid ac un ar Grantiau a Sicrwydd

Cytunwyd ar y tri argymhelliad allweddol ar gyfer y Ffrwd Waith Grantiau a Sicrwydd ac maent yn cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd.

- **Y Panel Sicrwydd Grantiau** – mae'n darparu cyngor ymarferol a her i reolwyr grantiau ar ddechrau'r broses o ddatblygu cynllun grant gyda'r nod o ychwanegu gwerth a lliniaru risgiau. Mae aelodau'r panel wedi cael eu tynnu ynghyd o feysydd allweddol o'r busnes i ddarparu her adeiladol a sicrwydd ar gyfer cynlluniau grant wedi'u neilltuo newydd/arfaethedig, a chraffu arnynt, ac i wella prosesau yn y camau cychwynnol o'u datblygu. Cyfarfu'r Panel am y tro cyntaf ym mis Medi 2018 ac mae yn awr yn cyfarfod bob mis neu'n fwy rheolaidd pan fo angen.
- **Y Tîm Diwydrwydd Dyladwy Canolog** – ers iddo gael ei sefydlu ym mis Chwefror 2019, mae'r tîm wedi bod yn datblygu systemau a phrosesau i'w galluogi i ddarparu gwiriadau diwydrwydd dyladwy corfforaethol a llywodraethiant yn erbyn y sefydliadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hariannu neu'n ystyried eu hariannu. Gwella cysondeb, lleihau'r dyblygu a rhoi mwy o gymorth i reolwyr grantiau ar gam arfarnu'r broses grantiau yw'r nod. Mae'r cyfrifoldeb dros gynnal profion diwydrwydd dyladwy ar brosiectau (canlyniadau, gallu'r sefydliad i gyflawni'r prosiect a gwerth am arian) yn parhau yn nwylo'r timau polisi. Mae gwaith y Tîm Diwydrwydd Dyladwy Canolog yn mynd drwy gyfnod peilot ar hyn o bryd a byddant yn parhau i ennyn diddordeb rhanddeiliaid allweddol ar draws adrannau Llywodraeth Cymru wrth iddynt fwrw ati â'r gwaith fesul cam.

- **Y Model Gweithredu Targedau Grantiau** – mae'r model hwn yn adlewyrchu'r prosesau grant o'r dechrau i'r diwedd ac yn nodi pa swyddogaethau gweinyddol y dylai tîm unigol ymgymryd â nhw i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu cymhwyso'n gyson ac mewn modd sy'n cydymffurfio. Bydd perchenogaeth dros y cynlluniau grant yn parhau yn nwylo'r swyddogion polisi, a bydd hyn yn cynnwys penderfyniadau ynghylch pa sefydliad ddylai dderbyn cyllid grant. Mae'r broses o recriwtio aelodau i'r tîm hwn ar y gweill a bydd cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu i nodi sut y bydd y gwaith yn cael ei ddatblygu.

## Cyllid gan Lywodraeth Cymru

Mae'r data a gyflwynir ar gyfer 2018-19 yn seiliedig ar system o 'feysydd diwydiant allweddol', a gyflwynwyd yn benodol i ddarparu darlun clir o'r cyllid yn ôl sector ac yn arbennig y Trydydd Sector.

**Tabl 1: Cyfanswm Cyllid Grant Llywodraeth Cymru yn ôl Blwyddyn Ariannol**

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|---|
| Grant a ddarparwyd (£bn) | 13.8 | 14.3 | 14.9 |

Ffynhonnell: System Gyllid Llywodraeth Cymru

Yn 2018-19, gwnaeth 323 o gynlluniau grant fwy na 11,000 o gynigion cyllid newydd.

Mae'r tabl isod yn dangos lefelau'r cyllid wedi'i neilltuo a ddarparwyd i bob un o'r prif sectorau ar gyfer y tair blwyddyn ariannol ddiwethaf.

**Tabl 2: Cyllid Grant Wedi'i Neilltuo yn ôl Sector a Blwyddyn Ariannol**

| Cyllid Wedi'i Neilltuo (£m) | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|---|
| Awdurdodau Lleol | 1,329 | 1,334 | 1,335 |
| GIG | 19 | 19 | 17 |
| Llywodraeth Ganolog a Chorfforaethau Cyhoeddus | 37 | 36 | 181 |
| Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | 31 | 36 | 62 |
| Cyllid ar gyfer Addysg | 434 | 434 | 458 |
| Y Sector Preifat | 689 | 675 | 555 |
| Y Trydydd Sector | 251 | 270 | 337 |

Ffynhonnell: System Gyllid Llywodraeth Cymru

## Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Mae'r tabl isod yn dangos cynnydd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) wrth neilltuo'r grant sydd ar gael dan y Cronfeydd Strwythurol y mae'n eu cyflenwi yng Nghymru, fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019:

| Cyllid wedi'i neilltuo (£m) | Y Gorllewin ERDF £m | Y Dwyrain ERDF £m | Y Gorllewin ESF £m | Y Dwyrain ESF £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyraniad | 1,036 | 175 | 688 | 174 | 2,073 |
| Gwerth y Grant | 942 | 162 | 641 | 134 | 1,879 |
| Nifer y Gweithrediadau | 94 | 35 | 59 | 39 | 227 |
| % a Gymeradwywyd | 91% | 93% | 93% | 77% | 91% |

Mae'r Cronfeydd Strwythurol yn cynnwys Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF).

Mae WEFO wedi parhau i weithio tuag at y targed ymrwymiad o 100% yn unol â'r warant wreiddiol gan Drysorlys Llywodraeth y DU, fodd bynnag, mae'r estyniad i gynnwys cymeradwyaeth hyd at fis Rhagfyr 2020 wedi golygu bod hyblygrwydd yn awr i neilltuo cronfeydd y tu hwnt i'r dyddiad ymadael.

Erbyn diwedd mis Mawrth 2019, roedd WEFO wedi neilltuo 91% o'i raglenni Cronfeydd Strwythurol ar gyfer 2014–20. Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, ar gyfartaledd, roedd 95% o'r holl Gronfeydd Strwythurol wedi cael ei neilltuo, ac mae 240 o weithrediadau wedi'u cymeradwyo erbyn hyn, sy'n gyfanswm o £3.4bn o wariant. Prif feysydd y rhaglenni sydd â chyllid ar ôl i'w neilltuo o hyd yw ynni'r môr, sy'n ddiwydiant cymharol newydd ag iddo amryw o faterion technegol ac ariannol i'w goresgyn a'r Flaenoriaeth newydd ar gyfer Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus a Gweithio'n Rhanbarthol o dan yr ESF. Golyga hyn fod rhywfaint o hyblygrwydd eto i fynd i'r afael ag effeithiau ansicr mewn perthynas â'r trefniadau pontio o'r UE ac mai ychydig iawn o risg sydd i brosiectau a gymeradwywyd eisoes.

O ran y gwariant sydd wedi'i ddatgan (cyfanswm gwariant y rhaglen y mae WEFO wedi'i ddatgan i'r Comisiwn Ewropeaidd a ddefnyddir fel sail ar gyfer talu ein hawliadau am gyllid), mae Cymru yn dal i berfformio'n dda gyda 24% o werth y rhaglen wedi'i hawlio oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r gwariant sydd wedi'i ddatgan yn 18% ar gyfartaledd ar draws yr Undeb Ewropeaidd yn gyfan. Yn y DU yn gyffredinol, mae'r gyfradd hon yn 14%.

Yn ogystal â'r rhaglenni rhanbarthol, mae WEFO hefyd yn gweinyddu'r rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Iwerddon / Cymru. Mae'r cynnydd ar gyfer y rhaglen hon fel a ganlyn:

| Iwerddon / Cymru | €m |
|---|---|
| Dyraniad | 79 |
| **Cymeradwywyd:** | |
| Gwerth y Grant | 57 |
| Nifer y Gweithrediadau | 17 |
| % Cymeradwywyd | 72% |

Mae'r prif uchafbwyntiau o'r cyfnod adrodd diwethaf yn cynnwys:

- **Fframwaith Perfformiad** – roedd rheoliadau'r Rhaglen yn gosod targedau ar gyfer pob Aelod-wladwriaeth i'w cyrraedd erbyn mis Rhagfyr 2018. Gosodwyd y targedau hyn er mwyn caniatáu i gyllid gael ei ail-ddosbarthu lle nad oedd blaenoriaethau ac Aelod-wladwriaethau yn gwireddu'r cynlluniau cyflawni gwreiddiol. Cyflawnodd WEFO dargedau ym mhob blaenoriaeth ERDF ar wahân i un, fel y rhagwelwyd, a chafodd y cyllid ei symud i faes arall o raglen Cymru. Ar gyfer ESF, bodlonwyd pob targed gwariant. Ond roedd un o'r targedau allbwn nad oedd wedi'i gyflawni yn achos y ddwy Raglen. Fodd bynnag, ni wnaeth Cymru golli cyllid oherwydd hyn gan fod modd dyrannu'r cyllid wrth gefn sy'n gysylltiedig â'r targed hwn i faes arall yn rhaglenni Cymru.
- **Gohebiaeth** – cyfrannodd WEFO wybodaeth a chyngor ar oblygiadau Brexit heb gytundeb i'r sefydliadau sy'n cymryd rhan yn rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol, Cydweithredu Tiriogaethol a Horizon 2020 ar gyfer gwefan Paratoi Cymru Llywodraeth Cymru. Ysgrifennodd WEFO at bob rhanddeiliad hefyd gyda chanllawiau ar oblygiadau senarios Brexit ar gyfer rheoli prosiectau a cheisiadau am gyllid.
- **Trefniadau Gwrth-dwyll** – yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, darparodd Swyddog Gwrth-dwyll Llywodraeth Cymru hyfforddiant pwrpasol i staff WEFO. Roedd yr hyfforddiant hwn yn cwmpasu'r hyn a allai fynd o'i le gyda Chyllid Grant a sut i atal achosion eraill eto yn y dyfodol.

## Adolygiadau annibynnol o WEFO

Mae WEFO yn destun adolygiad gan Dimau Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd Llywodraethiant a Sicrwydd Llywodraeth Cymru a chan y Comisiwn Ewropeaidd. Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad "Rheoli effaith Brexit ar gronfeydd strwythurol yr UE" ym mis Awst 2018. Roedd yr adroddiad yn gadarnhaol yn gyffredinol am gamau gweithredu WEFO wrth reoli Cronfeydd Strwythurol yr UE yng nghyd-destun Brexit. Ystyriwyd yn yr adroddiad faterion ehangach yn ymwneud â Gwarant Trysorlys Llywodraeth y DU a materion yn ymwneud â'r hyn a fydd yn dod yn lle'r Cronfeydd Strwythurol ar ôl Brexit. Yn benodol, mewn perthynas â'r ffordd y rheolwyd y Cronfeydd Strwythurol gan WEFO, daethpwyd i'r casgliad yn yr adroddiad fod WEFO wedi mynd ati'n gadarn i gadw cydbwysedd er gwaetha'r bwriad i wario cyllid yn gyflymach cyn Brexit.

Mae sylwadau allweddol o'r adroddiad yn cynnwys y canlynol:

- Mae WEFO wedi cryfhau ei ddull o gymeradwyo prosiectau ac nid yw ond yn ymrwymo i'r rheini sy'n bodloni meini prawf caeth ac sy'n cyd-fynd â'i blaenoriaethau strategol.
- Mae gan WEFO archwiliadau manwl i sicrhau na all prosiectau ond hawlio cyllid os gallant ddangos eu bod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion cyflawni a chymhwyso.
- Mae trefniadau clir ar waith ar gyfer monitro ac adrodd ar y cynnydd gyda'r rhaglen yn gyffredinol.

## Y Tîm Archwilio Cyllid Ewropeaidd

Cafodd yr adolygiadau o brosesau WEFO gan y Tîm Archwilio Cyllid Ewropeaidd eu hystyried yn rhai Categori 1 (Yn gweithio'n dda; dim ond mân welliannau sydd eu hangen) neu 2 (Yn gweithio, ond mae angen gwelliannau cymedrol). Nid oedd angen addasu prosesau WEFO yn sylweddol o ganlyniad i'r adolygiadau hyn.

Ychydig iawn o faterion a ddaeth i'r amlwg yn sgil yr adolygiad a gynhaliwyd gan y Tîm Archwilio Cyllid Ewropeaidd o'r gweithrediadau a gaiff eu monitro a'u hariannu gan WEFO. Mae lefel y gydymffurfiaeth yn cael ei chynrychioli fel cyfradd wallau:

| Blwyddyn | 2018 | 2017 |
|---|---|---|
| Cyfradd Wallau | 0.10% | 0.05% |

Mae'r gyfradd wallau yn dangos lefel y gwariant a hawliwyd oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd nad oedd mewn gwirionedd yn briodol ei godi ar gyllidebau'r UE. Y rheswm am hyn fel arfer yw nad oes trywydd archwilio digonol neu am na gydymffurfiwyd â rheoliadau caffael.

### Y Comisiwn Ewropeaidd

Cafodd prosesau WEFO eu hadolygu yn ystod y flwyddyn gan y Tîm Archwilio Cyllid Ewropeaidd, sy'n adrodd ar eu canfyddiadau i'r Comisiwn Ewropeaidd.

# Bodloni ein hymrwymiad i Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus Cymru feddwl mwy am y tymor hir, a gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a chyda'i gilydd, er mwyn canolbwyntio ar atal problemau cyn iddynt ddigwydd a mabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig. Mae saith Nod Llesiant y Ddeddf a'r egwyddor datblygu cynaliadwy (y pum ffordd o weithio) yn darparu fframwaith clir ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus i wneud penderfyniadau. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gymryd camau i weithio'n wahanol a gwireddu buddiannau'r Ddeddf.

Mae'r Cabinet wedi egluro sut y bydd yn cyfrannu at y saith nod llesiant drwy 'Ffyniant i Bawb – y strategaeth genedlaethol' (gweler tudalen 4).

## Arweinyddiaeth yn Llywodraeth Cymru

Gan adeiladu ar y newidiadau i Gylch Gorchwyl y Bwrdd er mwyn darparu cyngor strategol yn unol â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a phenodi hyrwyddwr Bwrdd Llywodraeth Cymru, cafodd is-adran newydd ei sefydlu hefyd i gefnogi cydweithwyr ar bob lefel ar draws Llywodraeth Cymru i ymwreiddio 'ffyrdd o weithio' a meithrin gallu llunio polisïau.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaed amryw o newidiadau i'n systemau a'n prosesau corfforaethol i helpu i ymwreiddio egwyddorion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ymhellach yn ein gweithrediadau rheolaidd. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyno pecyn Asesu Effaith Integredig i helpu cydweithwyr i gynnal asesiad cyflawn o'r effaith a gaiff camau arfaethedig, gan gynnwys yr effeithiau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol. Mae'r pecyn hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd i sicrhau ei fod yn parhau'n addas at y diben. Mae hyn yn cyd-fynd â'r gwaith i adolygu'r gallu llunio polisïau yn Llywodraeth Cymru a fydd yn helpu i lywio rhaglen ddatblygu er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau. Disgwylir i'r gwaith hwn ddirwyn i ben ddiwedd 2019.

Cymerwyd amryw o gamau yng Nghyllideb 2019-20 i ymwreiddio'r Ddeddf. Cydnabuwyd y camau hynny gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Roeddynt yn cynnwys sicrhau bod y gyllideb yn cyd-fynd â'r amcanion llesiant, trafodaethau dwyochrog ar y gyllideb a gwaith i gytuno ar ddiffiniad o 'atal' gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a rhanddeiliaid.

Ym mhob ymarfer recriwtio i'r Uwch-wasanaeth Sifil, mae'n ofynnol yn awr fod gan yr ymgeiswyr yn wybodaeth am y Ddeddf a'u bod yn ei deall yng nghyd-destun gwaith y sefydliad. Rydym hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad i sicrhau bod egwyddorion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sylfaenol i'r ffordd rydym yn rheoli ein trefniadau caffael, yn ogystal â rheoli asedau a risg.

## Gweithio gydag eraill

Mae cydweithio ar draws ffiniau yn rhan sylfaenol o ethos llesiant ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi ymdrechu ar y cyd i wella'r ffordd rydym yn gweithio gydag eraill er mwyn rhoi'r egwyddor bwysig hon ar waith gyda'n partneriaid cyflenwi a'n rhanddeiliaid. Fel rhan o Grŵp

Rhannu y Cyrff Cenedlaethol, mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan weithgar mewn rhwydwaith o gydweithwyr o'r cyrff cenedlaethol hynny sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf.

Cafodd yr adroddiad 'Pawb gyda'i Gilydd!' ei gyhoeddi yn dilyn gwaith gyda'r Trydydd Sector yn nodi nifer o feysydd lle'r oedd angen gweithredu er mwyn rhoi'r Ddeddf ar waith. Mae'n parhau i lywio'r gwaith sy'n cael ei wneud ar gyfer rhoi'r Ddeddf ar waith yn Llywodraeth Cymru. Gallwch weld yr adroddiad diweddaraf yn: https://gweddill.gov.wales/docs/dpsp/publications/181108-workshops-report-cy.pdf

Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhan bwysig o'r darlun ehangach a darparodd Llywodraeth Cymru becyn cymorth cenedlaethol yn ogystal â chymorth wedi'i dargedu drwy gyllid rhanbarthol yn 2018-19. Mae'r cymorth hwn yn seiliedig ar annog Byrddau Gwasanaethau Lleol i gydweithio â Byrddau eraill wrth iddynt fwrw ati i gyflawni eu Cynlluniau Llesiant Lleol. Mae pob ardal wedi defnyddio cyllid rhanbarthol i sicrhau bod dulliau cyson yn cael eu rhoi ar waith ac er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a'r Ysgrifennydd Parhaol ac mae Gweinidogion yn cael cyfarfodydd rheolaidd â'r Comisiynydd a'i swyddfa gydol y flwyddyn. Mae'r sefydliad yn parhau i weithio'n agos gyda Swyddfa Archwilio Cymru ar ddyletswydd archwilio'r Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae natur arloesol y Ddeddf yn parhau i ennyn cryn ddiddordeb yn rhyngwladol ac mae Cymru yn cymryd rhan weithgar mewn rhwydweithiau rhyngwladol fel 'Rhanbarthau dros Ddatblygu Cynaliadwy', sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i rannu'r hyn a ddysgir ynglŷn â datblygu cynaliadwy ag eraill gan gasglu enghreifftiau o arferion gorau ledled y byd ar yr un pryd. Rydym hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr yng ngwasanaeth sifil Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gogledd Iwerddon ar adroddiad cyntaf Adolygiad Gwirfoddol Cenedlaethol y DU. Diben yr adroddiad hwn yw rhannu'r hyn a ddysgir a nodi'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu Agenda 2030 y Cenhedloedd Unedig (Y nodau datblygu cynaliadwy).





# Diogelu Dyfodol ein Sefydliad

Cynlluniwyd menter Paratoi at y Dyfodol yr Ysgrifennydd Parhaol i sicrhau bod staff Llywodraeth Cymru yn barod i fodloni'r heriau o gyflawni Ffyniant i Bawb a meithrin gwasanaeth sifil hyderus, medrus a chynaliadwy at y dyfodol. Mae Paratoi at y Dyfodol, a gafodd ei lansio yn 2017, wedi'i strwythuro ar sail pedair thema allweddol – sut rydym yn arwain, sut rydym yn perfformio, sut rydym yn dysgu a sut rydym yn gweithio.

Yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf, cafodd amryw o welliannau eu gwneud gan gynnwys y canlynol:

- Cyflwynwyd set newydd o ddisgwyliadau sefydliadol a gafodd eu datblygu gyda staff a chydweithwyr Ochr yr Undebau Llafur er mwyn egluro'r ymddygiadau a'r nodweddion y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwerthfawrogi. Mae'r rhain yn cynnwys arweinyddiaeth gynhwysol, ymrwymiad i ddatblygu a dysgu, cydweithio ar draws ffiniau a 'dulliau gweithio' Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Defnyddiwyd y disgwyliadau newydd i gryfhau'r dull o recriwtio i'r Uwch Wasanaeth Sifil ac i ddatblygu porth datblygu ac asesu cryfach a mwy tryloyw ar gyfer dyrchafu ar lefel Band Gweithredol.
- Hyfforddwyd mwy na 3,500 o aelodau o staff erbyn hyn yn y dull Dyfodol-Ymgysylltu-Cyflawni – ffordd syml o annog arweinyddiaeth gynhwysol, wasgaredig sydd wedi'i chynllunio i sicrhau bod timau ac unigolion yn rhoi o'u gorau drwy ganolbwyntio ar amcanion cyffredin, gweithredu'n gyflym, meithrin perthynas dda ag eraill a datblygu cryfderau pobl er mwyn annog pob un sy'n gweithio yn y sefydliad i roi o'i orau.
- Cyflwynwyd dull newydd o reoli perfformiad, sy'n seiliedig ar gryfderau. Mae'n golygu bod rhaid i unigolion a'u rheolwyr drefnu sgyrsiau yn fwy rheolaidd i edrych tua'r dyfodol. Seilir y dull hwn ar dystiolaeth ryngwladol o'r ymarfer gorau ac adborth a mewnbwn gan staff ar bob lefel. Mae'r ymgyrch 'Dewch i Drafod' newydd yn annog cydweithwyr i ganolbwyntio ar ddatblygiad a llesiant yn ogystal ag ymateb i flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg a chadw golwg ar y cynnydd o ran y cyflawni.
- Crëwyd rhaglenni datblygu newydd, strwythuredig, i reolwyr canol er mwyn meithrin gallu ac fe gafodd y cynnig ar gyfer dysgu a datblygu corfforaethol ei adolygu a'i adnewyddu.

Mae amryw o weithgareddau eraill hefyd yn cael eu paratoi i'w lansio ychydig ar ôl y cyfnod adrodd. Mae hyn yn cynnwys creu adnodd canolog newydd ar-lein ar gyfer yr holl weithgarwch dysgu a datblygu, gweithdai i helpu staff i baratoi ar gyfer ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, ymgyrch i hyrwyddo urddas a pharch yn y gweithle, a chyflwyno Gweithio'n Glyfar – dull sy'n canolbwyntio ar fusnes sy'n cefnogi mwy o hyblygrwydd, cadernid a chynhyrchiant yn y ffordd y mae staff yn gweithio – ar draws y sefydliad.

# Astudiaeth Achos

## Gwaith sydd wedi ennill gwobrau

**Gweithio'n Glyfar**

Cafodd ein cynllun peilot ei gynnal yn Swyddfa Merthyr Tudful o fis Mehefin 2016 i fis Mai 2017. Nod y cynllun peilot oedd profi faint o awydd oedd yn y sefydliad i gael trefniadau gweithio hyblyg a nodi sut y gallai bod yn fwy hyblyg helpu timau i ddiwallu amcanion busnes a gwella dulliau cyflenwi.

Cynhaliwyd gweithgarwch ymgysylltu dwys yn ystod y cynllun peilot a oedd yn cynnwys sesiynau i staff dan arweiniad uwch-arweinwyr, ardal benodol ar y fewnrwyd, deunyddiau a chanllawiau cynorthwyol, podiau newydd i'w defnyddio ar gyfer cyfarfodydd ad hoc, anffurfiol a pholisïau Adnoddau Dynol symlach a byrrach. Cynhaliodd pob tîm drafodaeth ynghylch sut y gallai gweithio'n fwy hyblyg eu helpu i gyflawni amcanion busnes. Creodd y timau Siarteri a oedd yn nodi eu hymrwymiadau a'r cymorth yr oeddynt am ei roi ar gyfer rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio.

Comisiynwyd adroddiad gwerthuso ffurfiol a oedd yn dangos bod:

- 92% o'r staff yn teimlo eu bod yn gallu gwneud eu gwaith yn effeithiol wrth weithio'n hyblyg
- 68% yn adrodd bod gweithio'n hyblyg wedi golygu eu bod yn cymryd llai o ddiwrnodau o absenoldeb salwch
- 68% wedi lleihau'r amser y maent yn ei dreulio yn teithio ar gyfer y gwaith
- 75% yn teimlo bod staff yn fwy cynhyrchiol yn sgil cynnal y cynllun peilot
- 77% yn teimlo bod y cynllun peilot wedi eu helpu i sicrhau gwell cydbwysedd rhwng eu llesiant ac ymrwymiadau gwaith
- 70% yn dweud bod y cynllun peilot wedi gwella'r ffordd mae eu timau yn gweithio ar draws amrywiol safleoedd

Yn ôl canlyniadau Arolwg Pobl 2018, staff swyddfa Merthyr sydd wedi ymgysylltu fwyaf. Mae'r sgoriau yn y swyddfa hon yn uwch na chyfartaledd Llywodraeth Cymru mewn llawer o feysydd allweddol a derbyniodd rhai cwestiynau sgoriau a oedd 10-11% yn uwch na chyfartaledd Llywodraeth Cymru.

Roedd canlyniadau'r cynllun peilot yn rhoi tipyn o ddealltwriaeth o ran datblygu glasbrint ar gyfer cyflwyno Gweithio'n Glyfar ledled y sefydliad, fel y lansiwyd gennym ym mis Mai 2019. Bydd hyn yn galluogi mwy o weithio'n hyblyg ym mhob un o'n swyddfeydd yng Nghymru.

Ym mis Chwefror, enillodd y cynllun peilot y Wobr Diwylliant a Phobl yng Ngwobrau Gweithio'n Glyfar 2019, cydnabyddiaeth ledled y DU gyfan a drefnwyd gan Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth.



# Gwella ein Gwasanaethau Corfforaethol

Mae timau polisi a chyflawni Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar amryw o wasanaethau corfforaethol ac arbenigol i'w cefnogi i ymgymryd â'u gwaith mewn modd mor broffesiynol ac effeithiol â phosibl. Yn ystod 2018-19, comisiynodd yr Ysgrifennydd Parhaol adolygiad o wasanaethau corfforaethol, a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar Adnoddau Dynol, Cyllid, Llywodraethiant Corfforaethol a Rheoli Cyfleusterau. Roedd yr adolygiad, a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Deloitte, yn edrych yn bennaf ar effeithiolrwydd, cysondeb ac effeithlonrwydd y gwasanaethau a ddarperir.

Roedd y dull hwn yn seiliedig ar ymgysylltu â staff ar draws Llywodraeth Cymru, dadansoddi'r trefniadau cyflawni presennol a dysgu o'r cyfeiriad a bennwyd wrth ddarparu gwasanaethau corfforaethol mewn mannau eraill. Gan adeiladu ar yr argymhellion a wnaed ar gyfer cyfleoedd i wella gwasanaethau, penderfynodd yr uwch-dîm rheoli symud tuag at ddull integredig o gyflenwi gwasanaethau corfforaethol.

Mae'r dull integredig yn seiliedig ar ddatblygu fframwaith cryfach i dimau weithio gyda'i gilydd drwy feddwl am wasanaethau fel un swyddogaeth gyfan. Bydd yn rhoi mwy o eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau ac yn galluogi Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y gwaith o gyflenwi gwasanaeth gweithredol a thrafodiadol yn cael ei wneud gan y rhan briodol o'r tîm, gan olygu bod llai o berygl o ddyblygu gwaith. Gall canolfannau rhagoriaeth a phartneriaid busnes ganolbwyntio felly ar ddarparu cyngor strategol, arbenigol. Dylai hyn hefyd olygu bod cydweithwyr yn cael gwasanaeth cyson a chydgysylltiedig, pa bynnag ran o'r gwasanaeth a ddefnyddiant.

Mae tîm prosiect bach yn arwain ac yn cydlynu'r gwaith gwella, gyda chysylltiad agos â'r fenter Diogelu'r Dyfodol. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar strategaeth, gwasanaeth, strwythur a sgiliau. Mae cyfleoedd technolegol ac i awtomeiddio yn sylfaen iddo ac mae'n cael ei wneud ar y cyd â chydweithwyr o bob rhan o'r gwasanaethau.

Mae'r uwch-dîm wedi cytuno ar ei weledigaeth ar gyfer gwasanaethau corfforaethol ac egwyddorion cynllunio cysylltiedig ar gyfer datblygu'r model integredig ar draws y pedair swyddogaeth. Cyflwynwyd hwn fel y dull strategol o baratoi gwasanaethau corfforaethol at y dyfodol ac yn ystod y cyfnod adrodd cytunwyd ar weledigaeth ategol ar gyfer Adnoddau Dynol a gweledigaeth ar gyfer cyllid.

Yn wyneb yr ansicrwydd a'r pwysau ar adnoddau sy'n deillio o'r gwaith hanfodol ar y Trefniadau Pontio o'r UE, a'r posibilrwydd o Brexit 'Dim Cytundeb', penderfynwyd y byddai'n rhaid mynd ati i weithredu fesul cam, gan ddechrau gyda gwasanaethau Adnoddau Dynol. Mae'r gwaith hwn bellach ar y gweill.

Mae'r cynnydd hyd yma wedi cynnwys ailgynllunio'r dull o ddarparu cyngor ar achosion Adnoddau Dynol i ganoli'r gwasanaeth a chryfhau'r cymorth sydd ar gael, a gwella trefniadau recriwtio. Disgwylir i gryn dipyn o'r gwaith ehangach gael ei gwblhau yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

# Astudiaeth achos

## Y Model Buddsoddi Cydfuddiannol

Mae'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol wedi'i ddatblygu gan Lywodraeth Cymru i ariannu prosiectau cyfalaf mawr oherwydd prinder cyllid cyfalaf. Mae'n ffordd arloesol o fuddsoddi mewn seilwaith cyhoeddus, cefnogi buddsoddiad ychwanegol mewn prosiectau seilwaith cymdeithasol ac economaidd a gwella'r modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cyflenwi yng Nghymru.

Mae cynlluniau'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn golygu y gall partneriaid preifat gynllunio, adeiladu, ariannu a chynnal asedau cyhoeddus. Yn gyfnewid am hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn talu ffi i'r partner preifat i dalu'r costau sy'n codi wrth ymgymryd â'r gweithgareddau hyn. Caiff ysgogiadau eu cynnwys yn y Model i sicrhau bod y sector preifat yn cyflawni ar amser ac yn unol â'r gyllideb, a'i fod yn cynnal y seilwaith dros oes y contract. Mae rhwymedigaeth ar bartneriaid preifat i helpu i wireddu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a rhaid iddynt gyflawni buddiannau cymunedol ymestynnol, ymrwymo i god cyflogaeth foesegol Llywodraeth Cymru ac adeiladu at lefelau uchel iawn o gynaliadwyedd amgylcheddol.

### Cynlluniau Presennol y Model Buddsoddi Cydfuddiannol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal amryw o gynlluniau gan gynnwys gwaith deuoli rhannau 5 a 6 o'r A465 rhwng Dowlais a'r Hirwaun a buddsoddiad ychwanegol ym Mand B y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.



# Ein Hymrwymiad i Urddas a Pharch

Un o flaenoriaethau mwyaf yr Ysgrifennydd Parhaol yw creu amgylchedd lle y gall pobl deimlo eu bod yn gallu bod yn nhw eu hunain, a herio pan fo angen iddynt wneud hynny. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cynnwys pobl o bob rhan o'r sefydliad i ddeall sut y gallwn fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau tybiedig rhag herio ymddygiadau annerbyniol ac, ar yr un pryd, hyrwyddo gwerth cynwysoldeb diwylliannol. Adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn gadarnhaol yn y sefydliad fu'r nod a hyrwyddo'r ymddygiad rydym am ei weld.

Mae hyn wedi arwain at ymgyrch fewnol uchel ei phroffil 'Dewch i Drafod', dan arweiniad yr Ysgrifennydd Parhaol, a ddatblygwyd gyda chymorth ein Hundebau Llafur a rhwydweithiau amrywiaeth staff. Mae'r ymgyrch wedi cael ei strwythuro ar sail pum ymrwymiad craidd, a nifer o gamau wedi'u priodoli i bob un ohonynt. Ceir amrywiaeth o ymrwymiadau, o uchelgeisiau strategol ar gyfer y tymor hwy fel hyrwyddo rhaglenni a llwybrau datblygu clir ar gyfer cydweithwyr â nodweddion gwarchodedig a buddsoddi yn arweinwyr y dyfodol er mwyn bod yn enghraifft o'r ymddygiadau rydym yn eu hannog, i bethau y gellir eu cyflawni'n fwy cyflym.

Mae'r camau cyflym hyn yn cynnwys cyflwyno llinell gymorth ddiduedd i staff ar gyfer trafod materion sy'n ymwneud ag ymddygiad annerbyniol yn ddienw, yn ogystal â datblygu animeiddiad ac adnoddau cefnogi i hyrwyddo dealltwriaeth well o fodel cymdeithasol anabledd.

Mae gwaith helaeth wedi parhau drwy'r Cynllun Gweithredu ar Gynhwysiant ac Amrywiaeth (2016-20), sydd wedi bod yn sail i'r ymgyrch, er mwyn gwireddu nod Llywodraeth Cymru o fod yn esiampl o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant erbyn 2020. Mae Grŵp Llywio ar Amrywiaeth a Chynhwysiant yn goruchwylio cynnydd ac yn ysgogi drwy amrywiaeth o weithgareddau sydd wedi cynnwys ymestyn ein cynllun mentora o chwith ar gyfer uwch-weision sifil, rhaglenni hyfforddiant newydd ar amrywiaeth a chynhwysiant, sesiynau 'Hyderus o ran Anabledd' ar gyfer uwch-reolwyr a digwyddiad TED X arloesol ar Arweinyddiaeth Gynhwysol.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio ar wella ein cymorth ar gyfer ein cydweithwyr anneuaidd, ac wedi diweddaru ein canllawiau a'n darpariaeth ar gyfer cydweithwyr beichiog ac sy'n bwydo ar y fron, a chyflwyno grŵp cefnogaeth gan gymheiriaid ar gyfer Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth.

Byddwn yn gweithio i ymwreiddio'r model cymdeithasol o anabledd ar draws adrannau Llywodraeth Cymru, gan wneud y model cymdeithasol yn real a phendant i bobl drwy ddatblygu adnoddau a chanllawiau clir a diddorol, a dangos a dathlu'r timau hynny sydd wedi ymwreiddio'r model cymdeithasol yn llwyddiannus yn y gweithle a/neu yn eu meysydd polisi, gan ddileu rhwystrau i drawsnewid hygyrchedd a chydraddoldeb. Byddwn yn cymryd camau yn fewnol i ddileu rhwystrau a sicrhau bod gennym weithle cwbl gynhwysol ac yn ymchwilio i'r ffyrdd gorau o ymwreiddio syniadau'r model cymdeithasol ar draws ein gwaith allanol, gan greu polisi gwella a gwasanaethau gwell i bawb.

Mae gan bob grŵp hyrwyddwyr amrywiaeth i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn eu maes busnes yn ogystal â noddi rhwydwaith amrywiaeth. Mae gweithgareddau rhwydweithiau staff yn ystod y flwyddyn wedi cynnwys digwyddiadau ar gyfer Diwrnod Pobl Anabl y Cenhedloedd Unedig, Mis Hanes LHDT a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod.

Nodwyd bwlch cyflog rhwng y rhywiau o 7.96% (yn seiliedig ar gyflogau cyfartalog) yn 2018. Roedd hwn yn gwymp bach o'r flwyddyn flaenorol. Ymunodd Llywodraeth Cymru â meincnod Cyflogwr Chwarae Teg ac mae'n gweithio'n agos â hwy ar hyn o bryd i ddatblygu cynllun gweithredu i leihau'r bwlch cyflog rhwng y ddau ryw.

Defnyddiwyd nifer o gynlluniau meincnodi i asesu'r gwaith amrywiaeth a chynhwysiant a wnaed. Cafodd Llywodraeth Cymru ei rhoi yn yr 8fed Safle ar Fynegai Stonewall o 100 o Gyflogwyr Gorau y DU 2019 – y tro cyntaf iddi gael ei rhoi yn y 10 Uchaf. Cydnabu Stonewall Llywodraeth Cymru hefyd fel un o'r cyflogwyr mwyaf cynhwysol o bobl draws. Cymerodd y sefydliad ran yn ymarfer meincnodi Cyflogwyr o blaid Hil Busnes yn y Gymuned am y tro cyntaf yn 2018 a chafodd ei restru ymhlith y Cyflogwyr Gorau o ran Hil. Cafodd Llywodraeth Cymru statws aur gan a:gender unwaith eto, sef Rhwydwaith Cymorth y Gwasanaeth Sifil ar gyfer staff traws a rhyngrywiol ar draws y llywodraeth ac mae'n sefydliad sy'n Arweinydd Hyderus o ran Anabledd. Cafodd y dyfarniad hwn ei roi ym mis Hydref 2017 ac mae'r achrediad yn para am dair blynedd.

Mae gwybodaeth am dargedau anabledd a Phobl Dduon, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig (BAME) Llywodraeth Cymru (yn ogystal â'r ymrwymiad 50/50 erbyn 2020) wedi'i chynnwys yn y Cynllun ar Amrywiaeth a Chynhwysiant, sydd i'w weld ar ein mewnrwyd ar gyfer staff.

Mae'r targedau fel a ganlyn:

- 50% o'r Uwch Wasanaeth Sifil yn fenywod erbyn 2020.
- Canran y staff BAME yn cynyddu o 2% (2015-16) i 2.5% erbyn 2020.
- Canran y staff anabl yn cynyddu o 4.8% (2015-16) i 5.8% erbyn 2020.

Pennwyd y canrannau hyn i ysgogi newidiadau gan gadw mewn cof hefyd y cyfyngiadau ar recriwtio allanol.

Mae cynnydd yn erbyn y targedau hyn yn cael ei fonitro'n fisol. Ddiwedd mis Mehefin 2019, roedd y ffigurau fel a ganlyn:

- 50% o'r Uwch Wasanaeth Sifil yn fenywod erbyn 2020 – **bellach yn 44%**
- Canran y staff BAME yn cynyddu o 2% (2015-16) i 2.5% erbyn 2020 – **bellach yn 2.4%**
- Canran y staff anabl yn cynyddu o 4.8% (2015-16) i 5.8% erbyn 2020 – **bellach yn 5.6%**

## Rhwydweithiau Amrywiaeth

Mae gan Lywodraeth Cymru bedwar rhwydwaith amrywiaeth staff. Mae'r rhwydweithiau'n rhoi llais i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, ac yn galluogi cydweithwyr i rannu profiadau a chefnogi ei gilydd. Maent hefyd yn gweithredu fel corff cynghori ar gyfer llunwyr polisi mewnol:

- **Ymwybyddiaeth a Chymorth Anabledd** – y rhwydwaith ar gyfer cydweithwyr anabl, gofalwyr a'r rhai sydd â buddiant mewn materion anabledd.
- **Y Rhwydwaith Staff o Leiafrifoedd Ethnig** – y rhwydwaith ar gyfer staff o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.
- **Menywod Ynghyd** – rhwydwaith cynhwysol sy'n annog twf personol ac yn cymell menywod i gefnogi ei gilydd i gyflawni'u potensial llawn a gweithio i sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y sefydliad.
- **PRISM** – y rhwydwaith ar gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd sy'n cefnogi staff sy'n arddel hunaniaeth lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol neu rywedd amrywiol (LGBT+).

Ceir hefyd rwydweithiau cefnogaeth gan gymheiriaid ar gyfer Mabwysiadu a Maethu, Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth, Materion y Meddwl (Iechyd Meddwl) a Gofalwyr.

# Astudiaeth Achos

## Gwaith sydd wedi ennill gwobrau

**Gwobr Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Y Tîm Datgarboneiddio**

Mae datgarboneiddio yn galw am newid sylfaenol mewn diwylliant a pholisi ar draws y llywodraeth a chamau gweithredu tymor byr a hirdymor. Mae'r Tîm Datgarboneiddio yn arwain ar weithredu Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd, drwy ystyried y trawsnewid sydd ei angen ar Gymru i fodloni'r targed deddfwriaethol o leihau allyriadau o 80% erbyn 2050, a chynghori ar hyn.

Mae datgarboneiddio yn awr yn faes â blaenoriaeth yn 'Ffyniant i Bawb – y strategaeth genedlaethol' ac mae camau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn rhan annatod o gyflawni saith nod llesiant Cymru.

Gosododd y Tîm Datgarboneiddio yr egwyddor datblygu cynaliadwy o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth galon ei waith datblygu polisi. Datblygwyd ganddynt strwythur llywodraethiant trawslywodraethol aml-haenog, o Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidog i weithgorau polisi, gan gynnwys a chydweithio â phartïon â buddiant a rhanddeiliaid, a phob un ohonynt yn cael eu harwain gan y pum ffordd o weithio.

Aeth y Tîm ati'n benodol i gynnwys pobl ifanc i sicrhau eu bod yn cael llais mewn penderfyniadau a fydd yn cael effaith ar eu dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys cystadleuaeth mewn ysgolion ynglŷn â sut y bydd Cymru yn edrych yn 2050 ac ymgynghoriad i bobl ifanc. Mae'r dull gweithredu hwn wedi datblygu agweddau hanfodol ar gyflawni deddfwriaeth gan gynnwys pennu'r cyfrifiad allyriadau i Gymru, drafftio targedau interim a chyllidebau carbon a datblygu cynllun cyflawni mewn ffordd gydweithredol sy'n ystyried yr effeithiau ar genedlaethau'r dyfodol. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei gwblhau ar y cyd â, a gyda chymeradwyaeth lawn, swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.



# Gweithio'n Ddwyieithog

Mae Safonau'r Gymraeg wedi bod yn rhan annatod o arferion gweithio Llywodraeth Cymru o ddydd i ddydd ers iddynt ddod i rym am y tro cyntaf yn 2016. Ymdrecha'r sefydliad i sicrhau bod pob dinesydd yng Nghymru yn gallu ymgysylltu â'i lywodraeth yn ei ddewis iaith bob amser. Ein gweledigaeth yw dod yn sefydliad sy'n esiampl i eraill gan sicrhau bod gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan yn llawn i gynorthwyo'r Prif Weinidog i gyflawni'r uchelgais o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, fel y nodir yn Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, ein Strategaeth ar gyfer y Gymraeg. Mae hyn yn golygu datblygu'r polisïau angenrheidiol i hybu'r Gymraeg ledled Cymru, ond hefyd arwain y ffordd fel cyflogwr y sector cyhoeddus. Mae gwaith ar y gweill i hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith yn fewnol yn y sefydliad er mwyn darparu cyfleoedd i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Adolygir y cyfleoedd dysgu Cymraeg a ddarperir i staff Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, a'r nod yw sicrhau eu bod yn diwallu anghenion dysgwyr sydd ar wahanol lefelau ac yn cynnig amrywiaeth o opsiynau er mwyn ymateb i amrywiol ddulliau dysgu. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei ddwysáu er mwyn cyfateb i'r un miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Yn unol â'n dyletswyddau statudol rydym yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gydymffurfio â'r Safonau Iaith. Mae adroddiad blynyddol 2018-19 i'w weld ar wefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-safonaur-gymraeg-2018–2019



# Gweithio mewn Partneriaeth

Ochr yr Undebau Llafur yw'r corff ambarél sy'n cydgysylltu safbwyntiau'r tri undeb llafur a gydnabyddir gan Lywodraeth Cymru.

Mae tîm rheoli Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos mewn partneriaeth ag Ochr yr Undebau Llafur, sy'n cynrychioli eu haelodau ar amrywiaeth eang o amodau gwasanaeth a materion eraill cysylltiedig â gwaith.

Pan gynigir newidiadau polisi a fydd yn effeithio ar staff, ymgynghorir yn ffurfiol ag Ochr yr Undebau Llafur a chynhelir trafodaethau ag aelodau fel y bo'n briodol. Mae gan Ochr yr Undebau Llafur a gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru Gytundeb Partneriaeth hirsefydlog sy'n darparu fframwaith ar gyfer eu trefniadau cydweithio.

Mae sicrhau bod staff yn derbyn cefnogaeth lwyr, yn aros yn iach a bod ganddynt amgylchedd diogel yn rhan bwysig o ddull iechyd a diogelwch Llywodraeth Cymru ac rydym yn gweithio'n agos gydag Ochr yr Undebau Llafur i wella hyn yn barhaus.

Yn 2018, sicrhaodd Llywodraeth Cymru achrediad eto i Gyfres Asesu Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol 18001 – fframwaith wedi'i gynllunio i helpu sefydliadau i gyflwyno system reoli iechyd a diogelwch sy'n cyd-fynd ag arferion gorau a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Mae'r sefydliad wedi gweithredu nifer o welliannau, sy'n cynnwys datblygu cyfres o asesiadau risg cyffredinol sy'n sicrhau bod gan staff fynediad at systemau gwaith diogel wrth gyflawni eu dyletswyddau. Darparwyd hefyd hyfforddiant effeithiol ac ystyrlon ar-lein ac wyneb-yn-wyneb, i godi ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau iechyd a diogelwch, yn ogystal ag edrych ar sut i reoli straen a phwysigrwydd llesiant.

Mae prosesau monitro ac adolygu parhaus yn sicrhau bod y systemau'n parhau i gydymffurfio a'u bod yn effeithiol o hyd, a bod unrhyw gyfleoedd ar gyfer gwella'n cael eu nodi a'u gweithredu.

Y llynedd, cytunodd Bwrdd Llywodraeth Cymru ar Strategaeth Llesiant newydd i helpu'r sefydliad i fod yn weithle iachach sy'n cefnogi cydweithwyr i ofalu am eu llesiant corfforol a meddyliol. Yn unol â'r Strategaeth, cyflwynwyd "Awr Lesiant" i roi awr yr wythnos i staff (ar sail pro rata i'r rhai sy'n gweithio'n rhan-amser) i ganolbwyntio ar weithgareddau a fydd yn cynnal neu'n gwella eu hiechyd corfforol a meddyliol. Bydd y fenter hon yn cael ei gwerthuso i nodi arferion gorau a sicrhau ei bod yn bodloni ei hamcanion.

# Gwarchod ein Hamgylchedd

Rydym yn ymroddedig i greu ystad weinyddol sy'n fwy cynaliadwy ac rydym wedi parhau i wella ein perfformiad amgylcheddol yn ystod 2018-19. Rydym wedi gweithio'n agos gyda chontractwyr craidd a chydweithwyr yn fewnol i ddatblygu arferion cynaliadwy ymhellach, rhannu gwybodaeth a gwella cysylltiadau â'r strategaethau perthnasol.

Rydym wedi rhagori'n llwyddiannus ar ein targed lleihau carbon ar gyfer 2020, ac wedi lleihau ein hallyriadau o 66% ers blwyddyn waelodlin 2010-11. Rhwng 2017-18 a 2018-19 lleihaom ein hallyriadau o ychydig dros 1,200 o dunnelli o CO2.

Ailgylchwyd 88% o'n gwastraff yn 2018-19 ac rydym bron â chyflawni'r nod o dim gwastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi, gyda llai na 1% yn cael ei waredu fel hyn. Ar yr un pryd, rydym hefyd wedi lleihau ein defnydd o ddŵr fesul person o 5%. Mae prosiectau bioamrywiaeth ar yr ystad yn ymdrechu i gefnogi bywyd gwyllt lleol drwy greu cynefinoedd newydd a phlannu planhigion brodorol. Ddiwedd 2018, cafodd naw cwch gwenyn newydd, a phob un ohonynt yn dal hyd at 50,000 o wenyn, eu gosod ar do swyddfa Parc Cathays. Bydd gwenynwyr lleol yn gofalu amdanynt. Mae gan Lywodraeth Cymru wenynfeydd yn ei swyddfeydd ym Merthyr Tudful, Cyffordd Llandudno ac Aberystwyth, yn ogystal ag amrywiol brosiectau bioamrywiaeth ar ei hystad weinyddol.

Mae rhagor o fanylion am allyriadau nwyon tŷ gwydr, gwastraff a gynhyrchwyd a defnydd o ddŵr ar yr ystad weinyddol i'w gweld isod:

| **Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr** | | **2014-15** | **2015-16** | **2016-17** | **2017-18** | **2018-19** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion Anariannol ('000 $tCO_2e$) | Cyfanswm Allyriadau Gros | 8.4 | 6.9 | 6.3 | 5.4 | 4.2 |
| | Allyriadau Gros Cwmpas 1 (Nwy) | 1.3 | 1.1 | 1.1 | 1.1 | 1.0 |
| | Allyriadau Gros Cwmpas 2 (Trydan) | 7.1 | 5.8 | 5.2 | 4.3 | 3.2 |
| Defnydd o Ynni Cysylltiedig (GWh) | Trydan | 13.4 | 11.8 | 11.6 | 11.2 | 10.5 |
| | Nwy | 7.1 | 5.8 | 5.8 | 6 | 5.7 |
| Dangosyddion Ariannol (£miliwn) | Gwariant ar Ynni | 2.1 | 2.1 | 2.1 | 2.0 | 2.1 |
| | Lwfansau'r Ganolfan Ymchwil Clinigol – Ystad weinyddol (2012 ymlaen) | 0.16 | 0.27 | 0.1 | 0.1 | 0.0 |

| **Gwastraff** | | **2014-15** | **2015-16** | **2016-17** | **2017-18** | **2018-19** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion Anariannol (tunelli) | Cyfanswm gwastraff (tunelli) | 500 | 498 | 563 | 350 | 372 |
| | Tirlenwi | 127 | 112 | 104 | 41 | 3 |
| | Troi gwastraff yn ynni | - | - | - | - | 41 |
| | Ailddefnyddiwyd/Ailgylchwyd | 314 | 322 | 396 | 222 | 245 |
| | Wedi'i gompostio (bwyd) | 59 | 64 | 63 | 87 | 83 |

| **Dŵr** | **2014-15** | **2015-16** | **2016-17** | **2017-18** | **2018-19** |
|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion Anariannol (cu.m/person/bl) | 8 | 8 | 7.1 | 6.3 | 6.2 |

# Astudiaeth Achos

## Gwaith sydd wedi ennill gwobrau

**Gwerth am Arian: Y Tîm Palmentydd Cefnffyrdd**

Mae'r Tîm Palmentydd Cefnffyrdd a Thraffyrdd sy'n perthyn i'r Is-adran Rheoli'r Rhwydwaith o'r Adran Drafnidiaeth wedi nodi prosesau newydd i fynd i'r afael ag arwynebau ffyrdd nad ydynt ddigon da. Mae amodau ffyrdd diffygiol yn achosi cryn anrhefn, yn costio miliynau o bunnoedd ac mae effeithiau hinsawdd sy'n gynyddol anwadal yn gwaethygu'r sefyllfa. Mae sicrhau bod oes deunyddiau ffyrdd yn cael ei ymestyn yn sylfaenol i fodloni'r gofynion a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Symud Cymru Ymlaen a Ffyniant i Bawb.

Defnyddiwyd meddalwedd penodol a gwaith modelu, dadansoddi a rhagfynegi proffil amodau ffyrdd cyfnewidiol i brofi bod angen ymateb dyfeisgar rwydwaith arwynebau ffordd sy'n ddiffygiol. Gweithiodd y Tîm yn ddiflino i ddatblygu deunydd ffyrdd newydd gwydn a diogel, sŵn isel, gyda phriodoleddau cynaliadwy. Mae hyn wedi sicrhau bod Cymru yn awr ar flaen y gad o safbwynt cynnal a chadw traffyrdd yn Ewrop ac mae'n agosach at y nod eithaf o ddarparu gwasanaeth gwell i'r cyhoedd sy'n teithio yng Nghymru.

Bydd y fenter hon yn gwella hyd gwasanaeth, yn lleihau costau oes ffyrdd a gallai arwain at arbediad o £30m y flwyddyn.



# Rheoli ag Uniondeb

## Parchu Hawliau Dynol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gweithwyr yn cael eu trin yn deg a chyda pharch ac i sicrhau bod Cymru'n rhydd o gaethwasiaeth. Mae'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi yn rhan annatod o'r broses gaffael drwyddi draw. Caiff pob cyflenwr llwyddiannus ei annog i ymrwymo i'r Cod, ac mae gofyn i gontractwyr/partneriaid cadwyni cyflenwi weithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn rheoli perfformiad contractau'n barhaus i sicrhau bod arferion cyflogaeth teg yn cael eu dilyn.

Mae pob proses gaffael gwerth dros £25,000 yn ddarostyngedig i asesiad risg strategaeth, sy'n ystyried pa mor gynaliadwy yw'r gwasanaeth a'r potensial ar gyfer mynd i'r afael â meysydd penodol o'r Cod drwy delerau'r contract, er enghraifft talu'r cyflog byw.

Yn fewnol, mae'n rhaid i'r holl weithwyr caffael proffesiynol gwblhau hyfforddiant e-ddysgu Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi ar Gaffael Moesegol. Hefyd, datblygwyd modiwl hyfforddiant e-ddysgu y bydd rhaid i holl reolwyr contractau Llywodraeth Cymru ei gwblhau. Bydd hwn yn darparu gwybodaeth a dealltwriaeth o arferion cyflogaeth teg a moesegol iddynt a sut y gallant sicrhau bod y Cod yn cael ei ddilyn.

## Gwrth-lwgrwobrwyo a llygredd

Mae ein safonau a'n disgwyliadau mewn perthynas â'r ffordd y disgwylir i gyflogeion Llywodraeth Cymru ymddwyn wrth ymgymryd â'u dyletswyddau yn gwbl glir. Mae ein Telerau ac Amodau Gwasanaeth, Cod y Gwasanaeth Sifil, Cod Ymddygiad Staff a chanllawiau ar Reoli Arian Cyhoeddus Cymru yn canolbwyntio ar ein gwerthoedd craidd, sef uniondeb, gonestrwydd a didueddrwydd. Maent yn darparu cyngor clir na ddylai staff gamddefnyddio eu safle swyddogol i hyrwyddo buddiannau preifat na derbyn rhoddion neu letygarwch na buddion eraill gan unrhyw un mewn ffordd y gellid tybio yn rhesymol ei fod yn peryglu eu crebwyll neu uniondeb.

Mae gofyn i bob aelod o staff ddatgelu unrhyw fuddiannau busnes allanol a allai effeithio ar eu gwaith yn Llywodraeth Cymru a chael rheolwyr i gymeradwyo'r buddiannau hyn. Anfonir negeseuon rheolaidd i atgoffa staff o'r gofyniad hwn.

At hynny, cynhelir gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar sefydliadau a ariennir gennym, fel rhan o fesurau yn erbyn troseddau ariannol gan y rheini sy'n derbyn grantiau ac sy'n ennill contractau Llywodraeth Cymru.

Mae'r sefydliad hefyd wedi sefydlu Cangen Gwrth-dwyll sy'n gyfrifol am ymgorffori diwylliant gwrth-dwyll a llygredd a hyrwyddo dull dim goddefgarwch o ymdrin â thwyll a llygredd drwy ymchwilio i bob cyhuddiad, boed hwnnw yn erbyn swyddogion Llywodraeth Cymru neu yn erbyn trydydd partïon sy'n derbyn grantiau ac sy'n ennill contractau Llywodraeth Cymru. Mae'r Gangen mewn cysylltiad agos â Heddluoedd Cymru a grwpiau arbenigol eraill ac yn cymryd rhan mewn ymarferion paru data cenedlaethol i nodi achosion posibl o dwyll a gwrthdaro buddiannau. Mae'r Gangen Gwrth-dwyll hefyd yn gyfrifol am gynnal Polisi Gwrth-dwyll a Llygredd Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Ymateb i Dwyll.

Mae gan Lywodraeth Cymru Bolisïau Chwythu'r Chwiban hefyd fel llinell ffôn Adrodd am Dwyll a chyfleuster adrodd am dwyll ar-lein sy'n galluogi staff ac aelodau'r cyhoedd i godi unrhyw bryderon. Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer cydweithwyr yn sôn am feysydd fel twyll, llwgrwobrwyo a llygredd, a gwyngalchu arian.

Mae gofyn i bob Grŵp gadw Cofrestr Risg Twyll a Llygredd, sy'n nodi meysydd risg uchel ac yn amlinellu'r mesurau rheoli a sefydlwyd i liniaru'r risgiau hyn.

## Gwario ar gyhoeddusrwydd a hysbysebu

Yn unol â Ffyniant i Bawb a'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi cysylltiedig i Gymru, mae cyllidebau'n cael eu dyrannu i hyrwyddo Cymru mewn marchnadoedd allweddol yn y DU a thramor fel lle i dwristiaeth, mewnfuddsoddi, masnach ac allforio.

Ym maes busnes, mae Llywodraeth Cymru'n cynnal rhaglenni marchnata integredig, gan gynnwys gweithgarwch print, digidol ac awyr agored ar gyfer cynulleidfaoedd busnes-i-fusnes allweddol – gyda ffocws ar farchnad y DU. Cafwyd cynnydd o 60% yn nifer yr ymwelwyr â 'tradeandinvest.wales' yn 2018-19. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys darparu cymorth i Lywodraeth Cymru fod yn bresennol mewn cyfres o ddigwyddiadau masnachu a phenodol i sector. Mae canlyniadau'r gwaith hwn yn cael eu monitro'n ofalus i sicrhau bod unrhyw gysylltiadau a wneir yn cael eu mesur a'u meithrin gan swyddogion Llywodraeth Cymru.

Mae blaenoriaethau allweddol hefyd yn cynnwys buddsoddi mewn platfformau digidol newydd ar gyfer y dyfodol yn ogystal â mewn cynnwys difyr o sylwedd i hyrwyddo Cymru yn y DU a thu hwnt. Bydd yr holl gynnwys yn cael ei fonitro i werthuso lefelau ymgysylltu a'r elw ar fuddsoddiad.

Mae cyfathrebu yn rhan bwysig o waith Llywodraeth Cymru o ran hysbysu'r cyhoedd yng Nghymru am ein polisïau a'n blaenoriaethau. Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd ymdrech sylweddol i rannu negeseuon er mwyn paratoi Cymru ar gyfer y posibilrwydd o Brexit 'Dim Cytundeb' yn ogystal â sicrhau bod dealltwriaeth eang o safbwynt y Prif Weinidog a'r Cabinet ynglŷn â'n hymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd. Rydym hefyd wedi ymgymryd â chyfres o ymgyrchoedd i roi gwybodaeth i'r cyhoedd ac i newid ymddygiad er mwyn cefnogi ein gwaith o gyflawni canlyniadau polisi, er enghraifft cynyddu cyfraddau rhoi organau ac egluro ein system cymorth i fyfyrwyr newydd. Mae marchnata Cymru yn y DU ac yn rhyngwladol o dan y brand sy'n uno, Cymru Wales, yn dal i fod yn flaenoriaeth allweddol. Mae ymgyrchoedd mewn marchnadoedd targed yn canolbwyntio ar hybu twristiaeth a buddsoddiad busnes yng Nghymru.

## Cytundebau nawdd

Fel rhan o'r dull ehangach o sut mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi busnesau yng Nghymru ac yn hyrwyddo Cymru yn y byd fel cyrchfan busnes, derbynnir ceisiadau gan sefydliadau allanol i noddi digwyddiadau a gweithgareddau sy'n cyd-fynd â'i hamcanion busnes cyffredinol.

Gofynnir i'r rhai sy'n gwneud ceisiadau o'r fath ddarparu gwybodaeth am y digwyddiad, y gynulleidfa, y manteision i Lywodraeth Cymru o noddi'r gweithgaredd a'r risgiau posibl os na chefnogir y cais. Yna, caiff y cais ei ystyried yng nghyd-destun sut mae'n perthyn i'r amcanion

busnes perthnasol ac a yw'n cynnig gwerth am arian o ran brandio, cysylltiadau cyhoeddus, cyfathrebu, rhwydweithio/ cyflwyniadau a meithrin enw da. Byddai hefyd disgwyl i unrhyw ddigwyddiadau neu weithgareddau a gynhelir yng Nghymru ystyried gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Yn 2018-19 noddwyd amryw o sefydliadau a digwyddiadau gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys: gwobrau arloesi MediWales, Gwobr Twf Busnes y Cymoedd, Menter yr Ifanc Cymru a Gŵyl Lenyddiaeth a'r Celfyddydau y Gelli.

## Ymateb i Gŵynion

Mae gan Lywodraeth Cymru bolisi cwynion clir a thryloyw sy'n egluro ein dull o ymateb i gŵynion gan aelodau o'r cyhoedd neu sefydliadau eraill. Rydym wedi mabwysiadu arferion gorau o ran ymateb i gŵynion yn unol â pholisi a chanllawiau ar gŵynion enghreifftiol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Ymatebwyd i 123 o gŵynion yn 2018-19. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu dangosydd perfformiad allweddol (KPI) o 85% ar gyfer ymateb i gŵynion. Ymatebwyd i 68% o'r cwynion yn unol â'r amserlen hon. Mae'r sgôr hon wedi bod yn debyg dros y blynyddoedd diwethaf:

| | % lle cafwyd ymateb o fewn amserlen a gytunwyd |
|---|---|
| Ebrill 2017 – Mawrth 2018 | 69% |
| Ebrill 2018 – Mawrth 2019 | 75% |

Mae'r amser y mae'n cymryd i ymateb i gŵynion yn awr yn cael ei fonitro'n fisol ac yn cael ei rannu ag Arweinwyr ar Gŵynion ym mhob Grŵp. Mae hyn yn caniatáu iddynt dynnu sylw yn gynharach at ymatebion hwyr a rhoi camau ar waith i atal hyn rhag dod yn rhywbeth rheolaidd. Mae amrywiol resymau pam na fyddai rhywun yn cael ymateb i gŵyn yn unol â'r amserlen a bennwyd (cymhlethdod y gŵyn, lefel yr ymchwilio sydd ei hangen). Os bydd yr amserlen ar gyfer cwynion yn cael ei hymestyn, bydd yr achwynydd yn cael gwybod am hyn ymlaen llaw fel bod ganddynt yr wybodaeth ddiweddaraf. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â model Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, nid yw Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2018-19 wedi cael ei gyhoeddi eto. Fodd bynnag, mae'n hysbys bod 22 o gŵynion wedi cael eu gwneud a dim ond dau sydd wedi cael eu cyfeirio ymlaen at yr Ombwdsmon i ymchwilio iddynt.

Nid yw canlyniad y rhain yn hysbys hyd yma.

Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm nifer yr achosion a gafodd eu cau gan Ombwsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dros y pedair blynedd ddiwethaf:

| Blwyddyn | Cyfanswm yr achosion a gafodd eu cau |
|---|---|
| 2015-16 | 49 |
| 2016-17 | 43 |
| 2017-18 | 30 |
| 2018-19 | 20 |

# Rhan 2

## Adroddiad Atebolrwydd 2018-19

### Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cyfrifon adnoddau cyfunol blynyddol yn unol â'r cyfarwyddydau a roddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi, yn nodi'r adnoddau sydd wedi'u caffael, eu dal neu eu gwaredu a'r defnydd o adnoddau yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill a ddynodwyd yng Ngrŵp Llywodraeth Cymru ac a restrir yn y nodiadau i'r cyfrifon hyn. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o faterion Llywodraeth Cymru a'r grŵp, ac o incwm a gwariant, Datganiad o Sefyllfa Ariannol a llifoedd arian parod y grŵp ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Y Prif Swyddog Cyfrifyddu ar ran Gweinidogion Cymru biau'r cyfrifoldeb dros drefniadaeth gyffredinol, rheolaeth a staffio Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb dros systemau ar draws Llywodraeth Cymru ym maes cyllid a materion eraill, a thros reoli gofyniad net Llywodraeth Cymru am arian parod. Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol hefyd am baratoi a llofnodi cyfrif adnoddau cyfunol Llywodraeth Cymru.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) y Llywodraeth ac, yn arbennig:

- parchu'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan y Trysorlys, gan gynnwys gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru systemau a gweithdrefnau priodol a dibynadwy i gyflawni'r broses gydgrynhoi;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol, gan gynnwys y dyfarniadau sydd ynghlwm wrth gydgrynhoi'r wybodaeth gyfrifyddu a ddarperir gan gyrff cyhoeddus eraill yn y grŵp;
- datgan a oes safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodir yn FReM wedi'u dilyn a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol;
- cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn eu crynswth yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

O dan Adran 133(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gallu dynodi aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu hefyd yn dynodi Prif Weithredwr y GIG yn Swyddog Cyfrifyddu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae gwaith y Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru'n cael ei lywodraethu gan awdurdod ar wahân ac mae Prif Weithredwyr pob un o'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn cael eu penodi'n Swyddogion Cyfrifol gan Brif Weithredwr y GIG yng Nghymru. Nid yw'r penodiadau hyn yn tynnu oddi ar gyfrifoldeb cyffredinol y Prif Swyddog Cyfrifyddu dros gyfrifon Llywodraeth Cymru.

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu (neu Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol, ar ei rhan) wedi penodi Prif Weithredwyr (neu swyddogion cyfatebol) Cyrff Cyhoeddus Cymru fel Swyddogion Cyfrifyddu'r cyrff hynny. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am sicrhau bod systemau a rheolaethau yn eu lle i sicrhau bod unrhyw grantiau y mae Llywodraeth Cymru'n eu rhoi i Gyrff Cyhoeddus Cymru yn cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd. Mae'n gyfrifol hefyd am sicrhau bod modd cyfrif yn briodol am y gwariant hwnnw ac incwm a gwariant arall y cyrff hynny o fewn y cyfrifon adnoddau. O dan y telerau penodi, mae Swyddogion Cyfrifyddu Cyrff Cyhoeddus Cymru'n atebol am ddefnyddio, gan gynnwys rheoleidd-dra a phriodoldeb, y grantiau a dderbynnir ac incwm a gwariant arall y cyrff hynny.

Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros gadw cofnodion priodol, a diogelu asedau Llywodraeth Cymru neu'r corff Cyhoeddus Cymreig y mae'r swyddog cyfrifyddu'n atebol iddo, yn *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

## Datgelu Gwybodaeth i Archwilwyr

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod Archwilydd Cyffredinol Cymru'n gwybod am yr wybodaeth honno. Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r Archwilydd Cyffredinol yn ymwybodol ohoni.

# Datganiad Llywodraethiant

## Rhagymadrodd

Rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod safonau uchel o uniondeb yn y ffordd y rheolir arian cyhoeddus. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ategu cyflawni polisïau, nodau ac amcanion Gweinidogion Cymru, sy'n hwyluso arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru yn effeithiol ac sy'n cynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli risg.

## Y Fframwaith Llywodraethiant

Mae'r fframwaith llywodraethiant yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd a ddefnyddir i gyfeirio a rheoli Llywodraeth Cymru a'r gweithgareddau y mae'n atebol trwyddynt i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid trwyddynt. Mae'n galluogi'r sefydliad i fonitro'r modd y mae ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion yn cael eu cyflawni ac i weld a lwyddwyd i sicrhau gwerth am arian. Mae'r fframwaith yn cynnwys y cyrff hynny y cyflawnir blaenoriaethau ac ymrwymiadau'r llywodraeth trwyddynt a threfniadau mewnol ar gyfer gwneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cymru.

### Cyrff Cyhoeddus Cymru


Mae Llywodraeth Cymru'n cyflawni ei nodau a'i hamcanion, yn rhannol, trwy nifer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, is-gwmnïau a chyrff eraill a noddir gan y Llywodraeth. Mae Swyddogion Cyfrifyddu (neu Brif Weithredwyr) a benodir i bob corff yn gyfrifol am reolaeth eu sefydliad ar arian cyhoeddus ac mae'n ofynnol iddynt lofnodi datganiad llywodraethiant a gyhoeddir yng nghyfrifon blynyddol eu corff. Diffinnir y berthynas â Llywodraeth Cymru mewn dogfen ysgrifenedig ar gyfer pob corff. Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd y cynllun gweithredu sy'n deillio o adolygiad mewnol o'n Cyrff Cyhoeddus ar waith, gan gynnwys sefydlu Uned Cyrff Cyhoeddus newydd, i wella ymgysylltu a'r trefniadau llywodraethiant rhwng Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi.

### Trefniadau Mewnol Llywodraeth Cymru

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith llywodraethiant a bwriedir iddi liniaru risg annerbyniol. Mae Fframwaith Rheoli Cyffredin Llywodraeth Cymru yn nodi'r dirprwyaethau safonol sy'n gweithredu ar draws pob rhan o Lywodraeth Cymru.

Cefnogir y fframwaith llywodraethiant a'r system rheolaeth fewnol gan broses barhaus o reoli risg, sydd wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru, i werthuso pa mor debygol ydyw y caiff y risgiau hynny eu gwireddu, ac wedyn i'w rheoli yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Datblygwyd y fframwaith llywodraethiant i gydymffurfio â gofynion llywodraethiant da ac fe'i hategir gan Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru sy'n nodi'r egwyddorion ar gyfer delio ag adnoddau yn sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

## Y Strwythur Llywodraethiant Corfforaethol:



## Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Rwyf wedi cael fy annog gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i ddatblygu cyfres fwy cynhwysfawr o ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n gallu fy llywio a'm cefnogi i a'm huwch-gydweithwyr wrth arwain gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru. Rwyf yn croesawu'r adborth hwn am fy mod innau hefyd yn credu y bydd cyfres ddiwygiedig o ddangosyddion o gryn gymorth imi. Gofynnais i Jeff Farrar, un o'm swyddogion anweithredol ar Fwrdd Llywodraeth Cymru, arwain grŵp gorchwyl a gorffen gyda chylch gwaith o ystyried a gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Parhaol ar gyfres newydd o wybodaeth rheoli perfformiad a dangosyddion perfformiad allweddol mewn perthynas â'i chyfrifoldebau dros redeg Llywodraeth Cymru. Bydd Mr Farrar yn cyflwyno adroddiad imi cyn hir ac rwyf yn disgwyl i'w gynigion arddel mabwysiadu fframwaith sydd wedi'i ddatblygu gan y Sefydliad Llywodraethu ond gyda diwygiadau i adlewyrchu amgylchiadau yng Nghymru. Byddaf yn defnyddio ei gynigion i ddatblygu set newydd o ddangosyddion ar gyfer rhedeg Llywodraeth Cymru. Byddaf yn cynnwys adroddiad ar gynnydd fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf. Ymdrinnir ag adrodd ar berfformiad mewn perthynas â rhaglen y Llywodraeth ar wahân trwy fecanweithiau eraill.

## Adolygiad Llywodraethiant

Yn dilyn yr adolygiad o drefniadau llywodraethiant a wnaed y llynedd, cafodd strwythur newydd ei roi ar waith yn ystod 2018-19 i helpu tryloywder ac eglurder o ran gwneud penderfyniadau. Mae'r camau gweithredu sy'n deillio o'r adolygiad wedi'u rhoi ar waith i raddau helaeth, ond caiff y camau i wella gweithrediad y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth eu cwblhau yn y flwyddyn bresennol.

Cafodd y Pwyllgor Gweithredol ei sefydlu, gan ddisodli'r Uwch-dîm Arwain, ac fe ffurfiwyd dau is-bwyllgor newydd i gymryd drosodd waith cyn Is-bwyllgor Gweithrediadau'r bwrdd ond fel is-bwyllgorau i'r Pwyllgor Gweithredol yn hytrach na'r Bwrdd. Cafodd trefniadau'r Bwrdd eu hadolygu ac fe gafodd nifer y cyfarfodydd ei leihau o bob mis i bob chwe wythnos. Roedd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru'n cyfarfod drwy gydol y flwyddyn a daeth trefniadau diwygiedig ar gyfer Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg y Grwpiau i rym o Fedi 2018.

## Y Bwrdd

Fel Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu, fe'm cefnogir gan Fwrdd Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys 16 Aelod, yn Aelodau Anweithredol ac Aelodau Gweithredol. Mae cynrychiolwyr Ochr yr Undebau Llafur yn mynychu dau gyfarfod y flwyddyn. Mae'r Bwrdd yn fy nghynghori wrth imi wneud penderfyniadau strategol ynghylch sut y mae Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru'n cael ei ddatblygu i gefnogi'r Prif Weinidog a'r Gweinidogion ac yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r amcanion a'r strategaethau a nodir yn "Symud Cymru Ymlaen" a'r blaenoriaethau a nodwyd yn "Ffyniant i Bawb".

Cafodd Cylch Gorchwyl y Bwrdd ei ddiweddaru ym mis Mai 2019 i sicrhau ei fod yn nodi'r diben hwn yn glir ac yn llawn. Roeddwn yn cadeirio holl gyfarfodydd y Bwrdd ac yn cynnal cyfarfod dwyochrog yn rheolaidd ag Aelodau'r Bwrdd a hefyd â'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ar y cyd bob chwe wythnos. Rwyf wedi cytuno â'r Prif Weinidog y bydd yn ymgysylltu â'r Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn.

## Aelodaeth a Phresenoldeb y Bwrdd

| Aelodaeth Bresennol | Presenoldeb mewn Cyfarfodydd |
|---|---|
| Shan Morgan, yr Ysgrifennydd Parhaol | 7/7 |
| Elan Closs Stephens, Cyfarwyddwr Anweithredol (hyd at 30 Ebrill 2018) | 1/1 |
| James Turner, Cyfarwyddwr Anweithredol (hyd at 30 Ebrill 2018) | 1/1 |
| Ann Keane, Cyfarwyddwr Anweithredol | 7/7 |
| Ellen Donovan Cyfarwyddwr Anweithredol | 7/7 |
| Jeff Farrar, Cyfarwyddwr Anweithredol | 7/7 |
| Gareth Lynn, Cyfarwyddwr Anweithredol (o 20 Ebrill 2018) | 6/7 |
| Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol | 5/7 |
| Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus | 7/7 |
| Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Prif Weithredwr y GIG) | 7/7 |
| Des Clifford, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Swyddfa'r Prif Weinidog | 5/7 |
| David Richards, Cyfarwyddwr Llywodraethiant | 6/7 |
| Jeff Godfrey, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol | 6/7 |
| Peter Kennedy, Cyfarwyddwr, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Corfforaethol | 6/7 |
| Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid | 7/7 |
| Gillian Baranski, Arweinydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Bwrdd | 6/7 |
| Natalie Pearson, Pennaeth Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu | 5/7 |

## Hunanasesiad y Bwrdd o Berfformiad

Cynhaliwyd yr adolygiad blynyddol o'r Bwrdd ym Mai 2019 trwy gyfrwng ymarfer hunanasesu. Nododd yr ymarfer fod y Bwrdd o'r farn bod ganddo'r cydbwysedd cywir o sgiliau a phrofiad, ei fod yn cael yr wybodaeth y mae ei hangen i ymarfer ei rôl ac yn cael ei gefnogi'n dda gan yr Ysgrifenyddiaeth. Roedd y Bwrdd yn credu ei fod yn gryf o ran llywodraethiant (yn enwedig mewn perthynas â chynnwys Cyfarwyddwyr Anweithredol), darparu goruchwyliaeth ariannol, ac ystyried materion corfforaethol a strategol. Teimlai aelodau'r Bwrdd yn gyffredinol fod y Bwrdd yn gryf ar gynwysoldeb, o safbwynt cynnwys yr holl aelodau mewn cyfarfodydd a chefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y sefydliad ehangach. Fe nododd, er hynny, y gallai aelodaeth y Bwrdd fod yn fwy amrywiol. Nododd yr asesiad berthynas weithio gref rhwng y Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol (ExCo). Roedd y Bwrdd yn teimlo hefyd ei bod yn bwysig cydgysylltu agendâu'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol yn iawn er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn gallu cyfrannu ar yr adeg briodol. Roedd y meysydd eraill i'w datblygu a nodwyd yn cynnwys ffordd well o olrhain pwyntiau gweithredu ar ôl trafodaethau'r Bwrdd, gwella'r wybodaeth a roddir i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol o gyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredol a diwygio strwythur agendâu i ganiatáu mwy o amser i drafod materion corfforaethol allweddol a materion yn deillio o gyfarfodydd blaenorol. Mae diwrnod datblygu'r Bwrdd wedi'i amserlennu, a chaiff ei lywio gan yr hunanasesiad.

## Is-bwyllgorau'r Bwrdd

Roeddwn hefyd yn cael fy nghynghori gan ddau Is-bwyllgor y Bwrdd dan arweiniad Aelodau Anweithredol (y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth).

### Is-bwyllgor y Bwrdd: y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Mae Pwyllgor Archwilio a Risg Llywodraeth Cymru'n fy nghefnogi ar faterion ariannol. Roedd y Pwyllgor yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Anweithredol, fel un o ddau Gyfarwyddwr Anweithredol sy'n Aelodau o'r Pwyllgor hwn. Roedd Pwyllgorau Archwilio a Risg hefyd yn gweithredu ar lefel Grŵp o ail hanner 2018/19, gyda'u tri Chadeirydd yn ffurfio gweddill aelodaeth Pwyllgor Archwilio a Risg Llywodraeth Cymru. Roedd y Pwyllgor yn fy nghynghori, drwy gydol y flwyddyn, yn rhinwedd fy swydd fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, ar weithrediad rheolaeth fewnol a gallu'r sefydliad i reoli risg.

### Is-bwyllgor y Bwrdd: Cydnabyddiaeth Ariannol

Ail is-bwyllgor y Bwrdd yw Is-bwyllgor Taliadau cydnabyddiaeth yr Uwch Wasanaeth Sifil ac mae'n gyfrifol am dâl ac amodau'r Uwch Wasanaeth Sifil (SCS), cynllunio ar gyfer olyniaeth a recriwtio a holl achosion personol SCS. Mae Cyfarwyddwr Anweithredol yn cadeirio'r Pwyllgor ac mae'r holl Gyfarwyddwyr Anweithredol yn aelodau ohono. Cyfarfu'r Pwyllgor wyth gwaith yn ystod y flwyddyn a mynychais yr holl gyfarfodydd. Nid yw'r Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth yn pennu fy nghyflog i gan mai Swyddfa Cabinet y DU sy'n delio â hynny.

## Y Pwyllgor Gweithredol (ExCo)

Drwy gydol 2018-19, roeddwn yn cael fy nghefnogi gan dîm arwain o Gyfarwyddwyr Cyffredinol, pob un yn arwain Grŵp yn Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r Cyfarwyddwyr sy'n ymdrin â swyddogaethau corfforaethol allweddol sef Llywodraethiant, Cyllid, y Trysorlys, Adnoddau Dynol/Gwasanaethau Corfforaethol, a Gwasanaethau Cyfreithiol. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y grŵp ei ail-greu'n ffurfiol ar ei newydd wedd fel Pwyllgor Gweithredol Llywodraeth Cymru.

Mae Cyfarwyddwyr Cyffredinol y Pwyllgor Gweithredol yn cael eu dynodi'n Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol i roi cyfrifoldeb ac atebolrwydd personol iddynt dros ddefnyddio arian cyhoeddus yn briodol a sicrhau gwerth am arian ar fy rhan innau. Mae rhai Cyfarwyddwyr penodol hefyd yn cael eu dynodi'n Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol i egluro ymhellach drefniadau llywodraethiant corfforaethol ac atebolrwydd, a hynny o ran defnyddio cronfeydd cyhoeddus ac wrth ateb i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae'r dynodiadau hyn yn achos cyfarwyddwyr yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn dal yn berthnasol.

Rwyf wedi ymrwymo i fodloni'r rhwymedigaethau cyfreithiol sydd ar Lywodraeth Cymru i gyflawni ei gwaith yn unol â'r nodau a'r ffyrdd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Rwyf yn parhau i hybu ymddygiadau sy'n adeiladu ar weithio ar draws sefydliadau i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion llesiant a'r strategaethau trawsbynciol a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn "Ffyniant i Bawb". Bydd hyn yn helpu i gryfhau'r gwaith o ddarparu gwasanaethau mewn ffordd integredig.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd ar gynnydd tuag at eu hamcanion llesiant yn flynyddol; cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei set gyntaf o amcanion llesiant ym mis Tachwedd 2016. Cafodd y rhain eu hadolygu a'u diwygio fel rhan o ddatblygu *Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol* a gyhoeddwyd ym mis Medi 2017, i sicrhau bod yr amcanion llesiant yn parhau wrth wraidd holl waith y Llywodraeth. Roedd y Datganiad Llesiant, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Ffyniant i Bawb, yn ymwrymo i roi gwybod am gynnydd yn rheolaidd ac i adolygu'r strategaeth genedlaethol ganol ei thymor. Ym mis Medi 2018, cyhoeddwyd "Llesiant Cymru, 2018: adroddiadau cynnydd yn erbyn y nodau Llesiant" yn nodi'r cynnydd tuag at y nodau llesiant statudol.

### Y Pwyllgor Gweithredol: Brexit

Mae amser wedi'i neilltuo i'r Pwyllgor Gweithredol gyfarfod yn rheolaidd yn unswydd er mwyn canolbwyntio ar faterion paratoi i ymadael â'r UE. Trefniant dros dro yw hwn a fydd yn parhau yn ei le am gyhyd ag y bydd ei angen.

### Is-bwyllgor y Pwyllgor Gweithredol: Cyllid (FinCo)

Mae'r Is-bwyllgor Cyllid yn is-bwyllgor parhaol sy'n cynorthwyo'r Pwyllgor Gweithredol i redeg y sefydliad yn fewnol ar lefel weithredol o ran rheoli cyllid ac adnoddau, gan ganiatáu i'r Pwyllgor Gweithredol gadw ffocws strategol ar draws y sefydliad.

### Is-bwyllgor y Pwyllgor Gweithredol: Pobl a Gwasanaethau Corfforaethol

Mae'r Is-bwyllgor Pobl a Gwasanaethau Corfforaethol yn is-bwyllgor parhaol sy'n cynorthwyo'r Pwyllgor Gweithredol i redeg y sefydliad yn fewnol ar lefel weithredol o ran rheoli'r gweithlu, materion staffio, diogelwch TG a rheoli data.

### Is-bwyllgor y Pwyllgor Gweithredol: Ffyniant i Bawb – Grŵp Cyfarwyddwyr

Mae Ffyniant i Bawb – Grŵp Cyfarwyddwyr yn is-bwyllgor parhaol sy'n cynorthwyo'r Pwyllgor Gweithredol trwy fonitro cynnydd ar y blaenoriaethau a nodir yn "Ffyniant i Bawb".

### Is-bwyllgor y Pwyllgor Gweithredol: Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol

Mae Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol yn cydgysylltu ac yn goruchwylio'r gwaith o ddarparu Rhaglen Ddeddfwriaethol y Llywodraeth ar lefel swyddogion.

## Chwythu'r Chwiban

Cyfarfu Panel Chwythu'r Chwiban yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i ystyried achosion o chwythu'r chwiban, er mwyn sicrhau bod camau'n cael eu cymryd yn brydlon ond gyda gofal mawr, gan gadw cyfrinachedd. Mae'r polisi ar Chwythu'r Chwiban a Chod y Gwasanaeth Sifil yn esbonio beth y dylai staff ei wneud os ydynt yn amau cydweithiwr o gamwedd. Cyhoeddir gwybodaeth ar y Fewnrwyd hefyd. Rwyf yn hyderus bod ein trefniadau ar gyfer chwythu'r chwiban yn dryloyw, ac yn gadarn ac yn cydymffurfio ag arferion da.

Hysbyswyd y Panel am chwe achos yn ystod y flwyddyn:

| Achosion o Chwythu'r Chwiban | 2018-19 | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|---|
| Heb eu cadarnhau | 5 | 2 | 2 |
| Wedi'u datrys yn fewnol (materion yn ymwneud â staff) | - | 1 | 3 |
| Ddim yn fater i Lywodraeth Cymru | - | - | 1 |
| Cyngor wedi'i roi i'r Chwythwr Chwiban | - | 1 | - |
| Yn destun ymchwiliad o hyd | 1 | | |
| **Cyfanswm** | **6** | **4** | **6** |

Yn ogystal â Phanel Chwythu'r Chwiban sy'n delio ag achosion mewnol, mae'r Panel Sicrwydd Allanol (EAP) yn mynd i'r afael â phryderon a godwyd ynghylch sefydliadau sy'n cael arian cyhoeddus oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae'n cynnig ymateb cyson, cymesur a phriodol i bryderon am sut y mae ein partneriaid cyflenwi a buddiolwyr ein cynlluniau grant wedi ymdrin ag arian Llywodraeth Cymru.

Mae'r Panel Sicrwydd Allanol yn rhoi cyngor i swyddogion ac yn nodi materion y mae angen mynd i'r afael â hwy. Aeth y Panel i'r afael â 16 o achosion newydd yn y flwyddyn o'i gymharu â 19 o achosion yn 2017/18. Mae pump o'r achosion newydd hyn yn dal ar agor, ynghyd â phedwar o'r blynyddoedd blaenorol ac eir i'r afael â hwy yn y flwyddyn bresennol.

| Achosion y Panel Sicrwydd Allanol | 2018-19 |
|---|---|
| Cariwyd ymlaen o 2017/18 | 12 |
| Achosion newydd yn codi | 16 |
| Achosion a gafodd eu datrys | (19) |
| Achosion yn parhau | |
| – Achos llys yn mynd rhagddo | 1 |
| – Yn destun ymchwiliad gan yr heddlu | 1 |
| – Yn destun monitro ad-dalu | 1 |
| – Yn destun adolygiad gan asiantaeth twyll annibynnol | 1 |
| – Ymchwiliad yn mynd rhagddo | 5 |
| **Cyfanswm achosion heb eu datrys** | **9** |

O'r achosion a gafodd eu datrys nid oedd gan yr un ohonynt oblygiadau disgyblu na rheoli perfformiad, o ran Adnoddau Dynol. Cafodd pob achos ei adolygu ar gyfer gwersi a ddysgwyd, sydd wedi'u lledaenu i dimau priodol i weithredu arnynt gan gynnwys trwy'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau, Adnoddau Dynol, Gwasanaethau Caffael, Atal Twyll a Thimau Gweithrediadau'r Grwpiau.

## Trefniadau Sicrwydd

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethiant gan gynnwys y system rheolaeth fewnol, yr wyf yn cymryd sicrwydd gan amrywiaeth eang o weithgareddau ar ei gyfer. Yn hyn o beth, fe'm hysbysir gan waith Archwilio Mewnol a'r swyddogion hynny yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol. Rwyf yn cymryd sicrwydd o gytuno ar gynlluniau gweithredu a'u cyflawni gan reolwyr mewn ymateb i faterion a nodir gan yr Archwilydd Allanol (Archwilydd Cyffredinol Cymru) yn ei adroddiadau ac mewn adroddiadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgorau Craffu eraill Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal eu hymchwiliadau eu hunain.

Rwyf wedi cael fy nghynghori hefyd ar effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Yn ogystal, ym mis Mai 2019, mynychais y cyfarfod sicrwydd blynyddol gyda'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol a darparwyr sicrwydd arweiniol ar draws Llywodraeth Cymru, i ystyried y sicrwydd sydd ar gael imi ar gyfer 2018/19.

Mae cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru'n cwmpasu meysydd allweddol ar fywyd cyhoeddus, a hynny o dan arweiniad y Prif Weinidog a'r Cabinet, a'r Gweinidogion eraill sydd wedi'u penodi ganddo. Mae ystod eang o reolaethau mewnol yn bodoli i ddarparu ar gyfer stiwardiaeth gadarn ar adnoddau.

### Archwilio Mewnol

Mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru'n gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Cynhaliodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol raglen lawn o waith yn y flwyddyn yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r prif risgiau sy'n wynebu'r sefydliad. Cyflwynodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgorau Archwilio a Risg, ar lefel Grŵp a lefel Llywodraeth Cymru, ar gynnydd wrth roi'r cynllun archwilio hwn ar waith. Cefais gyfarfod yn rheolaidd â'r Pennaeth Archwilio Mewnol drwy gydol y flwyddyn i drafod materion archwilio a sicrwydd.

Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cydgysylltu ei waith â gwaith Swyddfa Archwilio Cymru. Mae protocol cydweithio sefydledig yn sail i'r dull gweithredu sy'n cael ei gymryd ac mae cyfarfodydd cyswllt yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd i i rannu gwybodaeth. Gyda'i gilydd, mae'r ddwy ffynhonnell annibynnol hyn o sicrwydd yn rhoi cryn gysur imi o ran sicrhau gwerth am arian a dibynadwyedd y cyfrifon ariannol, yn achos Swyddfa Archwilio Cymru, ac o ran gweithredu'r fframwaith rheoli risg, llywodraethiant a rheolaeth, yn achos y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.

Yn ei Hadroddiad Barn am Sicrwydd Blynyddol, rhoes Pennaeth Archwilio Mewnol sicrwydd "rhesymol" ar weithrediad y fframwaith llywodraethiant, rheolaeth a rheoli risg yn Llywodraeth Cymru. Er bod trefniadau'n cael eu cynllunio a'u cymhwyso'n effeithiol, mae sicrwydd rhesymol yn golygu bod ar rai materion angen sylw rheolwyr o ran rheolaeth neu gydymffurfio, ac maent yn agored i risg cymedrol nes cael eu datrys.

Cynhyrchodd y rhaglen o waith archwilio a gwblhawyd yn ystod 2018-19, sy'n gyrru'r farn sicrwydd gyffredinol a roddir, y safbwyntiau canlynol ar gyfer yr adroddiadau archwilio a roddir:

| Barn Sicrwydd | 2018-19 | 2017-18 | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|
| Sicrwydd Sylweddol | 35 | 16 | 14 | 24 |
| Sicrwydd Rhesymol | 30 | 38 | 29 | 37 |
| Sicrwydd Cyfyngedig | 9 | 7 | 9 | 12 |
| Dim Sicrwydd | 0 | 0 | 0 | 0 |

Lle y nodwyd gwendidau mewn adroddiadau archwilio, cytunwyd ar gynlluniau gweithredu rheoli i wella'r fframwaith rheolaeth ac i fynd i'r afael â'r mater a nodwyd.

## Y Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd

Ym mis Chwefror 2019, cyflwynodd y Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT) ei Adroddiad Rheoli Blynyddol a'i Farn i'r Comisiwn gyda'i farn sicrwydd ar Gronfeydd Strwythurol a hawliwyd gan Gymru am y cyfnod 1 Gorffennaf 2017 i 30 Mehefin 2018. Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar waith a wnaed gan EFAT yn unol â'i strategaeth archwilio ar gyfer y Rhaglenni. Rwyf yn falch bod EFAT wedi llwyddo i ddarparu barn ddiamod i'r Comisiwn. Rhoes EFAT farn ddiamod hefyd mewn perthynas â Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Iwerddon/Cymru am yr un cyfnod.

## Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Ar sail ei waith drwy gydol 2018-19 rhoes y Pwyllgor sicrwydd rhesymol cyffredinol ar ddigonolrwydd y trefniadau Archwilio Mewnol ar gyfer Llywodraeth Cymru a hefyd ar y trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol Llywodraeth Cymru. Ond fe nododd hefyd ganlyniad adolygiad gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o reoli risg sydd wedi nodi bod angen gwelliannau pellach yn y gallu i ymdrin â risg. Ystyriodd y Pwyllgor y sicrwydd a gyflwynwyd i'r Pwyllgor a'r wybodaeth a roddwyd iddo gan swyddogion. Rwyf yn fodlon bod y Pwyllgor wedi gweithredu'n effeithiol ac wedi darparu cymorth da wrth fonitro ac adolygu prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethiant.

## Holiaduron Rheolaeth Fewnol a Datganiadau Sicrwydd Blynyddol

Fe'i gwneuthum yn ofynnol hefyd i'r holl Gyfarwyddwyr gwblhau Holiadur Rheolaeth Fewnol ac, ar sail yr wybodaeth hon, i Gyfarwyddwyr Cyffredinol pob Grŵp baratoi eu Datganiad Sicrwydd personol er mwyn rhoi i mi eu hasesiad o effeithiolrwydd fframweithiau rheolaeth fewnol eu Grŵp.

Trwy'r Holiadur, mae'r Cyfarwyddwyr wedi rhoi imi eu hunanasesiadau o reolaeth fewnol, llywodraethiant a rheoli risg a'u hystyriaethau ynghylch pa mor effeithiol y mae rheolaethau wedi gweithredu drwy gydol y flwyddyn ariannol. Mae'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol wedi rhoi trosolwg o lywodraethiant, rheolaeth a rheoli risg o fewn eu priod Grwpiau.

## Modelau Dadansoddi Allweddol o ran Busnes

Roedd yr wybodaeth yn yr holiaduron yn cynnwys sicrwydd cadarnhaol mewn perthynas â'r Modelau Dadansoddi Allweddol o ran Busnes sy'n cefnogi ystod o weithgareddau megis y Model Ad-dalu Cymorth Prynu a'r Model Cenedlaethol Categoreiddio Ysgolion. Mae rhaglen o adolygiadau sicrwydd a wnaed gan dîm Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru i asesu'r modelau sydd wedi'u sefydlu hefyd wedi rhoi sicrwydd imi am y modelau hyn.

Mae asesiad y sefydliad o'i gysylltiad â risg modelu dadansoddi yn dal yn debyg i'r llynedd o safbwynt y mesur cyffredinol o ansicrwydd mewn rhagdybiaethau sylfaenol a'r data a ddefnyddir. Ond dros y tymor canolig, rydym yn disgwyl mwy o ddibyniaeth ar fodelau dadansoddi sydd â mesur uwch o ansicrwydd ac, felly, risg. Er enghraifft, mae'n debygol y bydd risg yn cynyddu oherwydd trethi (megis cyfradd Gymreig y dreth incwm ac ymyriadau cyllidol mwy newydd) a fydd yn dod i'r amlwg ac yn datblygu dros amser. Mae cysylltiad sylweddol â risg yn parhau mewn rhai meysydd megis cyllid myfyrwyr, o gofio ansicrwydd hirdymor a gwerth sylweddol rhwymedigaethau grantiau a benthyciadau yn y dyfodol. Yn achos modelu traffig, mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud yn allanol ac mae Cynllun Sicrwydd Ansawdd (QAP) bellach wedi cael ei datblygu gan y Tîm Polisi Trafnidiaeth sy'n nodi'r dull gweithredu ar gyfer sicrhau ansawdd y modelau dadansoddi trafnidiaeth hynny.

Mae'r asesiad o risg a gysylltir â rhai o'r modelau wedi gostwng lle mae'r mesur o ansicrwydd yn y data neu'r rhagdybiaethau sy'n cael eu defnyddio wedi lleihau ond maent yn dal yn agored i benderfyniadau polisi neu gyllid a wneir gan Drysorlys EM, er enghraifft wrth bennu'r gyfradd disgownt, sydd y tu allan i'm rheolaeth i. Mae ffactorau economaidd ehangach yn effeithio ar lawer o fodelau ac felly mae Brexit, a'r effaith y gallai ei chael ar yr economi a mudo, yn elfen ychwanegol arbennig o ansicrwydd mewn rhai modelau megis cyllid myfyrwyr, treth incwm ac amcanestyniadau o'r boblogaeth. Mae capasiti dadansoddi hefyd yn dal yn her wrth sicrhau bod digon o adnoddau arbenigol yn cael eu neilltuo i fodelau hanfodol o ran busnes. Mae llywodraethiant da a mesurau lliniaru yn eu lle i reoli'r risgiau mewn perthynas â modelau hanfodol o ran busnes ond ni allant liniaru ansicrwydd sylfaenol yn llwyr os bydd digwyddiadau sylweddol yn ystod y flwyddyn.

O'r sicrwydd yr wyf wedi'i gymryd o'r ffynonellau uchod, rwyf yn fodlon bod risg wedi'i rheoli'n dda a bod systemau llywodraethiant a rheolaeth fewnol yn parhau i weithredu'n effeithiol.

## Materion Rheolaeth Fewnol

Mae'r sicrwydd cadarnhaol yr wyf wedi'i gael yn rhoi hyder imi fod gan Lywodraeth Cymru, yn gyffredinol, fframweithiau cadarn a threfnus o lywodraethiant a rheolaeth fewnol. Er hynny, datgelwyd rhai materion nodedig yn ystod y flwyddyn ac mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhain ac i wneud gwelliannau, fel y nodir isod.

### Cyllid y Comisiwn Ewropeaidd (CE)

Wrth archwilio cyfrif Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) am y cyfnod yn dod i ben 15 Hydref 2018, darparodd Swyddfa Archwilio Cymru farn amodol am gymhwysedd rhywfaint o wariant grant ar contractau a ddyfernir trwy 'geisiadau uniongyrchol' ac estyniadau prosiect gan Lywodraeth Cymru. Mae'r camau gweithredu hyn yn dangos diffyg cydymffurfiaeth o bosibl â rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd a methiant i ddangos bod gwerth am arian wedi'i sicrhau. Gofynnodd y CE yn wreiddiol am ad-daliad o €33.1m o gyllid EAFRD o Gynllun Datblygu Gwledig Colofn 2 Llywodraeth Cymru. Mae gwaith pellach gan Lywodraeth Cymru wedi nodi bod y mater yn gyfyngedig i wariant o €8.9m gan fod gwaith dilysu pellach wedi cadarnhau i'r rhan fwyaf o'r cyllid fynd trwy broses gystadleuol. Mae'r wybodaeth hon gyda'r CE i'w hystyried. Fel rhan o'r broses wrthddweud arferol sy'n galluogi aelod-wladwriaethau a'r CE i gytuno ar unrhyw symiau o wariant beidio â chael eu caniatáu mae cyfarfod dwyochrog wedi cael ei drefnu ar gyfer Tachwedd 2019 i ystyried yr wybodaeth hon.

Mae'r amod ar elfen benodol o gronfeydd amaethyddol a reolir gan Lywodraeth Cymru ac nid yw'n adlewyrchiad o weithrediad cyffredinol Taliadau Gwledig Cymru (RPW) a'r rheolaethau sydd mewn grym ynghylch c.€320m o gronfeydd yr UE a dalwyd yn 2017-18. Yn ychwanegol at y pwyntiau uchod, cafodd y taliadau mewn dau hawliad am Gymorth Technegol eu gwneud cyn i'r gwiriadau technegol angenrheidiol gael eu cynnal. Y bwriad oedd cynnal y gwiriadau hyn ar ôl i'r taliadau gael eu gwneud, ar y sail y byddai hawliad mewnol gan un o brosiectau Llywodraeth Cymru yn un 'risg isel'. Ar adeg yr archwiliad, nid oedd y gwiriadau wedi digwydd, ac o'r herwydd rydym wedi penderfynu tynnu'r taliadau o'r cyfrif. Bydd yr hawliadau'n cael eu hailgyflwyno ar ôl i'r gwiriadau gael eu cwblhau. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi bod ar ei cholled oherwydd hyn ac mae uwch-swyddogion yn cydweithio'n agos â Swyddfa Archwilio Cymru a'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol i nodi a oes angen cryfhau cydymffurfiaeth a rheolaethau.

### Nodi, Deall a Rheoli Gwrthdaro Buddiannau

Nododd Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Pinewood faterion ynghylch rheoli gwrthdrawiad buddiannau sy'n gallu codi. I fod yn siŵr bod holl swyddogion Llywodraeth Cymru yn glir ynghylch nodi eu buddiannau allanol eu hunain a gwerthfawrogi sut y gallai'r rhain beri gwrthdaro posibl, a hefyd ynghylch nodi a rheoli'n effeithiol gwrthdaro buddiannau mewn sefydliadau trydydd parti sy'n ceisio arian grant gan Lywodraeth Cymru, rwyf wedi gofyn i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Corfforaethol adolygu, atgyfnerthu ac, os oes angen, gryfhau'r trefniadau presennol ar gyfer adrodd am fuddiannau yn fewnol. Bydd Archwilio Mewnol yn cefnogi ac yn llywio'r adolygiad hwn trwy gynnal asesiad o effeithiolrwydd trefniadau ar draws y sefydliad. Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i holl aelodau'r Uwch Wasanaeth Sifil fynychu hyfforddiant ar lywodraethu ariannol da sy'n cynnwys elfennau ar reoli gwrthdaro buddiannau.

## Amodi Cyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru

Cafodd cyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2017-18 eu hamodi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am y drydedd flwyddyn yn olynol ar sail rheoleidd-dra. Yn dilyn yr amodi yn 2017-18, gofynnodd Swyddog Cyfrifyddu Cyfoeth Naturiol Cymru i Grant Thornton gynnal adolygiad annibynnol o'r gweithrediadau gwerthu pren, a chafodd ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2019. Roedd yr amodi yn 2017-18 yn ymwneud â sut yr oedd rhai contractau pren wedi'u caffael yn 2015-16 ac mae hyd y contractau wedi golygu bod y rhain wedi parhau i mewn i 2018-19.

Yn ystod archwiliad 2018-19, nododd yr Archwilydd Cyffredinol bryderon sylweddol eraill ynglŷn a gosod contractau gwerthu pren. Wrth osod 79 o gontractau a elwir yn 'gontractau gwerthu sefydlog a mwy', ni ddilynodd Cyfoeth Naturol Cymru ei bolïsau caffael ei hun, gofynion ei ddogfen Fframwaith na rheoliadau caffael, gan arwain at amodi ar sail rheoleidd-dra. Tynnodd yr adolygiad annibynnol gan Grant Thornton sylw at bryderon ynghylch rheoli contractau gwerthu sefydlog a mwy. Cymerodd Cyfoeth Naturiol Cymru gamau ar unwaith i atal dyfarnu unrhyw gontractau pellach o'r fath. Mae'r materion a nodwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a chan Grant Thornton yn deillio'n bennaf o benderfyniadau hanesyddol.

Mae swyddog cyfrifyddu Cyfoeth Naturiol Cymru wedi sefydlu cynllun cadarn i fynd i'r afael â'r methiannau ym mhroses gaffael y corff, felly mae llawer llai o risg y caiff contractau eu gosod mewn ffordd debyg. Rwyf yn fodlon bod y trefniadau goruchwylio sydd gennym ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithredu yn effeithiol ac yn caniatáu i faterion gael eu huwchgyfeirio'n briodol os bydd angen.

## Dileadau

Dros y degawd diwethaf, mae grantiau i ddibynyddion wedi cael eu talu'n anghywir i nifer o fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru ar gyrsiau dysgu o bell. Nid yw rheoliadau cymorth i fyfyrwyr addysg uwch yn caniatáu i fyfyrwyr ar gyrsiau dysgu o bell gael grantiau i ddibynyddion gan nad ydynt yn mynychu campws. Mae'r taliadau hyn yn ordaliad o gymorth i fyfyrwyr.

Yn sgil diwygio'r rheoliadau yn 2018 ac egluro'r bwriad polisi, cadarnhaodd Cyllid Myfyrwyr Cymru a'r Brifysgol Agored yng Nghymru fod myfyrwyr rhan-amser ar gyrsiau dysgu o bell yn y blynyddoedd blaenorol wedi cael grantiau i ddibynyddion trwy gamgymeriad. Roedd 471 o geisiadau wedi'u hasesu am gymorth yn 2018-19 oddi wrth fyfyrwyr a gafodd grantiau i ddibynyddion yn 2017-18 ar yr adeg y nodwyd y mater. Er mwyn sicrhau nad yw'r myfyrwyr hyn yn cael eu cosbi'n ariannol, mae Llywodraeth Cymru wedi dileu'r taliadau a wnaed eisoes trwy gamgymeriad – sef cyfanswm o £3.27m.

Bydd taliadau'n parhau i fyfyrwyr a gafodd daliadau grantiau i ddibynyddion trwy gamgymeriad hyd at ddiwedd eu hastudiaethau ac fe gânt eu cofnodi fel "taliadau arbennig" a'u datgelu yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru fel hynny. Ni chaiff unrhyw ddyfarniadau newydd o'r natur hon eu gwneud.

Cafodd dilead o £358,620 ei gofnodi yn y flwyddyn yn deillio o ddileu cyllid busnes ad-daladwy i Retirement Review Ltd. Roedd y cwmni wedi cael cyllid o £430,000 yn 2014 er mwyn i ad-daliadau ddechrau yn 2016. Yn Ebrill 2015 cafodd y cwmni ei ddiddymu, ac ymhellach i brosesau gweinyddu nid oedd digon o asedau ar ôl i'r cwmni gael ei ddirwyn i ben i ad-dalu'r cyllid. Mae'r dilead yn adlewyrchu'r cyllid a ddarparwyd, llai elfen ar gyfer buddion a gafodd eu cyflenwi gan y cymorth. Mae adolygiad o'r

achos wedi'i gynnal sydd wedi casglu na ellid bod wedi rhag-weld methiant y busnes, ac nad oes gwersi systemig yn codi.

Cafodd stociau ar gyfer ffliw pandemig eu dileu yn y flwyddyn gyda gwerth o £7.6m. Mae stociau o gyffuriau gwrthfeirysol, gwrthfiotigau a defnyddiau traul yn cael eu dal gan Lywodraeth Cymru yn unol â chynllunio ledled y DU ym maes iechyd y cyhoedd. Mae'r lefelau stoc y mae eu hangen, y mathau o gyffuriau ac ailbrosesu cyffuriau yn cael eu rheoli ar lefel y DU a gallant fod yn wamal o'r herwydd. Mae dileadau'n digwydd o ganlyniad i addasu cyflenwadau gwladol i fodloni angen cynlluniedig. Mae'r dileadau a hysbyswyd yn ymwneud â chyffuriau sydd wedi darfod nad ydynt yn addas i'w defnyddio mewn gwasanaethau GIG craidd.

## Trefniadau TAW / Cynllunio a Rheoli Trethi

Dechreuodd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi archwiliad treth ar werth (TAW) yn Llywodraeth Cymru yn 2016 sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae'r adolygiad wedi dwyn sylw at bedwar mater mewn perthynas â'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymdrin â TAW. Mae dau o'r rhain wedi'u datrys a dau yn ymwneud â Cadw. Cododd mater pellach gyda Gyrfa Cymru sydd bellach wedi cael ei ddatrys. Er nad yw'r adolygiad wedi dod i ben eto gwnaed taliad unioni i CThEM yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â Cadw am y swm o £1.07m. Roedd hyn yn ymwneud â TAW mewnbwn yr oedd Cadw wedi bod yn ei hadennill yn anghywir mewn cysylltiad â'i weithgareddau sy'n esempt rhag busnes. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol i'r materion a nodwyd ac wedi diwygio gweithdrefnau er boddhad CThEM, gan osgoi unrhyw gosbau hyd yn hyn. Mae camau'n cael eu cymryd i wella dealltwriaeth a darparu digon o adnoddau ac arbenigedd i gefnogi gwell cydymffurfiaeth â TAW ar draws y sefydliad.

## Materion Twyll

Ym mis Mawrth 2019, daeth ymchwiliad hir gan yr heddlu, y galwodd Llywodraeth Cymru amdano, i ben pan blediodd tri unigolyn yn euog o droseddau'n ymwneud â thwyll ar ôl hawlio £4.7m mewn grantiau gan y CE a Llywodraeth Cymru i ddatblygu dewis amgen i fwyd pysgod. Roedd y fenter i fod i greu nifer mawr o swyddi ond ychydig o swyddi yn unig gafodd eu creu ac fe ddefnyddiwyd yr arian grant at ddibenion eraill. Cafodd dau o'r tri throseddwr ddedfryd o garchar ac mae camau'n cael eu cymryd ar hyn o bryd i adfer elw'r troseddau. Croesawodd Llywodraeth Cymru ganlyniad yr achos hwn, ac mae gwersi wedi'u dysgu sydd wedi cryfhau gwahanol agweddau ar ddiwydrwydd dyladwy, rhoi grantiau a rheoli grantiau.

Mae ymarfer paru data a gafodd ei ddyfeisio a'i weithredu gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru, a oedd yn cynnwys paru data Cyllid Myfyrwyr Cymru â data CThEM, wedi nodi gwall posibl a'r risg o dwyll mewn incwm a ddatganwyd at ddibenion yr elfen o grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr sy'n ymwneud â phrawf modd. Mae ymchwiliadau pellach yn mynd rhagddynt i gadarnhau cywirdeb y data cyn cymryd camau unioni posibl.

## Llywodraethu Gwybodaeth

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol yn bodoli i gydymffurfio â'r set graidd o fesurau gofynnol gorfodol i amddiffyn gwybodaeth yn Adrannau'r Llywodraeth. Mae hynny'n ei gwneud yn ofynnol imi asesu ein risg a sicrhau bod strategaethau lliniaru priodol yn bodoli.

Lle bo trydydd partïon yn ymdrin â gwybodaeth y mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol amdani yn gyfreithiol, mae'n bwysig bod cyngor a chyfarwyddyd yn cael eu rhoi iddynt am sut y mae rhaid ymdrin â'r wybodaeth honno. Mae diogelwch TG yn cael ei asesu cyn dyfarnu contract lle mae gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu gan drydydd partïon, ac mae cymalau sicrhau gwybodaeth yn cael eu cynnwys yn safonol mewn manylebau gofynion trwy gyfrwng Llythyr Agweddau Diogelwch. Rydym hefyd yn cadarnhau bod y rhai sy'n prosesu ein gwybodaeth sensitif yn destun Gwiriad Iechyd TG annibynnol ac yn bodloni'r safon "Cyber Essentials".

Mae systemau TG corfforaethol Llywodraeth Cymru a'i pholisïau diogelwch cysylltiedig yn parhau i gydymffurfio ag ISO 27001, y safon ryngwladol ar gyfer rheoli diogelwch gwybodaeth, ac yn cyd-fynd ag arferion a gweithdrefnau a argymhellir. Cadarnhawyd hyn gan y rhaglen o waith archwilio a wnaed gan archwiliadau cydymffurfio'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol, a chan y sicrwydd cadarnhaol yr wyf wedi'i gael gan Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth Llywodraeth Cymru.

Yn sgil pasio Deddf Diogelu Data 2018, a roes rym cyfreithiol i'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) ym Mai 2018, mae'r "bar" ar gyfer adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) wedi gostwng ac mae mwy o achosion o dorri data bellach yn bodloni'r prawf ar gyfer adrodd i'r ICO. O ganlyniad, mae nifer yr achosion o dorri rheolau data a hysbyswyd yn 2018-19 wedi cynyddu ers y blynyddoedd blaenorol. Ar yr un pryd, mae ymwybyddiaeth llawer gwell ynghylch gofynion prosesu data ar y cyd â phroses adrodd gryfach, wedi arwain at gynnydd cyffredinol mewn adrodd ar ddigwyddiadau gan gynnwys y rhai na fernir eu bod yn ddigon difrifol i fodloni'r meini prawf ar gyfer adrodd i'r ICO.

Digwyddiadau sy'n dod o fewn y Meini Prawf ar gyfer adrodd i'r ICO (Adroddwyd):

| Blwyddyn | Digwyddiadau a adroddwyd i'r ICO | Camau a gymerwyd gan yr ICO |
|---|---|---|
| 2018-19 | 6 | 0 |
| 2017-18 | 4 | 0 |

Digwyddiadau nad ydynt yn dod o fewn y Meini Prawf ar gyfer adrodd i'r ICO (Heb eu Hadrodd):

| Math | Natur y digwyddiad | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|---|
| I | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur, sydd heb gael eu diogelu'n ddigonol, o safleoedd diogel y Llywodraeth | 3 | 1 |
| II | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur, sydd heb gael eu diogelu'n ddigonol, o'r tu allan i safleoedd diogel y Llywodraeth | 2 | 1 |
| III | Gwaredu mewn modd anniogel offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur sydd heb gael eu diogelu'n ddigonol | 0 | 1 |
| IV | Datgeliad heb ei awdurdodi | 64 | 34 |
| V | Arall | 12 | 3 |

Roedd y mwyafrif o'r digwyddiadau a oedd heb eu hadrodd i'r ICO yn deillio o ddatgeliadau heb eu hawdurdodi. Roedd y rhain yn deillio, ar y cyfan, o anfon neu e-bostio dogfennau penodol sy'n cynnwys data personol at y person anghywir. O'r digwyddiadau hyn roedd 66% yn cynnwys trawsyrru data y tu allan i Lywodraeth Cymru a 44% o fewn Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal proses gadarn ar gyfer adrodd sy'n cynnwys pob math o ddigwyddiad. Ar ôl i bob achos o dorri rheolau data gael ei adrodd, cytunir ar gamau unioni â'r rheolwyr ac mae camau gweithredu'n cael eu holrhain i sicrhau bod y camau hynny'n cael eu cwblhau. Lle bo angen, mae gwersi i'w dysgu ar draws y sefydliad yn rhan o'r Bwletin Diogelwch rheolaidd i'r holl staff.

Rwyf yn cymryd sicrwydd o waith parhaus y Grŵp Prosiect GDPR ond mae'r rheolwyr yn parhau i weithio i fynd i'r afael â'r rhesymau dros achosion o dorri data. Ceir system adrodd newydd a chyflymach ynghyd ag olrhain camau gweithredu, i sicrhau bod camau unioni'n cael eu cymryd a gwersi'n cael eu dysgu o bob digwyddiad. Mae'r system wedi'i rhoi ar waith mewn ymateb i GDPR ac yn sicrhau bod rheolwyr yn ymateb yn effeithiol i unrhyw achosion o dorri data. Rwyf yn cymryd sicrwydd hefyd o waith Archwilio Mewnol yn ymwneud â diogelwch systemau gwybodaeth a gadarnhaodd fod y trefniadau'n ddigonol.

## Adroddiad y Swyddog Diogelu Data

Yn ychwanegol, rwyf yn cymryd sicrwydd gan Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru ynghylch y cynnydd parhaus sy'n cael ei wneud mewn perthynas â chydymffurfio â GDPR. Er hynny, mae'r Swyddog wedi tynnu sylw at y gwaith pellach y mae angen ei wneud, yn arbennig i ddeall yn llawn bod yr ystod gyfan o drefniadau sydd ar waith yn cydymffurfio. Yn arbennig, o ystyried agosrwydd posibl Brexit, y flaenoriaeth bwysicaf yw deall yr holl drefniadau â phroseswyr allanol o gofio'r risgiau posibl penodol i ddata a ddelir gan broseswyr trydydd parti a leolir yn Ewrop yn dilyn y trefniadau Pontio Ewropeaidd. Mae sicrhau bod y trefniadau hyn yn cael eu deall yn iawn a'u diogelu gan gymalau contractiol priodol neu gytundebau rhannu data yn dal yn her. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i wella ei hysbysiadau preifatrwydd a'i hasesiadau effaith preifatrwydd data wrth i ymholiadau a materion godi ac mae'n gweithio i sicrhau bod yr holl weithgareddau perthnasol ar gyfer ymdrin â data'n cael eu cwmpasu'n llawn gan asesiadau a hysbysiadau cyfoes.

## Atebolrwydd Lleol

Mae cyfran sylweddol o wariant Llywodraeth Cymru'n cael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol Cymru a chyrff GIG Cymru i gyflawni amcanion polisi ac ystod o wasanaethau rheng flaen, gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru hefyd yn Brif Weithredwr GIG Cymru.

### Awdurdodau Lleol

Darperir cyllid grant i Awdurdodau Unedol, Awdurdodau Tân ac Achub, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru. Y gydran unigol fwyaf o gyllid grant yw'r Grant Cynnal Refeniw a delir i'r awdurdodau unedol, y gellir ei defnyddio at unrhyw ddiben wrth ddarparu'r Gwasanaethau y mae'r awdurdodau hynny'n gyfrifol amdanynt. Dosberthir y Grant Cynnal Refeniw ar sail fformiwla sy'n adlewyrchu'r ffactorau sydd wrth wraidd angen yr Awdurdodau i wario i ddarparu ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys addysg a gofal cymdeithasol. Darperir cyllid ychwanegol hefyd trwy grantiau y gellir ei defnyddio at ddibenion penodedig yn unig.

Mae'r Awdurdodau Unedol yn cael rhai grantiau penodol oddi wrth Adrannau Llywodraeth y DU ar gyfer swyddogaethau sydd heb eu datganoli, incwm o ardrethi annomestig a bennir yn genedlaethol ac a ddosberthir gan Lywodraeth Cymru, o'r dreth gyngor a bennir yn lleol, ac o ffioedd, taliadau a ffynonellau incwm eraill. Mae'r Awdurdodau Unedol hefyd yn cael grantiau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwario cyfalaf, sy'n cael ei atodi gan eu gallu benthyca eu hunain.

Mae trefniadau tebyg yn eu lle ar gyfer y ddarpariaeth i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu, sydd wedi'u hariannu drwy gymysgedd o'r Grant Cynnal Refeniw ac ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu gan Lywodraeth Cymru a Grant yr Heddlu gan y Swyddfa Gartref, o grantiau penodol a threth gyngor. Mae Awdurdodau eraill yn cael eu hariannu drwy drefniadau fel ardollau a phraeseptau.

Mae pob Awdurdod yn atebol am sut y mae'n defnyddio'r cyllid wrth gyflawni ei swyddogaethau. Mae gan yr Awdurdodau Unedol swyddog penodedig o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 sydd â dyletswydd statudol i sicrhau bod materion ariannol yn cael eu gweinyddu'n briodol. Mae'r awdurdodau'n cael eu dal i gyfrif gan eu swyddogaethau craffu ac maent hefyd yn destun archwiliadau gwella blynyddol a gynhelir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ac sy'n ymdrin â gwerth am arian yn ogystal â materion llywodraethiant a galluogrwydd.

Pan ddarperir cyllid at ddibenion penodol, mae Llywodraeth Cymru'n gosod telerau ac amodau grant i sicrhau cydymffurfiaeth â'i safonau gofynnol ar gyfer llywodraethiant a threfniadau ariannol, cyfraith berthnasol, polisi ac arferion da. O ran y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â swyddogaethau heb eu datganoli, cytunir ar y trefniadau ar gyfer atebolrwydd rhwng yr Awdurdodau Lleol a'r Adran berthnasol yn Llywodraeth y DU.

O ran awdurdodau penodol, sefydlwyd Bwrdd Gwella a Sicrwydd Powys ym mis Mawrth 2018 i helpu'r Arweinydd i fwrw ymlaen â'r newid a'r gwelliant gofynnol yng Nghyngor Sir Powys (y Cyngor). Ers hynny, mae cynnydd da wedi'i wneud gan y Cyngor mewn perthynas â gwella gwasanaethau corfforaethol a chymdeithasol ond mae mwy i'w wneud o hyd. Cafodd Gwasanaethau Plant Powys eu hailarolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Hydref 2018 ac ers yr arolygiad gwreiddiol ym mis Gorffennaf 2017,

cafodd fod y Cyngor wedi gwneud gwelliant sylweddol. Er hynny, mae pryderon difrifol yn parhau, gan olygu bod angen mwy o waith i wneud y newidiadau y mae eu hangen er mwyn i'r awdurdod ddarparu lefel uchel o wasanaethau i'w trigolion, yn benodol i'r rhai mwyaf agored i niwed. Mae Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol newydd wedi'i benodi yn ogystal â Phennaeth Gwasanaethau Plant newydd sydd eisoes yn dwyn ffrwyth ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau. Mae penodiad diweddar Prif Weithredwr parhaol a Chyfarwyddwr Trawsnewid yn y Cyngor i'w croesawu ac fe fydd yn sail i gynnydd ennill ei blwyf yn y sefydliad.

Mae'r Bwrdd Gwella a Sicrwydd yn ymdrin â gwella gwasanaethau corfforaethol a cymdeithasol a bydd ganddo rôl barhaus wrth gefnogi'r trawsnewid yn yr awdurdod. Bydd y persbectif allanol y mae'r Bwrdd yn ei gynnig i swyddogion ac aelodau etholedig fel ei gilydd yn dal yn bwysig wrth gynnig sicrwydd i reolyddion, y Gweinidogion a'r Arweinydd fod gan y Cyngor afael dda ar yr heriau y mae'n parhau i'w hwynebu. Mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, felly, wedi ysgrifennu at Arweinydd y Cyngor yn cadarnhau ei bod yn disgwyl i'r Bwrdd barhau i fodoli tra bydd y Prif Weithredwr newydd (dechreuodd Dr Caroline Turner yn ei swydd yn Chwefror 2019) yn setlo yn y rôl. Mae hyn yn cynnwys cymorth a chanllawiau i'r uwch-dîm ehangach er mwyn iddynt barhau i elwa ar eu gwybodaeth a'u profiad yn ystod cyfnod o newid o fewn y tîm uwch-reolwyr. Caiff adolygiad o rôl a chylch gwaith y Bwrdd ei gynnal dros yr haf 2019.

Mae Cynadleddau Gwella a Chymorth, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn parhau i gael eu cynnal yn rheolaidd i drafod ble y gellid cynnig cymorth ychwanegol i gefnogi gwella'r awdurdodau lleol.

## Iechyd

Mae Byrddau Iechyd Lleol (BILl) yn cael eu hariannu i gomisiynu a darparu Gwasanaethau Ysbytai ac Iechyd Cymunedol ac i dalu cost cyffuriau a ragnodir gan Ymarferwyr Cyffredinol ar gyfer eu poblogaethau preswyl. Darperir arian hefyd i roi taliadau i gontractwyr annibynnol gan gynnwys ymarferwyr cyffredinol, ymarferwyr deintyddol cyffredinol a fferyllwyr. Mae arian ychwanegol wedi'i dargedu yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru. Darperir cyllid cyfalaf i gefnogi Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan ac mae cyllid cyfalaf disgresiynol hefyd yn cael ei ddarparu i gefnogi blaenoriaethau a nodir yn lleol.

Y llynedd dywedais fod chwech o'r deg o Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i fantoli'r gyllideb trwy weithio o fewn eu cyllidebau yn ystod y cyfnod asesu tair blynedd. Nid oedd pedwar o'r deg o Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG wedi cyflawni eu dyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb dros gyfnod o dair blynedd. O ganlyniad, cafodd y pedwar corff hyn farn amodol ar reoleidd-dra gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer cyfrifon 2017-18, wedi iddynt fethu â bodloni eu dyletswydd ariannol statudol am yr ail gyfnod o dair blynedd.

Yn 2018-19, cafodd holl gyfrifon y GIG farn archwilio gywir a theg oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru, gan gynnwys y sefydliad mwyaf newydd, sef Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Roedd chwech o'r deg o Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i fantoli'r gyllideb trwy weithio o fewn eu cyllidebau yn ystod y cyfnod asesu o dair blynedd.

Nid oedd pedwar o'r deg o Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG wedi cyflawni eu dyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb dros gyfnod o dair blynedd. O ganlyniad, cafodd y pedwar corff hyn farn amodol ar reoleidd-dra gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer cyfrifon 2018-19, wedi iddynt fethu â bodloni eu dyletswydd ariannol statudol am y trydydd cyfnod o dair blynedd. Cyflawnodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru ei dyletswydd ariannol flynyddol i fantoli'r gyllideb.

Y pedwar sefydliad a fethodd â bodloni eu dyletswydd ariannol statudol yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (gynt Abertawe Bro Morgannwg) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

O'r cyrff hyn, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn dal yn destun Mesurau Arbennig er gwaethaf cynnydd a chyfres o welliannau mewn meysydd allweddol. Roedd y pryderon sylweddol am y Bwrdd Iechyd pan gafodd ei roi mewn mesurau arbennig ym mis Mehefin 2015 yn ymwneud ag arweinyddiaeth a llywodraethiant, gwasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Glan Clwyd, iechyd meddwl, ailgysylltu â'r cyhoedd a gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau. Cafodd statws mesurau arbennig y gwasanaethau mamolaeth ei ostwng ym mis Chwefror 2018 a thynnwyd y mesurau arbennig oddi ar y gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau allan ym mis Chwefror 2019. Bu tystiolaeth o welliannau mewn llywodraethiant a phrosesau ansawdd, arweinyddiaeth y bwrdd, gwasanaethau iechyd meddwl, ymgysylltu a gweithio mewn partneriaeth a darparu gwasanaeth meddygon teulu cynaliadwy yn ystod oriau gwaith. Mae'r ffocws yn awr ar wneud cynnydd pellach yn y meysydd hyn a'r gwelliannau angenrheidiol yn y meysydd eraill sy'n peri pryder sef cyllid, cynllunio ac amseroedd aros.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (gynt Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn dal mewn ymyrraeth wedi'i thargedu. Yn sgil gwelliannau mewn gwasanaeth a pherfformiad ariannol mae statws Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi'i ostwng o ymyrraeth wedi'i thargedu i fonitro uwch.

O ganlyniad i adolygiad Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwragedd o wasanaethau mamolaeth yn hen Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg erbyn hyn) cafodd y gwasanaethau mamolaeth eu gosod o dan fesurau arbennig o 30 Ebrill 2019. Comisiynwyd yr adolygiad annibynnol hwn gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2018, yn dilyn pryderon difrifol a ddaeth i'r golwg yn y lle cyntaf o ganlyniad i'r tan-adrodd am ddigwyddiadau difrifol yn y gwasanaethau mamolaeth a'r trefniadau llywodraethu ansawdd gan gynnwys:

- Cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) gyda'r Bwrdd Iechyd yn methu â cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith.
- Yr angen i sicrhau bod camau gweithredu yn eu lle i ymateb i adroddiad arolygu yn ddiweddar gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol.
- Ansawdd adrodd ar ddigwyddiadau difrifol sy'n gofyn am gomisiynu adolygiad allanol o brosesau i wella'r mecanweithiau lleol.
- Cydymffurfio â'r Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio ac aros am gadarnhad terfynol o gydymffurfiaeth gan eu Bwrdd.

## Proffil Risg

Mae proffil risg Llywodraeth Cymru yn helaeth ac yn amrywiol, fel y byddid yn disgwyl, o gofio'r ystod eang o wahanol weithgareddau y mae'n ymwneud â hwy. Mae risgiau gweithredol yn codi wrth gyflawni amcanion polisi allweddol ac maent yn cael eu rheoli a'u lliniaru o ddydd i ddydd ar draws y sefydliad. Yn ychwanegol, mae gan Lywodraeth Cymru hefyd nifer o risgiau digwyddiadol (heriol ond annhebygol o gael eu gwireddu) sy'n deillio o'i chyfrifoldebau rheoleiddio, er enghraifft, ei chyfrifoldebau pe bai achosion o glefyd pobl neu anifeiliaid yn codi yng Nghymru, ei chyfrifoldeb dros seilwaith trafnidiaeth Cymru a'i rhwymedigaethau o dan y gwarantau y mae'n eu gwneud o bryd i'w gilydd i gefnogi busnesau yng Nghymru. Yn ogystal â risgiau digwyddiadol, mae Llywodraeth Cymru'n ysgwyddo nifer o risgiau hirdymor lle mae'r risg yn deillio o'r ansicrwydd sydd ynghlwm wrth y canlyniad neu'r gost iddi, megis Benthyciadau i Fyfyrwyr a'r cynllun "Cymorth i Brynu".

Y mater mwyaf allweddol ar y Gofrestr Risg Corfforaethol yw lefel yr ansicrwydd ynghylch amseriad a chanlyniad y Trefniadau Pontio Ewropeaidd yn ogystal â'i effaith debygol ar Gymru, a allai beri bygythiadau a chyfleoedd i economi Cymru yn gyffredinol. Er bod rhai materion wedi dod yn gliriach, mae gormod o ansicrwydd o hyd i allu asesu'r effaith gyffredinol.

- Mae Is-bwyllgor y Cabinet ar y Trefniadau Pontio Ewropeaidd yn rhoi cyfeiriad strategol ac yn sicrhau bod penderfyniadau polisi allweddol yn cael eu gwneud i sicrhau'r canlyniad gorau i bobl Cymru wrth i'r DU ymadael â'r UE.
- Mae Bwrdd Llywodraeth Cymru'n adolygu adnoddau yn ymwneud â Brexit yn rheolaidd.
- Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn ystyried risgiau Brexit a chynlluniau lliniaru mewn cyfarfodydd penodedig ar Brexit.
- Mae tîm y Trefniadau Pontio Ewropeaidd yn arwain y gwaith o ddatblygu polisi strategol ac yn cydgysylltu gwaith Llywodraeth Cymru ar ymadawiad y DU â'r UE ac yn arddel ein buddiannau a'n blaenoriaethau.
- Mae Grŵp o Swyddogion y Trefniadau Pontio Ewropeaidd sy'n cynrychioli adrannau ar draws Llywodraeth Cymru yn cefnogi Is-bwyllgor y Cabinet ar y Trefniadau Pontio Ewropeaidd.
- Mae is-grwpiau ar Ddeddfwriaeth, Fframweithiau a'r Economi yn cefnogi'r gwaith.
- Mae Grŵp Cynghori allanol ar Ewrop yn cynghori Llywodraeth Cymru ar y goblygiadau i Gymru pan fydd y DU yn ymadael â'r UE, ochr yn ochr ag ystod o fforymau rhanddeiliad eraill.

Mae Tîm y Trefniadau Pontio Ewropeaidd yn parhau i gydweithio'n agos â thîm Llywodraeth Cymru ym Mrwsel ac ar draws adrannau polisi perthnasol, ac yn creu cysylltiadau â Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig eraill trwy system y Cyd-bwyllgor Gweinidogion a sianeli eraill.

Yn gysylltiedig â'r risg hwn mae gallu a galluogrwydd swyddogion yn Llywodraeth Cymru i ymateb i'r heriau a'r llwyth gwaith a ddisgwylir yn sgil y Trefniadau Pontio Ewropeaidd yn dal yn destun pryder. Mae rhaglen sylweddol yn cael ei chynnal i wella gallu'r gweithlu i gyflawni'n effeithiol ac yn hyblyg, er mwyn cefnogi'r broses o ail-flaenoriaethu adnoddau i ddiwallu anghenion yn y dyfodol.

Fe wnaeth y Bwrdd gynnwys pedwar o risgiau newydd yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn ystod y flwyddyn, sef:

- **Cyflawni Cymru Iachach** – uwchgyfeiriodd y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y risg na fyddai digon o gapasiti na gallu yn Llywodraeth Cymru, sefydliadau GIG Cymru na llywodraeth leol i gyflawni'r uchelgeisiau trawsnewidiol a'r weledigaeth at y dyfodol a nodir yn *Cymru Iachach*. Mae risg hefyd y gallai systemau iechyd a gofal cymdeithasol amsugno cyllid ychwanegol y bwriedir iddo yrru trawsnewid er mwyn cynnal y dulliau gweithredu presennol, gan arwain at wasanaethau anghynaliadwy na allant ymateb i alw cynyddol na gwella canlyniadau i unigolion.
- **Llywodraethiant Cyrff Hyd Braich** – cafodd y risg hwn ei ailgyflwyno yn dilyn cwblhau adolygiad mewnol o'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant Cyrff Cyhoeddus Cymru gan Lywodraeth Cymru, a nododd yr angen am ddull gweithredu mwy cyson ar draws timau noddi cyrff cyhoeddus. Roedd ailgyflwyno'r risg yn adlewyrchu awydd y Bwrdd i gadw ffocws ar y mater tra oedd trefniadau newydd yn cael eu cyflwyno, gan gynnwys sefydlu'r Uned Cyrff Cyhoeddus newydd i ddarparu arbenigedd a ffocws ar gyfer ymgysylltu gwell â Chyrff Cyhoeddus.
- **GDPR** – daeth y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) i rym ar 25 Mai 2018. Mae'n gofyn am safonau ymarfer uwch gan reolwyr data ac yn pennu cosbau uwch ar gyfer achosion difrifol o dorri diogelwch data gyda'r risg, os na fydd swyddogion yn gwbl ymwybodol o'r rheoliadau ac yn eu deall, y gellid wynebu cosbau oherwydd torri diogelwch data.
- **Digwyddiad Tarfu, yn effeithio ar Bobl, Lleoedd, Cyfathrebu a TG** – disodlodd y risg newydd hwn risgiau blaenorol oedd yn canolbwyntio ar ymateb i argyfyngau a methiant TG posibl ac fe'i mabwysiadwyd i ddarparu asesiad ehangach o ddigwyddiadau a allai darfu ar fusnes Llywodraeth Cymru, waeth beth fo eu math neu eu hachos.

Yn achos pob un o'r pedwar risg newydd a nodwyd, mae ystod o fesurau lliniaru wedi'u dogfennu yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Mae camau pellach angenrheidiol wedi cael eu nodi hefyd lle nad yw'r risg sy'n weddill ar ôl lliniaru eto wedi cyrraedd y risg targed y gall Llywodraeth Cymru ei oddef.

## Y Gallu i Ymdrin â Risg

Prif amcan polisi rheoli risg Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod proses gyson yn bodoli ar gyfer mesur, rheoli, monitro ac adrodd ar risg ar draws y sefydliad. Ni ddylai rheoli risg yn effeithiol olygu bod Llywodraeth Cymru'n mabwysiadu agwedd wrth-risg yn ddiangen. Wrth fynd ar drywydd ei hamcanion, mae'n barod i gymryd risgiau sydd wedi'u hasesu, eu gwerthuso a'u rheoli'n briodol er mwyn gallu manteisio'n fwy effeithiol ar gyfleoedd wrth iddynt godi, gan dderbyn yr un pryd y gallai rhai methiannau ddigwydd.

Yn gorfforaethol, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am oruchwylio gweithredu'r polisi a'r broses ar gyfer rheoli risg ac am oruchwylio a chraffu ar liniaru'r risgiau allweddol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru a allai fel arall atal neu lesteirio'r sefydliad rhag cyflawni ei hamcanion strategol. Yn bennaf, dyma'r risgiau sydd mor allweddol fel na ellir eu rheoli ar lefel Grŵp, ynghyd â rhai o natur gorfforaethol y teimlid eu heffaith ar draws y sefydliad cyfan. Mae'r risgiau corfforaethol wedi'u hadolygu gan y Bwrdd ddwywaith yn y flwyddyn.

Cyfrifoldeb rheoli yw rheoli a lliniaru risg o ddydd i ddydd ac mae pob Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi bod yn gyfrifol am reoli risg a chyfle mewn perthynas ag amcanion allweddol eu Grŵp. Cafodd risgiau'r grwpiau eu hadolygu'n rheolaidd gan uwch-dimau rheoli a chan Bwyllgorau Archwilio a Risg y Grwpiau ac fe gawsant eu llywio gan gofrestri risg a gynhelir gan brosiectau a rhaglenni ac asesiadau risg a chofrestri risg ar lefel is-adrannol.

Tua diwedd y flwyddyn, cynhaliodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygiad o drefniadau rheoli risg ar draws y sefydliad i benderfynu a oedd ganddo fframwaith rheoli risg a oedd yn addas i'w ddiben, gan gynnwys meincnodi dull gweithredu Llywodraeth Cymru yn erbyn Cyrff Cyhoeddus eraill a fframweithiau enghreifftiol. At ei gilydd, canfu'r adolygiad fod rhai bylchau yn y fframwaith rheoli risg y mae angen mynd i'r afael â hwy. Nododd hefyd effaith adnoddau penodedig cyfyngedig ar allu'r Swyddog Gwella Risg i ddarparu hyfforddiant, cymorth, cyngor ac offer effeithiol i'r sefydliad ym maes rheoli risg. Mae prosiect gwella risg wedi'i roi ar waith i fynd i'r afael â'r diffygion yn y fframwaith rheoli risg ac i adnewyddu deunyddiau hyfforddiant a chyfarwyddyd, gyda rhaglen hyfforddiant i'w chyflwyno yn ystod 2019.

## Cyfarwyddyd Gweinidogol

Mae fy atebolrwydd yn ei gwneud yn ofynnol imi sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddorion priodoldeb a gwerth am arian. Os wyf fi, neu fy swyddogion, yn cael ein cyfarwyddo i gymryd cam gweithredu arbennig ond yn credu nad yw'n bodloni'r safon hon, disgwylir imi hysbysu'r Ysgrifennydd Cabinet neu'r Gweinidog perthnasol ac, os oes angen, ofyn am ei gyfarwyddyd ffurfiol i barhau â'r cam gweithredu hwnnw. Yn ystod cyfnod y cyfrifon hyn a'u llofnodi, nid oes unrhyw Gyfarwyddydau Gweinidogol wedi'u cyhoeddi gan Ysgrifenyddion Cabinet Cymru na Gweinidogion Cymru.

## Casgliad

Bu'r system rheolaeth fewnol ar waith yn y sefydliad am y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2019 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Cyfunol. Mae'n cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys EM. Rwyf wedi adolygu'r dystiolaeth a roddwyd imi drwy fy adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethiant a gallaf gymryd sicrwydd rhesymol bod y trefniadau i sicrhau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu, wedi cael eu cynllunio a'u cymhwyso'n effeithiol. Mae ar rai materion angen sylw rheoli o ran rheolaeth, cynllunio neu gydymffurfio, ac maent yn agored i risg cymedrol nes cael eu datrys.

**Shan Morgan**
**Yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu**

20 Awst 2019

# Adroddiad Staff a Thaliadau Cydnabyddiaeth 2018-19

## Polisi Taliadau Cydnabyddiaeth

Mae taliadau cydnabyddiaeth uwch-weision sifil yn cael eu pennu ar lefel Llywodraeth y DU yn dilyn cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb dirprwyedig dros dâl cydnabyddiaeth staff nad ydynt yn rhan o'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Mae tâl a phensiynau'r Gweinidogion yn cael eu pennu gan benderfyniad Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Dâl a Lwfansau Aelodau.

## Contractau Gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i benodiadau gael eu gwneud ar sail teilyngdod a chystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi o dan ba amgylchiadau y gellid gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir hynny isod, mae'r swyddogion sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn dal swyddi sy'n benagored. Byddai penderfyniad i derfynu swydd, am resymau ac eithrio camymddygiad, yn golygu bod yr unigolyn yn cael iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn www.civilservicecommission.org.uk

## Datganiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar ei Pholisi Tâl

Yn unol ag egwyddorion 'Tryloywder cydnabyddiaeth ariannol uwch-reolwyr yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru' a gyhoeddwyd ar 7 Rhagfyr 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad ar ei pholisi tâl ar ei gwefan.

Mae'r Datganiad Polisi Tâl yn ymdrin â diffiniad Llywodraeth Cymru o "swyddi uwch" a "gweithwyr sy'n derbyn y tâl isaf" a'r berthynas rhwng taliadau cydnabyddiaeth swyddi uwch a thaliadau cydnabyddiaeth y gweithwyr sy'n derbyn y tâl isaf. Mae hefyd yn trafod:

a) tystiolaeth amlwg o fforddiadwyedd a gwerth am arian;

b) nifer y swyddi uwch o fewn y corff sydd â phecyn tâl o fwy na £100,000 mewn bandiau o £5,000;

c) y ffordd o reoli talent fewnol;

d) y ffordd o ymdrin â thâl ar sail perfformiad;

e) y ffordd o roi cymorth i staff sydd ar gyflog llai;

f) y pwyntiau tâl uchaf ac isaf;

g) y polisïau ar daliadau diswyddo sy'n weithredol a sut ac o dan ba amgylchiadau y gellid eu hamrywio.

## Taliadau cydnabyddiaeth (gan gynnwys cyflog) a hawliau pensiwn

Mae'r adran hon yn destun archwiliad ac yn cael ei chynnwys ym marn archwilio'r Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am daliadau cydnabyddiaeth a buddion pensiwn y Gweinidogion a'r uwch-reolwyr.

### Cydnabyddiaeth ariannol

Nodir taliadau cydnabyddiaeth y Prif Weinidog a'i dîm yn y Cabinet a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn isod. Adlewyrchir y costau hyn yng nghyfrifon Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac nid Llywodraeth Cymru. Mae cyflogau'r Gweinidogion yn cynnwys eu cyflogau fel Aelodau'r Cynulliad, sef £66,847 (2017-18: £65,344). Nid yw buddion mewn nwyddau mewn perthynas â chyfrifoldebau Aelodau'r Cynulliad wedi'u cynnwys yn y tabl.

## Cyfanswm taliadau cydnabyddiaeth – Gweinidogion

| Gweinidogion | Cyflog 2018-19 £ | Cyflog 2017-18 £ | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf)[1] 2018-19 £ | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf)[1] 2017-18 £ | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf) 2018-19 £ | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf) 2017-18 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mark Drakeford**<br>Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid hyd at 12/12/18 wedyn Prif Weinidog o 13/12/18 | 117,027 | 102,100 | 47,000 | 42,000 | 164,000 | 144,000 |
| **Rebecca Evans**<br>Y Gweinidog Tai ac Adfywio hyd at 12/12/18 wedyn y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd o 14/12/18 | 93,456 | 86,785 | 28,000 | 28,000 | 121,000 | 115,000 |
| **Vaughan Gething**<br>Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hyd at 12/12/18 wedyn Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o 13/12/18 | 104,448 | 102,100 | 31,000 | 34,000 | 135,000 | 136,000 |
| **Lesley Griffiths**<br>Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig hyd at 12/12/18 wedyn Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig o 13/12/18 | 104,448 | 102,100 | 31,000 | 34,000 | 135,000 | 136,000 |
| **Julie James**<br>Gweinidog hyd at 03/11/2017 wedyn Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip o 04/11/2017 wedyn y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol o 14/12/18 | 104,448 | 93,039 | 32,000 | 29,000 | 136,000 | 122,000 |
| **Jeremy Miles**<br>Cwnsler Cyffredinol o 04/11/2017 wedyn Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit o 13/12/18 | 104,448 | 41,692 | 32,000 | 13,000 | 136,000 | 55,000 |
| **Eluned Morgan**<br>Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes o 04/11/17 wedyn Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol o 14/12/18 | 93,456 | 35,437 | 28,000 | 12,000 | 121,000 | 47,000 |
| **Ken Skates**<br>Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth hyd at 12/12/18 wedyn Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth o 13/12/18 | 104,448 | 102,100 | 32,000 | 32,000 | 136,000 | 134,000 |
| **Kirsty Williams**<br>Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg hyd at 12/12/18 wedyn y Gweinidog Addysg o 13/12/18 | 104,448 | 102,100 | 31,000 | 34,000 | 135,000 | 136,000 |
| **Hannah Blythyn**<br>Gweinidog yr Amgylchedd hyd at 04/11/17 wedyn y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol o 13/12/18 | 88,781 | 35,437 | 27,000 | 12,000 | 116,000 | 47,000 |
| **Dafydd Elis-Thomas**<br>Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon hyd at 04/11/17 wedyn y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth o 13/12/18 | 88,781 | 35,437 | 8,000 | 5,000 | 97,000 | 40,000 |
| **Jane Hutt**<br>Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip hyd at 03/11/2017 wedyn y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip o 14/12/18 | 26,491 | 60,409 | 17,000 | 35,000 | 43,000 | 95,000 |
| **Julie Morgan**<br>Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o 14/12/18 | 26,491 | - | 10,000 | - | 36,000 | - |
| **Lee Waters**<br>Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth o 14/12/18 | 26,491 | - | 9,000 | - | 35,000 | - |
| **Alun Davies**<br>Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus o 04/11/17 i 13/12/18 | 73,282 | 93,039 | 20,000 | 30,000 | 93,000 | 123,000 |
| **Huw Irranca-Davies**<br>Y Gweinidog Plant, Gofal Cymdeithasol a Phobl Hŷn o 04/11/17 i 13/12/18 | 62,290 | 35,437 | 18,000 | 11,000 | 80,000 | 46,000 |
| **Y Gwir Anrh Carwyn Jones**<br>Prif Weinidog hyd at 12/12/18 | 102,202 | 142,940 | 25,000 | 49,000 | 127,000 | 192,000 |

## Manylion pensiwn

| Gweinidogion | Cronnwyd Pensiwn cronedig ar yr oedran pensiwn fel y mae ar 31/03/19 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar yr oedran pensiwn £000 | CETV ar 31/03/19 £000 | CETV[1] ar 31/03/18 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mark Drakeford** Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid hyd at 12/12/18 wedyn Prif Weinidog o 13/12/18 | 20–25 | 2.5–5 | 411 | 337 | 46 |
| **Rebecca Evans** Y Gweinidog Tai ac Adfywio hyd at 12/12/18 wedyn y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd o 14/12/18 | 15–20 | 0–2.5 | 187 | 159 | 11 |
| **Vaughan Gething** Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hyd at 12/12/18 wedyn Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o 13/12/18 | 25–30 | 0–2.5 | 316 | 278 | 13 |
| **Lesley Griffiths** Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig hyd at 12/12/18 wedyn Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig o 13/12/18 | 35–40 | 0–2.5 | 616 | 554 | 24 |
| **Julie James** Gweinidog hyd at 03/11/17 wedyn Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip o 04/11/17 wedyn y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol o 14/12/18 | 15–20 | 0–2.5 | 287 | 239 | 26 |
| **Jeremy Miles** Y Cwnsler Cyffredinol o 04/11/17 wedyn Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit o 13/12/18 | 5–10 | 0-2.5 | 61 | 33 | 15 |
| **Eluned Morgan** Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes o 04/11/17 wedyn Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol o 14/12/18 | 0–5 | 0–2.5 | 63 | 36 | 16 |
| **Ken Skates** Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth hyd at 12/12/18 wedyn Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth o 13/12/18 | 10–15 | 0–2.5 | 166 | 137 | 12 |
| **Kirsty Williams** Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg hyd at 12/12/18 wedyn y Gweinidog Addysg o 13/12/18 | 35–40 | 0–2.5 | 528 | 479 | 15 |
| **Hannah Blythyn** Gweinidog yr Amgylchedd hyd at 04/11/17 wedyn y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol o 13/12/18 | 0–5 | 0–2.5 | 44 | 26 | 8 |
| **Dafydd Elis-Thomas** Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon o 04/11/17 i 12/12/18 y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth o 13/12/18 | 60–65 | 0–2.5 | 961 | 966 | 6 |
| **Jane Hutt** Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip hyd at 03/11/17 wedyn y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip o 14/12/18 | 60–65 | 0–2.5 | 1,117 | 1,127 | 14 |
| **Julie Morgan** Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o 14/12/18 | 10–15 | 0–2.5 | 195 | 184 | 7 |
| **Lee Waters** Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth o 14/12/18 | 0–5 | 0–2.5 | 45 | 37 | 4 |
| **Alun Davies** Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus o 04/11/2017 i 13/12/18 | 20–25 | 0–2.5 | 347 | 323 | 11 |
| **Huw Irranca-Davies** Y Gweinidog Plant, Gofal Cymdeithasol a Phobl Hŷn o 04/11/17 i 13/12/18 | 0–5 | 0–2.5 | 62 | 44 | 11 |
| **Y Gwir Anrh Carwyn Jones** Prif Weinidog hyd at 12/12/18 | 60–65 | 0–2.5 | 965 | 928 | 12 |

## Cyfanswm ffigur taliadau cydnabyddiaeth – Gweinidogion (parhad)

[1] Mae'r Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) ar ddechrau'r flwyddyn wedi cael ei ailddatgan oherwydd newid yn y ffactorau a ddefnyddir yn y cyfrifiad ar gyfer CETV yn dilyn yr adolygiad o'r holl ffactorau wrth gwblhau'r prisiad actiwaraidd.

Yn 2018-19, roedd teitlau rhai o'r Gweinidogion yn wahanol i'r teitlau a ddefnyddiwyd yn 2017-18, fel a ganlyn:

| 2017-18 | | 2018-19 |
|---|---|---|
| Ysgrifennydd Cabinet | nawr | Gweinidog |
| Gweinidog | nawr | Dirprwy Weinidog |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y "Cynulliad") yn darparu cynllun â buddion diffiniedig, a lywodraethir gan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae adran 20 (4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac Atodlen 11 iddi, yn sicrhau dilyniant yn y Cynllun. Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

Mae'r Cynllun yn darparu buddion i Aelodau'r Cynulliad a Deiliaid Swyddi. Mae pob Aelod Cynulliad yn aelod o'r Cynllun o'r dyddiad y mae'n dechrau yn y Cynulliad oni bai ei fod yn dewis yn benodol peidio â bod yn rhan ohono. Nid yw'r Gweinidogion yn derbyn cyfandaliad awtomatig; mae ganddynt yr opsiwn i drosi rhan o'u pensiwn yn gyfandaliad yn gyfnewid am lai o bensiwn.

Cyflwynwyd Cynllun Pensiwn Enillion Cyfartalog Gyrfa ym mis Mai 2016. Mae aelodau a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2012 yn cael eu diogelu yn ystod y cyfnod pontio, ac mae eu buddion yn parhau i gael eu cyfrifo ar sail eu cyflog terfynol am bum mlynedd yn ychwanegol, hyd at 5 Mai 2021.

Ar hyn o bryd, mae'r Cynulliad yn cyfrannu 19.9% o gyflogau cyfanredol Aelodau. Mae aelodau nad ydynt yn cael eu diogelu yn ystod y cyfnod pontio yn talu cyfraniadau ar raddfa o 10.5%. Mae'r aelodau hynny sy'n cael eu diogelu yn parhau i dalu cyfraniadau ar eu cyfradd bresennol o naill ai 6% neu 10% yn dibynnu a ydynt yn cronni buddion ar sail croniad 50fed neu 40fed yn ôl eu trefn.

Mae'r Oedran Ymddeol Arferol yn gysylltiedig ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65, p'un bynnag sydd uchaf). Bydd unrhyw bensiwn Cyflog Terfynol a gronnir cyn 6 Mai 2021 yn parhau i fod yn daladwy ar yr Oedran Ymddeol Arferol o 65.

## Cyfanswm ffigur taliadau cydnabyddiaeth

Mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o Adrannau'r Llywodraeth Ganolog gynnwys Cyfanswm Taliadau Cydnabyddiaeth ynghyd â ffigur cymharol ar gyfer blynyddoedd blaenorol o fewn yr adroddiad ar daliadau cydnabyddiaeth. Mae cyfanswm y taliadau cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, taliadau bonws a buddion mewn nwyddau (fel y nodir mewn cyfrifon blaenorol) yn ogystal â ffigur buddion pensiwn. Mae'r buddion pensiwn wedi eu cyfrifo gan ddefnyddio'r fethodoleg a ddefnyddir i gyfrifo gwerthoedd pensiwn at ddibenion treth. O ganlyniad i hyn, gall ffactorau eraill fel unigolyn yn penderfynu gwneud cyfraniadau ychwanegol neu ffactorau prisio sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn cyfan ddylanwadu ar y ffigurau, ac felly nid ydynt bob tro yn adlewyrchu'n gywir symiau gwirioneddol y pensiwn a dalwyd neu a enillwyd gan unigolyn mewn blwyddyn. Er hynny, mae'r system hon yn gymwys i bob un o adrannau'r llywodraeth gan gynnwys cyrff y GIG.

## Cyfanswm taliadau cydnabyddiaeth – Uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru

| Uwch-swyddogion* | Cyflog 2018-19 £000 | Cyflog 2017-18 £000 | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf) 2018-19 £000 | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf) 2017-18 £000 | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf) 2018-19 £000 | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf) 2017-18 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Shan Morgan**[1,2] Yr Ysgrifennydd Parhaol | 130–135 | 155–160 | – | * | 130–135 | 155–160 |
| **Andrew Goodall**[3] Cyfarwyddwr Cyffredinol | 200–205 | 200–205 | – | – | 200–205 | 200–205 |
| **Tracey Burke** Cyfarwyddwr Cyffredinol o 20/11/2017 | 115–120 | 40–45 (cyfwerth â blwyddyn lawn 115–120) | 50-55 | 15–20 | 170–175 | 60–65 |
| **Des Clifford**[1] Cyfarwyddwr Cyffredinol o 29/01/2018 | 115–120 | 20–25 (cyfwerth â blwyddyn lawn 115–120) | – | 20–25 | 115-120 | 40–45 |
| **Andrew Slade**[1] Cyfarwyddwr Cyffredinol o 01/01/2018 | 115–120 | 30–35 (cyfwerth â blwyddyn lawn 115-120) | - | 40–45 | 115–120 | 70–75 |
| **David Richards** Cyfarwyddwr Llywodraethiant | 100–105 | 100–105 | (5–10) | 10–15 | 95–100 | 115–120 |
| **Jeff Godfrey** Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol | 110–115 | 110–115 | (0–5) | 15–20 | 105–110 | 125–130 |
| **Natalie Pearson** Pennaeth Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu | 75–80 | 75–80 | 0–5 | 10–15 | 80–85 | 90–95 |
| **Gillian Baranski** Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 120–125 | 120–125 | 15–20 | 70–75 | 140–145 | 195–200 |
| **Peter Kennedy** Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 90–95 | 90–95 | 15–20 | 15–20 | 110–115 | 110–115 |
| **Gawain Evans**[1] Cyfarwyddwr Cyllid | 100–105 | 100–105 | 40–45 | * | 140–145 | 100–105 |
| **Andrew Jeffreys** Cyfarwyddwr y Trysorlys o 01/04/18 | 95–100 | – | 35–40 | – | 130–135 | – |
| **Elan Closs Stephens**[6] Cyfarwyddwr Anweithredol | 0–5 (cyfwerth â blwyddyn lawn 10–15) | 10–15 | – | – | 0–5 | 10–15 |
| **James Turner**[7] Cyfarwyddwr Anweithredol | 0–5 (cyfwerth â blwyddyn lawn 10–15) | 10-15 | – | – | 0–5 | 10-15 |
| **Ann Keane**[4] Cyfarwyddwr Anweithredol | 15–20 | 30–35 | – | – | 15–20 | 30–35 |
| **Ellen Donovan**[5] Cyfarwyddwr Anweithredol o 27/02/18 | 10–15 | 0–5 (cyfwerth â blwyddyn lawn 10-15) | – | – | 10–15 | 0–5 |

| Uwch-swyddogion* | Cyflog 2018-19<br><br>£000 | Cyflog 2017-18<br><br>£000 | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf) 2018-19<br>£000 | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf) 2017-18<br>£000 | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf) 2018-19<br>£000 | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf) 2017-18<br>£000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Jeff Farrar**<br>Cyfarwyddwr Anweithredol o 27/02/18 | 10–15 | 0–5 (cyfwerth ag amser llawn 10–15) | | – | 10–15 | 0–5 |
| **Gareth Lynn**<br>Cyfarwyddwr Anweithredol o 20/04/18 | 10–15 | – | | – | 10–15 | – |

Mae Uwch-swyddogion ar gyfer cyfanswm ffigur datgeliadau taliadau cydnabyddiaeth yn aelodau o Fwrdd Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Gweithredol.

[1] Nid yw'r budd pensiwn ar gyfer Shan Morgan a Gawain Evans ar gyfer 2017-18, ac ar gyfer Des Clifford ac Andrew Slade wedi'i gynnwys uchod oherwydd bod cyfrifiad rhifyddeg £465,000-470,000, £105,000-110,000, £105,000-110,000 a £125,000-130,000 yn ystumio cymarebau o flwyddyn i flwyddyn ym mhlwyddyn codiad cyflog. Er nad yw'r rhifau a gyflwynir yn arwydd o'r budd gwirioneddol a gafwyd, mae'r fformat yn orfodol ac yn destun archwilio.

[2] Mae'r gostyngiad yng nghyflog Shan Morgan ers y flwyddyn flaenorol yn deillio o'r penderfyniad i roi'r gorau i gronni pensiwn yn PCSPS. Mae hyn wedi gostwng cost cyflogaeth i Lywodraeth Cymru ond mae'r rôl yn parhau i gael ei chyflawni ar sail amser llawn. Gwrthododd yr Ysgrifennydd Parhaol daliad bonws anghyfunol o £17,500 yn ymwneud â pherfformiad.

[3] Mae Andrew Goodall wedi'i secondio o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac mae wedi dewis peidio â chael ei gynnwys gan drefniadau pensiwn y GIG.

[4] Mae cyflog Ann Keane yn cynnwys ffioedd ychwanegol o ££4,662 (2017-18 19,576) am waith a gomisiynwyd o fewn Llywodraeth Cymru.

[5] Mae cyflog Ellen Donovan yn cynnwys Ffioedd ychwanegol o £694 (2017-18: £dim) am waith a gomisiynwyd o fewn Llywodraeth Cymru.

[6] Mae cyflog Elan Closs Stephens yn cynnwys ffioedd ychwanegol o £694 am waith a gomisiynwyd o fewn Llywodraeth Cymru. Mae datgeliadau yn y tabl uchod yn cynnwys gordaliad, ac mae trafodaeth ynghylch ei adfer yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

[7] Mae datgeliad James Turner yn y tabl uchod yn cynnwys adfer gordaliad, sy'n destun trafodaeth ar hyn o bryd.

## Manylion pensiwn

| Uwch-swyddogion* | Pensiwn a gronnwyd ar oedran pensiwn fel yr oedd ar 31/03/19 a'r cyfandaliad cysylltiedig £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn £000 | CETV ar 31/03/19 £000 | CETV ar 31/03/18 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Shan Morgan**[2] Yr Ysgrifennydd Parhaol | – | – | – | 1,953 | – |
| **Andrew Goodall**[3] Cyfarwyddwr Cyffredinol | – | – | – | – | – |
| **Tracey Burke** Cyfarwyddwr Cyffredinol o 20/11/2017 | 30–35 | 2.5–5 | 433 | 352 | 29 |
| **Des Clifford** Cyfarwyddwr Cyffredinol o 29/01/2018 | 30–35 ynghyd â chyfandaliad o 100–105 | 5–7.5 ynghyd â chyfandaliad o 15–17.5 | 744 | 576 | 104 |
| **Andrew Slade** Cyfarwyddwr Cyffredinol o 01/01/2018 | 40-45 ynghyd â chyfandaliad o 95–100 | 5-7.5 ynghyd â chyfandaliad o 10–12.5 | 717 | 546 | 90 |
| **David Richards** Cyfarwyddwr Llywodraethiant | 50–55 ynghyd â chyfandaliad o 155 b160 | 0–2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0–2.5 | 1,155 | 1,118 | -7 |
| **Jeff Godfrey** Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol | 45–50 ynghyd â chyfandaliad o 140–145 | 0–2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0–2.5 | 1,128 | 1,029 | -2 |
| **Natalie Pearson** Pennaeth Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu | 25–30 ynghyd â chyfandaliad o 80–85 | 0–2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0–2.5 | 585 | 522 | 2 |
| **Gillian Baranski** Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 25–30 | 0–2.5 | 561 | 509 | 20 |
| **Peter Kennedy** Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 30–35 ynghyd â chyfandaliad o 85–90 | 0–2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0 | 643 | 569 | 10 |
| **Gawain Evans** Cyfarwyddwr Cyllid | 40–45 ynghyd â chyfandaliad o 110–115 | 0–2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0–2.5 | 848 | 739 | 24 |
| **Andrew Jeffreys** Cyfarwyddwr y Trysorlys o 01/04/18 | 25–30 Ynghyd â chyfandaliad o 55–60 | 0–2.5 Ynghyd â chyfandaliad o 0–2.5 | 445 | 371 | 18 |

## Cyflog

Mae ‘cyflog’ yn cynnwys cyflog gros; goramser; hawliau neilltuedig ar gyfer pwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfansau eraill i’r graddau eu bod yn destun treth y DU.

Mae’r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau a wneir gan Lywodraeth Cymru ac eithrio’r Gweinidogion fel y nodir uchod.

Mae gan Uwch-weision Sifil o fewn Llywodraeth Cymru hawl gontractiol i gael eu hystyried am daliad amrywiol ar sail perfformiad. Mae unrhyw daliadau a wneir yn cael eu talu ar ddiwedd mis Gorffennaf bob blwyddyn, ond ni wnaed unrhyw daliadau. Rôl Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth yr Uwch Wasanaeth Sifil yw gweithredu polisi tâl uwch-weision y DU a chymeradwyo unrhyw ddyraniadau, gan asesu cyfraniadau perthnasol a pherfformiad Uwch-weision Sifil yn ystod y flwyddyn. Mae’r Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth yn cynnwys yr Ysgrifennydd Parhaol, un Cyfarwyddwr Cyffredinol a’r Cyfarwyddwyr Anweithredol.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol y buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac y mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn eu trin fel enillion trethadwy, ac yn cael ei nodi i’r £100 agosaf. Aseswyd nad oedd unrhyw fuddion mewn nwyddau.

## Lluosrifau tâl

Mae’n ofynnol i gyrff sy’n adrodd ddatgelu’r berthynas rhwng taliadau cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy’n cael y tâl uchaf yn eu sefydliad a thaliad cydnabyddiaeth canolrifol gweithlu’r sefydliad.

Tâl cydnabyddiaeth wedi’i fandio’r cyfarwyddwr a oedd yn derbyn y tâl uchaf yn Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol 2018-19 oedd £200,000-£205,000 (2017-18: £200,000-£205,000). Roedd hyn yn 5.7 gwaith (ailddatganwyd 2017-18: 5.7) tâl cydnabyddiaeth canolrifol y gweithlu, sef £35,750 (2016-17: £35,750). Ar sail tâl cydnabyddiaeth wedi’i fandio yr Ysgrifennydd Parhaol y gymhareb yw 3.7 (ailddatganwyd 2017-18: 4.4). Yn 2018-19 a 2017-18 ni chafodd unrhyw gyflogeion dâl cydnabyddiaeth yn uwch na’r cyfarwyddwr a dderbyniodd y swm uchaf. Roedd y tâl cydnabyddiaeth yn amrywio o £15,000-£20,000 i £200,000-£205,000 (2017-18: £15,000-£20,000 i £200,000-£205,000).

Mae cyfanswm y taliadau cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl ar sail perfformiad sydd heb ei gyfuno a buddion mewn nwyddau. Nid yw’n cynnwys cyfraniadau pensiwn gan gyflogwyr a gwerthoedd trosglwyddo pensiynau sy’n gyfwerth ag arian parod.

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi ei asesu gan actwari. Y buddion a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd eisoes yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion a gronnwyd gan yr unigolion o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond y gwasanaeth mewn swydd uwch sy'n destun datgelu.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod oherwydd iddynt brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hunain. Cyfrifir y CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008, ac nid yw'n rhoi ystyriaeth i unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir budd-daliadau pensiwn.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau sy'n cael eu talu gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod.

# Niferoedd a Chostau Staff

Nifer cyfartalog y bobl gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y cyfnod (gan gynnwys uwch-reolwyr a chynghorwyr arbennig) oedd:

| | Staff sydd wedi'u cyflogi'n barhaol | Staff Eraill | Cynghorwyr Arbennig | Cyfanswm 2018-19 | Cyfanswm 2017-18 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **84,425** | **2,561** | **9** | **86,995** | **77,265** |
| O'r rhain: | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 4,813 | 270 | 9 | 5,092 | 5,022 |
| BILlau ac Ymdd. GIG* | 78,821 | 2,291 | – | 81,112 | 71,503 |
| Is-gwmnïau | 791 | – | – | 791 | 740 |

O gyfanswm Llywodraeth Cymru: Cyrff rheoleiddio a chyflawni – 725; Tribiwnlysoedd – 28.

* Cafodd Ymddiriedolaethau'r GIG eu cyfuno yng Nghyfrifon Llywodraeth Cymru o 1 Ebrill 2018. Ffigur cymharol y flwyddyn flaenorol ar 31 Mawrth gan gynnwys Ymddiriedolaethau'r GIG oedd 79,916

## Cyfansoddiad staff Llywodraeth Cymru yn ôl rhyw (heb ei archwilio)

| | Gwryw | Benyw |
|---|---|---|
| Aelodau'r Bwrdd | 60% | 40% |
| Uwch Wasanaeth Sifil* | 59% | 41% |
| Pob Staff | 42% | 58% |

* Mae'n nod gan Lywodraeth Cymru gael rhaniad o 50:50 erbyn 2020.

## Costau staff

| | Staff sydd wedi'u cyflogi'n barhaol £m | Staff Eraill £m | Cyfanswm Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2019 £m | Cyfanswm Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2018 £m |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | | | | |
| Cyflogau | 206 | 8 | **214** | 210 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 24 | – | **24** | 23 |
| Costau Pensiwn Eraill | 54 | – | **54** | 53 |
| **Cyfanswm** | **284** | **8** | **292** | **286** |
| Adenillon o secondiadau | (3) | – | **(3)** | (2) |
| **Costau staff net** | **281** | **8** | **289** | **284** |
| **Wedi'u cyfuno** | | | | |
| Cyflogau | 3,188 | 193 | **3,381** | 2,944 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 317 | – | **317** | 272 |
| Costau Pensiwn Eraill | 427 | – | **427** | 372 |
| **Cyfanswm** | **3,932** | **193** | **4,125** | **3,588** |
| Adenillon o secondiadau | (3) | – | **(3)** | (2) |
| **Costau staff net** | **3,929** | **193** | **4,122** | **3,586** |

Mae cyflogau'n cynnwys cyflogau gros, y bonysau perfformio sy'n daladwy, hawliau neilltuedig i bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw, a lwfansau swyddfa breifat.

Talwyd cyfanswm o £814,069 (wedi'i ailddatgan 2017-18 – £681,921) i gynghorwyr arbennig ar gyfer y flwyddyn, gan gynnwys pensiwn a chostau nawdd cymdeithasol, ac maent wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod. Yn ogystal oherwydd newidiadau Gweinidogol yn y flwyddyn, daeth y contractau ar gyfer yr holl Gynghorwyr Arbennig i ben, ac fe wnaed taliadau diswyddo o £259,988 yn unol â thelerau'r Contract Enghreifftiol ar gyfer Cynghorwyr Arbennig. Pan gafodd rhai Cynghorwyr Arbennig eu hailbenodi, adenillwyd taliadau diswyddo o £79,704 ac mae £60,648 pellach wrthi'n cael ei adennill yn unol â thelerau'r Contract Enghreifftiol ar gyfer Cynghorwyr Arbennig.

Mae costau nawdd cymdeithasol a phensiynau ar gyfer staff dros dro a staff ar secondiad o dan y ffigurau craidd ar gyfer staff eraill wedi cael eu cynnwys yn y cyflogau gan eu bod yn cael eu hanfonebu ar sail gros. Telir cyflogau Gweinidogion Cymru gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'u hadlewyrchir yn y cyfrifon hynny. O ran nifer yr uwch-staff y mae eu cyflog yn uwch na £100k, roedd 33 o staff yr oedd eu cyflog yn uwch na £100k ar 31 Mawrth. O'r rhain, roedd 3 yn staff rhan-amser yr oedd eu henillion felly o dan y trothwy o £100k ac fe ymadawodd un rhan o'r ffordd drwy'r flwyddyn.

## Pensiynau

Darperir buddion Pensiwn y Gwasanaeth Sifil trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil, sef Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac Eraill, neu'r cynllun **alpha**, O dan y cynllun hwnnw, darperir buddion ar sail enillion cyfartalog gyrfa, ac mae'r oed pensiwn arferol yn cyd-fynd ag oed pensiwn yr aelod o dan system Bensiwn y Wladwriaeth (neu 65 oed, os yw'n uwch). Mae pob gwas sifil a gafodd ei benodi ers y dyddiad hwnnw, yn ogystal â'r rhan fwyaf o weithwyr a oedd eisoes yn rhan o'r Gwasanaeth Sifil, bellach wedi ymuno â'r cynllun **alpha**. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y PCSPS bedair adran. Mae tair ohonynt yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol yr aelod (**classic, premium** neu **classic plus**) a hynny'n gysylltiedig ag oed pensiwn arferol o 60. Mae'r adran arall yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan yr aelod (**nuvos**) a hynny'n gysylltiedig ag oed pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, ac mae costau'r buddion yn cael eu talu o swm o arian y bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Bydd pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau **classic, premium, classic plus, nuvos** ac **alpha** yn cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau. Mae aelodau o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 wedi parhau i fod yn aelodau o'r PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i'r cynllun **alpha** rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Bydd buddion PCSPS pob aelod sy'n newid i'r cynllun **alpha** yn cael eu 'bancio'. O ran y rhai a gronnodd fuddion gynt fel aelodau o un o adrannau'r PCSPS a oedd yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol, bydd y buddion hynny'n seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael y cynllun **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a gronnwyd yn rhan o PCSPS neu'r cynllun **alpha** – fel y bo'n briodol. Lle mae gan swyddog fuddion PCSPS a buddion **alpha** y ffigur a ddangosir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun.) Gall yr aelodau sy'n ymuno o 1 Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn (**partnership**).

Mae cyfraniadau gweithwyr cyflogedig yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% a 8.05% i aelodau **classic premium, classic plus, nuvos** ac **alpha**. Mae buddion yn **classic** yn cronni ar y gyfradd o 1/80eg o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ychwanegol, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i bensiwn cychwynnol tair blynedd yn daladwy adeg ymddeol. Mae buddion yn **premium**, yn cronni ar y gyfradd o 1/60eg o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **classic**, nid oes cyfandaliad awtomatig; hybrid yw, **classic plus** i bob pwrpas gyda buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo yn fras fel ar gyfer **classic** a buddion ar gyfer gwasanaeth o Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yn achos **premium**. Yn **novos** mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae'r cyfrif pensiwn sydd wedi'i ennill gan yr aelod yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn y cynllun hwnnw ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio yn unol â'r ddeddfwriaeth ar y cynnydd mewn pensiynau. Mae buddion yn aplha'n cronni mewn ffordd debyg i nuvos, ac eithrio mai 2.3% yw'r gyfradd groniadol. Ym mhob achos gall yr aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

## Pensiynau (Parhad)

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw’r cyfrif pensiwn **partnership** Mae’r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol rhwng 8% ac 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod), i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y gweithiwr o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i’r gweithiwr gyfrannu ond, os bydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae’r cyflogwr hefyd yn cyfrannu 0.5% ychwanegol o’r cyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch.

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw’r pensiwn y bydd hawl gan yr aelod i’w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn union ar ôl iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o’r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu os yw’n hŷn na hynny. 60 yw’r oedran pensiwn ar gyfer aelodau’r cynlluniau **classic, premium** a **classic plus**, a 65 yw’r oedran ar gyfer aelodau’r cynllun **nuvos**, a naill ai 65 neu eu Hoedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau **alpha**, p’un bynnag sydd uchaf. (Mae’r ffigurau pensiwn a ddangosir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a gronnwyd yn rhan o PCSPS neu’r cynllun **alpha** fel y bo’n briodol. Os oes gan swyddog fuddion yn PCSPS ac alpha, y ffigur a ddangosir yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun. Dylid nodi, fodd bynnag, y gall rhan o’r pensiwn hwnnw fod yn daladwy ar oedrannau gwahanol.

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan: www.civilservicepensionscheme.org.uk.

Mae gweithwyr Llywodraeth Cymru yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, ac eithrio nifer bach o staff sydd wedi dewis parhau i fod yn aelodau o gynlluniau eraill y sector cyhoeddus.

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun buddion diffiniedig nas ariennir sy’n cynnwys nifer o gyflogwyr ac felly ni all Llywodraeth Cymru nodi ei chyfran o’r asedau a’r rhwymedigaethau sylfaenol. Prisiwyd y cynllun gan Actiwari’r Cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2012. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa’r Cabinet.

Ar gyfer 2018-19, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £40,674,217 yn daladwy i’r PCSPS/Alpha (2017-18: £39,996,547) yn ôl un o bedair cyfradd yn yr ystod 20.0 i 24.5 y cant (2017-18: 20.0 i 24.5) o enillion pensiynadwy yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actiwari’r Cynllun yn adolygu cyfraniadau’r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn proses brisio lawn. Pennir cyfraddau’r cyfraniadau i dalu cost y buddion a gronnwyd yn ystod 2018-19 i gael eu talu pan fo’r aelod yn ymddeol ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partnership, sef pensiwn cyfranddeiliaid lle mae’r cyflogwr hefyd yn cyfrannu. Cafodd cyfraniadau cyflogwr o £194,560 (2017-18: £190,298 eu talu i un aelod neu ragor o banel o dri darparwr pensiwn cyfranddeiliaid a benodwyd. Mae cyfraniadau cyflogwyr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 8 o 14.75 y cant o enillion pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn rhoi cyfraniad cyfatebol i weithwyr hyd at 3 y cant o enillion. Yn ogystal â hyn, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £6,691, 0.5 y cant o dâl pensiynadwy, yn daladwy i’r PCSPS i dalu am y gost o ddarparu buddion cyfandaliadol yn y dyfodol os bydd gweithiwr yn marw yn y swydd neu’n ymddeol oherwydd salwch.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau yn ddyledus i’r darparwyr pensiwn partnership ar ddyddiad y fantolen (2017-18: dim: Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi’u rhagdalu ar y dyddiad hwnnw (2017-18: £dim).

## Pensiynau (Parhad)

Ymddeolodd dau unigolyn yn gynnar oherwydd salwch; cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol a gronnwyd yn y flwyddyn oedd £3,088.44.

Dewisodd nifer bach o gyflogeion yr hen Awdurdod Datblygu gadw eu telerau ac amodau presennol a'u trefniadau pensiwn. Maent yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gynllun a ariennir gan sawl cyflogwr yn darparu pensiwn a buddion cysylltiedig, sydd bellach yn cael ei gyfrifo ar sail cyfartaledd gyrfa yn hytrach nag ar sail cyflog terfynol. Mae asedau'r cynllun yn cael eu dal ar wahân i asedau Llywodraeth Cymru a'u gweinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Rhoddir buddion ymddeol ychwanegol yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Leol (Iawndal am Ymddeol Cyn Pryd) 1982 a darperir y buddion hyn eu ar sail talu wrth fynd. Cynhwysir manylion Pensiynau Byrddau Iechyd Lleol yn eu cyfrifon.

## Adrodd ar gynlluniau iawndal y Gwasanaeth Sifil a chynlluniau eraill – pecynnau ymadael

Ni chafwyd unrhyw gynlluniau hyblyg ar gyfer ymddeoliad cynnar, ymddeoliad cynnar cymeradwy nac ymadawiad cynnar yn 2018-19 na 2017-18.

Ar gyfer 2018-19 154 (2017-18:156) mae cyflogeion wedi ymadael neu gytuno i ymadael rhwng 31 Mawrth 2018 a 31 Mawrth 2019. Y taliadau iawndal yw £5,890,654 (2017-18: £5,884,548). Ar gyfer pob achos, cyfrifir cyfnod ad-dalu, a bydd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol wedyn yn ei gymeradwyo.

Talwyd costau dileu swydd a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sef cynllun gorfodol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Pan fo'r adran wedi cytuno i ganiatáu ymddeoliadau cynnar, caiff y costau ychwanegol eu talu gan Lywodraeth Cymru, ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Caiff costau ymddeol oherwydd afiechyd eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y tabl.

| | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost 2018-19 | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost 2017-18 |
|---|---|---|---|---|
| **Band cost y pecyn ymadael** | | | | |
| <£10,000 | – | 3 | 3 | 9 |
| £10,000 – £25,000 | – | 60 | 60 | 52 |
| £25,000 – £50,000 | – | 48 | 48 | 51 |
| £50,000 – £100,000 | – | 43 | 43 | 44 |
| £100,000 – £150,000 | – | – | – | – |
| £150,000 – £200,000 | – | – | – | – |
| £200,000+ | – | – | – | – |
| **Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl math** | **–** | **154** | **154** | **156** |
| **Cyfanswm cost yr adnoddau £** | **–** | **5,890,654** | **5,890,654** | **5,884,548** |

Lansiwyd y rhaglen dreigl o ymadawiadau gwirfoddol ym Mawrth 2017, ac roedd yr Ysgrifennydd Parhaol yn glir y byddai'r sefyllfa'n parhau i gael ei hadolygu'n rheolaidd i asesu a oedd angen gostyngiad pellach yn nifer y staff parhaol er mwyn ymdopi o fewn y gyllideb. Mae fforddiadwyedd hirdymor Llywodraeth Cymru wedi dal yn bryder difrifol gyda'r pwysau ar gostau rhedeg yn dod yn arbennig o acíwt dros y ddwy flynedd ariannol nesaf. Penderfynwyd felly y byddai angen i nifer y staff parhaol y codir tâl amdanynt yn y gyllideb ostwng er mwyn cynnwys costau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20. Trafodwyd y sefyllfa hon â'r Prif Weinidog ac fe gafodd cam nesaf y rhaglen dreigl o ymddiswyddiadau gwirfoddol ei lansio cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r costau yn y tabl yn nodi cyfanswm y gost i'r sefydliad yn dilyn unrhyw ymadawiad. Er hynny, mewn rhai achosion gallai rhai unigolion, wrth ymadael, fod wedi defnyddio eu taliadau iawndal i ddarparu mynediad cynnar at bensiwn heb ei leihau, neu i brynu pensiwn wedi'i gynyddu.

## Absenoldeb oherwydd salwch (heb ei archwilio)

Mae'r mesurau a gyflwynwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi dechrau lleihau lefelau absenoldeb, gan gynnwys cynnydd nodedig yn nifer y staff sydd heb gymryd absenoldeb yn ystod y flwyddyn. Mae'n anochel bod mesurau o'r fath, a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Iechyd a Llesiant yn cymryd amser i ennill eu plwyf yn niwylliant sefydliad ac yn cymryd amser i gael effaith gadarnhaol ar lefelau absenoldeb. Rhagwelir y bydd y gostyngiad hwn yn parhau dros y blynyddoedd nesaf.

| Absenoldeb oherwydd salwch yn Llywodraeth Cymru | 2018-19 | 2017-18 | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|
| Dyddiau a gollwyd (tymor byr) | 16,545 | 17,818 | 17,354 | 18,967 |
| Dyddiau a gollwyd (tymor hir) | 23,840 | 22,627 | 22,876 | 23,977 |
| **Cyfanswm y dyddiau a gollwyd (dros gyfnod o 12 mis)** | **40,385** | **40,445** | **40,230** | **42,944** |
| Cyfanswm y blynyddoedd staff | 5,098 | 5,035 | 5,155 | 5,307 |
| Cyfanswm y staff cyflogedig yn ystod y cyfnod (fesul pen) | 5,770 | 5,682 | 5,691 | 5,964 |
| Cyfanswm y staff cyflogedig heb absenoldeb yn ystod y cyfnod (fesul pen) | 2,826 | 2,490 | 2,529 | 2,479 |
| % y staff heb absenoldeb salwch | 49% | 44% | 44% | 42% |
| Nifer cyfartalog y dyddiau a gollwyd | 7.9 | 8.0 | 7.8 | 8.1 |

## Datgeliadau Atebolrwydd

Mae'r canlynol yn ddatganiad o golledion a thaliadau arbennig fel sy'n ofynnol o dan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, gyda datgeliadau unigol lle mae'r cyfansymiau a dynnir yn uwch na'r terfynau a bennir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru o £300,000.

| Datganiad Colledion | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| Cyfanswm y colledion | 194 | 175 |
| Cyfanswm gwerth y colledion (£000) | 15,259 | 8,202 |

Manylion y colledion dros £300,000:

| | | |
|---|---|---|
| Colledion storfa | Stociau o gyffuriau sydd wedi dod i ben | £7,586,775 |
| Hawliadau y rhoddwyd y gorau iddynt | Retirement Review Ltd | £358,620 |
| Hawliadau a Ildiwyd | Cyllid Myfyrwyr Cymru a'r Brifysgol Agored | £3,267,034 |

| Taliadau Arbennig | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y Taliadau Arbennig | 10 | 7 |
| Cyfanswm gwerth y Taliadau Arbennig (£000) | 23 | 1,902 |

Dangosir colledion ar gyfer cwmnïau grŵp eraill yn fanwl yn eu cyfrifon eu hunain.

# Crynodeb o Alldro Adnoddau

| | Cyllideb 2018-19<br>Gwariant net £m | Alldro 2018-19<br>Gwariant net £m | Alldro o'i gymharu â'r Gyllideb<br>Amrywiant £m |
|---|---|---|---|
| **CWMPAS** | | | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 7,989 | 7,904 | 85 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 4,419 | 4,392 | 27 |
| Addysg | 2,549 | 2,447 | 102 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 1,301 | 1,266 | 35 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 372 | 354 | 18 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 283 | 281 | 2 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 167 | 162 | 5 |
| **Cyfanswm y gofynion Adnoddau a Chyfalaf** | **17,080** | **16,806** | **274** |
| **Incwm** | **1,243** | **962** | **281** |
| **Gwariant gros** | **18,323** | **17,768** | **555** |

Dengys y tabl uchod fformat cwmpasoedd ar gyfer 2018-19 yn dilyn newidiadau a wnaed ym mis Rhagfyr. Dangosir isod strwythur blaenorol cwmpasoedd yn y flwyddyn ariannol 2017-18.

| CWMPAS | Alldro 2017-18<br>Gwariant net<br>£m |
|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 7,731 |
| Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 4,286 |
| Addysg | 2,408 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 1,268 |
| Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig | 374 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 315 |
| **Cyfanswm y gofynion Adnoddau a Chyfalaf** | **16,382** |
| **Incwm** | **818** |
| **Gwariant gros** | **17,200** |

## Egluro amrywiannau dros £10m

### Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – tanwariant o £85m

Mae'r tanwariant yn ymwneud yn bennaf â gwarged o £83.3m ar gyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol. Mae hyn yn ymwneud â'r newid yn narpariaeth Cronfa Risg Cymru ar gyfer hawliadau Esgeuluster Meddygol a Niwed Personol yn GIG Cymru. Roedd y ddarpariaeth yr oedd ei hangen ar ddiwedd y flwyddyn yn is na'r rhagolwg oherwydd gostyngiad yn nifer yr achosion yn ystod y flwyddyn ac effaith newid i'r driniaeth gyfrifyddu ar gyfer disgowntio'n disgwyl elfennau cyfandaliadau yn y dyfodol o fewn y ddarpariaeth. Cyhoeddodd Trysorlys Ei Mawrhydi ofynion cyfraddau disgowntio diwygiedig ym mis Rhagfyr 2018.

### Tai a Llywodraeth Leol – tanwariant o £27m

Mae'r tanwariant o £27m yn ymwneud yn bennaf â Gwariant a Reolir yn Flynyddol nad yw'n Arian Parod ar gyfer ailbrisio Buddsoddiadau yng Nghynllun Cymorth i Brynu – Cymru a ddelir gan Fanc Datblygu Cymru o ganlyniad i newidiadau i safonau cyfrifyddu a roddwyd ar waith yn 2018-19.

### Addysg – tanwariant o £102m

Mae'r tanwariant yn ymwneud yn bennaf ag amrywiannau rhwng rhagolygon ac alldro ar gyfer balansau Benthyciadau i Fyfyrwyr – tanwariant o a £53.9m ar gyllidebau nad ydynt yn arian parod a thanwariant yn achos Gwariant a Reolir yn Flynyddol o £42m. Mae cyfrifon benthyciad i fyfyrwyr yn cael eu harwain gan y galw ac yn anwadal. Roedd y rhagolygon a roddwyd i Drysorlys Ei Mawrhydi'n cynnwys digon o ddarpariaeth wrth gefn i ddiogelu yn erbyn effaith bosibl IFRS 9 a fabwysiadwyd yn ystod y flwyddyn ac effaith y cynnydd yn y trothwy ad-dalu. Er mwyn hwyluso ailddyrannu cyllideb â MEG yr Economi a Thrafnidiaeth yn sgil ad-drefnu'r Cabinet, cofnodwyd tanwariant o 35.3m ar gyllidebau cyfalaf.

### Yr Economi a Thrafnidiaeth – tanwariant o £35m

Mae'r tanwariant yn cynnwys; cyfalaf o £5m ar gyfer llithriant ar raglenni cymorth i fusnesau a phrosiectau seilwaith; tanwariant yn erbyn Gwariant a Reolir yn Flynyddol nad yw'n arian parod o tua £16m mewn perthynas â lefelau amhariadau is na'r disgwyl ar ddaliadau a buddsoddiadau eiddo, a gofyniad llai ar gyfer darpariaethau yn erbyn rhwymedigaethau pensiynau cyrff a noddir yn y dyfodol; ac addasiadau i gwmpasoedd sy'n ofynnol mewn perthynas â thaliadau cyfalaf ar gyd-fenter nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn y gyllideb wreiddiol sy'n dod i gyfanswm o ryw £14m.

### Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu – tanwariant o £18m

Elfen fwyaf y tanwariant – £9.2m – yw (£1m) Buddsoddi i Arbed oherwydd llai o gyfleoedd buddsoddi yn 2018-19; (£3.9m) Cynllun Ymadael Gwirfoddol oherwydd ceisiadau is na'r disgwyl; a (£4.3m) cyllideb gymorth ganolog Brexit yn deillio o oedi wrth recriwtio i swyddi Brexit. Mae cyfran bellach o'r tanwariant yn ymwneud â darpariaeth (£5.7m) ar gyfer rhwymedigaeth pensiwn sy'n anodd ei ddarogan (ac sydd felly'n cael ei drin fel Gwariant a Reolir yn Flynyddol). Mae'r tanwariant sy'n weddill (£5.719m) yn ymwneud â chyllideb gyfalaf Sipsiwn a Theithwyr, nad oedd modd ei defnyddio yn 2018-19 oherwydd amseru.

## Nodiadau

| Gofyniad arian parod net | Alldro 2018-19 £m | Alldro 2017-18 £m |
|---|---|---|
| Awdurdodwyd i'w gyhoeddi o Gronfa Gyfunol Cymru | 16,314 | 15,657 |
| Cyllid a dynnir i lawr | (16,108) | (15,330) |
| Cyllid heb ei dynnu i lawr | 206 | 327 |

| Cysoni alldro a CSoCNE | Alldro 2018-19 £m | Alldro 2017-18 £m |
|---|---|---|
| **Alldro Adnoddau Net** | 16,806 | 16,382 |
| Llai: Addasiadau i gyfalaf a benthyciadau | (1,618) | (1,103) |
| Llai: Addasiad Cyfuno | - | (154) |
| Plws: Addasiad NDR | 48 | - |
| Plws: Addasiadau eraill | 6 | - |
| Gwariant fesul CSoCNE | 15,242 | 15,125 |

| Cysoni adnoddau i'r gofyniad arian parod | Cyllideb 2018-19 £m | Alldro 2018-19 £m | Alldro o'i gymharu â'r Gyllideb £m | Alldro 2017-18 £m |
|---|---|---|---|---|
| **Alldro Adnoddau Net** | **17,080** | **16,806** | **274** | **16,382** |
| Dibrisiant | (361) | (346) | (15) | (318) |
| Amhariadau | (337) | (238) | (99) | (360) |
| Symudiadau mewn darpariaethau | (129) | (131) | 2 | (216) |
| Arall | 61 | 17 | 44 | (66) |
| **Gofyniad arian parod net** | **16,314** | **16,108** | **206** | **15,422** |

**Shan Morgan**
**Yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu**

# Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

## Adroddiad yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

### Barn

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Llywodraeth Cymru a'r grŵp am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Cyfunol o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad Cyfunol o'r sefyllfa ariannol, y Datganiad Cyfunol o Lifau Arian Parod, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ac anodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r Datganiad o Alldro'r Adnoddau, y Datgeliadau Atebolrwydd a'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth a archwiliwyd. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yn gyfraith berthnasol ac yn llawlyfr adroddiadau ariannol Trysorlys ei Mawrhydi sy'n seiliedig ar y safonau adrodd ariannol rhyngwladol (IFRSs) fel y'i mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- rhoi darlun cywir a theg o gyflwr Llywodraeth Cymru a materion y grŵp ar 31 Mawrth 2019 ac o'i ofyniad arian parod net, ei alldro adnoddau net a'i gost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth cymru 2006.

### Sail ar gyfer barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)). Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio adran datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol o'r corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

### Casgliadau sy'n ymwneud â phryder gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi mewn perthynas â'r materion canlynol y mae'r ISAs (DU) yn gofyn i mi adrodd i chi yn eu herbyn pan:

- nid yw'n briodol defnyddio sail atebolrwydd gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol; neu
- nid yw'r Prif Swyddog Cyfrifo wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd materol a nodwyd a allai daflu amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r corff i barhau i fabwysiadu sail busnes gweithredol o gyfrifyddu am gyfnod o o leiaf ddeuddeg mis o'r dyddiad yr awdurdodir y datganiadau ariannol i gael eu cyhoeddi.

### Gwybodaeth arall

Nid yw cyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi cynnwys a ffurf yr wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol. Y Prif Swyddog cyfrifo sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall cyflwynwyd gyda'rdatganiadau ariannol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Adroddiad Atebolrwydd, ar wahân i'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel rhai a archwiliwyd. Nid yw fy marn i ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn glir fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw gasgliad o sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall i ganfod anghysonderau o bwys â'r datganiadau ariannol archwiliedig ac i nodi unrhyw wybodaeth sydd, i bob golwg, yn faterol anghywir yn seiliedig ar yr wybodaeth a gaffaelwyd gennyf wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n anghyson iawn â hi. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau materol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

### Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ymhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Adroddiad ar ofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Gan nad yw'r ddeddfwriaeth a'r cyfarwyddiadau a roddir i Lywodraeth Cymru yn nodi cynnwys a ffurf yr wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol, ni allaf gadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Adroddiad Atebolrwydd wedi'u paratoi yn unol â'r cyfarwyddiadau hynny.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Adroddiad Atebolrwydd, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn gyson â'r datganiadau ariannol.

### Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol yr adroddaf i chi, os, yn fy marn i:

- na chadwyd cofnodion cyfrifo digonol;
- nid yw'r datganiadau ariannol, y Datganiad o Alldro Adnoddau, y Datgeliadau Atebolrwydd na'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio yn cyd-fod â'r cofnodion a'r dychweliadau cyfrifon;
- ni ddatgelwyd gwybodaeth a ddynodwyd gan Drysorlys EM o ran cydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu
- Nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

### Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

## Cyfrifoldebau

### Chyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifo ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo, mae'r Prif Swyddog cyfrifo yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wneir o dan y Ddeddf honno, am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg ac am reolaeth fewnol o'r fath fel y penderfyna'r Prif Swyddog Cyfrifo ei bod yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad materol, boed oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Prif Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â phryder gweithredol a defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni fernir eu bod yn amhriodol.

### Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad materol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, ac i gyhoeddi adroddiad archwiliwr sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall a chânt eu hystyried yn faterol os, yn unigol neu yn y cyfanrif, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer Archwilio'r datganiadau ariannol wedi'i leoli ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'm adroddiad archwilio.

### Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Y Prif Swyddog Cyfrifo sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
27 Awst 2019

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

# Rhan 3
## Datganiadau Ariannol

Mae'r Datganiadau Ariannol hyn yn cynnwys Trafnidiaeth Cymru ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru o 1 Ebrill 2018, fel cyrff sydd newydd eu cyfuno.

## Datganiad Cyfunol o Wariant Net Cynhwysfawr
## Ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2019

| | Nodyn | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2019 | | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2018 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau | 2 | (43) | (57) | (34) | (37) |
| Incwm gweithredu arall | 2 | (650) | (1,005) | (631) | (950) |
| **Cyfanswm incwm gweithredu** | | **(693)** | **(1,062)** | **(665)** | **(987)** |
| Costau staff | 3 | 289 | 4,122 | 284 | 3,586 |
| Gwariant | 3 | 15,679 | 11,985 | 15,174 | 12,014 |
| Cost darpariaeth | 3 | 159 | 197 | 332 | 435 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | | **16,127** | **16,304** | **15,790** | **16,035** |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **15,434** | **15,242** | **15,125** | **15,048** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall:**<br>Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i gostau gweithredu net: | | | | | |
| (Elw)/colled net ar ailbrisio eiddo, offer, cyfarpar a buddsoddiadau | | (613) | (626) | (480) | (611) |
| (Elw)/colled actiwaraidd ar rwymedigaethau cynlluniau pensiwn | | 13 | 16 | 9 | 3 |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **14,834** | **14,632** | **14,654** | **14,440** |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 88 i 126 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad wedi'i Gyfuno o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2019

| | Nodyn | Ar 31 Mawrth 2019 | | Ar 31 Mawrth 2018 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m Wedi'i ailddosbarthu | Grŵp LlC £m Wedi'i ailddosbarthu |
| **Asedau anghyfredol:** | | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 17,715 | 21,242 | 17,021 | 20,142 |
| Asedau anniriaethol | 5 | 29 | 63 | 41 | 51 |
| Asedau ariannol[1] | 6 | 4,530 | 3,817 | 3,968 | 3,591 |
| Symiau masnachol a symiau derbyniadwy eraill[1] | 8 | 27 | 117 | 30 | 146 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **22,301** | **25,239** | **21,060** | **23,930** |
| **Asedau cyfredol:** | | | | | |
| Asedau sydd wedi'u dosbarthu fel 'mewn llaw i'w gwerthu' | | – | 3 | – | 1 |
| Asedau ariannol | 6 | 173 | 173 | 130 | 130 |
| Stocrestri | 7 | 187 | 261 | 185 | 245 |
| Symiau masnachol a symiau derbyniadwy eraill | 8 | 256 | 409 | 184 | 316 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 9 | 107 | 698 | 127 | 444 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **723** | **1,544** | **626** | **1,136** |
| **Cyfanswm asedau** | | **23,024** | **26,783** | **21,686** | **25,066** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | | | |
| Symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 10 | (980) | (1,787) | (935) | (1,744) |
| Darpariaethau | 11 | (295) | (347) | (287) | (287) |
| Rhwymedigaethau eraill | 13 | – | (1) | – | – |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | **(1,275)** | **(2,135)** | **(1,222)** | **(2,031)** |
| **Cyfanswm presennol asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **21,749** | **24,648** | **20,464** | **23,035** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol:** | | | | | |
| Symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 10 | (96) | (154) | (106) | (167) |
| Darpariaethau | 11 | (885) | (931) | (848) | (859) |
| Rhwymedigaethau eraill | 13 | (65) | (101) | (77) | (109) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(1,046)** | **(1,186)** | **(1,031)** | **(1,135)** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau** | | **20,703** | **23,462** | **19,433** | **21,900** |
| **Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd wrth gefn eraill** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | | 11,518 | 13,741 | 10,802 | 12,767 |
| Cronfa ailbrisiadau | | 9,185 | 9,721 | 8,631 | 9,133 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **20,703** | **23,462** | **19,433** | **21,900** |

[1] Mae £251m o'r Symiau Derbyniadwy Anghyfredol trwy Fasnach yng nghyfrifon blynyddol DBW ar gyfer 2017-18 wedi'u hailddosbarthu fel Asedau Ariannol Anghyfredol.

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 88 i 126 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Shan Morgan**
Yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu
20 Awst 2019

# Datganiad wedi'i Gyfuno o Lifoedd Arian Parod
## Ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2019

| | Nodyn | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2019 | | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2018 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC wedi'i Ailddosbarthu £m |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu:** | | | | | |
| Cost gweithredu net | | (15,434) | (15,242) | (15,125) | (15,048) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd | 11 | (117) | (151) | (111) | (221) |
| Trafodiadau nad ydynt yn arian parod | | 464 | 854 | 847 | 1,115 |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio heblaw arian parod[2] | 14 | 51 | 14 | 57 | 286 |
| Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | 11 | 11 | – | – |
| Eraill | | 6 | – | – | – |
| **All-lif arian net o weithgareddau gweithredu** | | **(15,019)** | **(14,514)** | **(14,332)** | **(13,868)** |
| **Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi:** | | | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | | (274) | (676) | (304) | (583) |
| Prynu asedau anniriaethol | | – | (10) | (6) | (10) |
| Enillion yn sgil gwaredu eiddo, offer a chyfarpar | | 3 | 5 | 1 | 14 |
| Enillion yn sgil gwaredu asedau datblygu | | 6 | 6 | 41 | 41 |
| Prynu asedau datblygu | | (20) | (20) | (35) | (35) |
| Rhoi benthyciadau a buddsoddiadau[2] | | (934) | (797) | (816) | (848) |
| Ad-dalu benthyciadau | | 131 | 132 | 115 | 112 |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(1,088)** | **(1,360)** | **(1,004)** | **(1,309)** |
| **Llif arian parod o weithgareddau ariannu:** | | | | | |
| O Gronfa Gyfunol Cymru | | 16,108 | 16,108 | 15,330 | 15,330 |
| Diddordeb Lleiafrifol | | – | 3 | – | – |
| Elfen gyfalaf PFI a Lesoedd Cyllid | | (10) | (10) | (8) | (8) |
| **Cyllido net** | | **16,098** | **16,101** | **15,322** | **15,322** |
| **Cynnydd / (gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod cyn addasiadau ar gyfer derbyniadau a thaliadau i Gronfa Gyfunol Cymru** | | **(9)** | **227** | **(14)** | **145** |
| Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | (11) | (11) | – | – |
| Balansau arian parod Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno[1] | | – | 38 | – | – |
| **Cynnydd / (gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod ar ôl addasiadau ar gyfer derbyniadau a thaliadau i Gronfa Gyfunol Cymru** | 9 | **(20)** | **254** | **(14)** | **145** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | 9 | **127** | **444** | **141** | **299** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | 9 | **107** | **698** | **127** | **444** |

[1] Mae balansau arian parod cyrff sydd newydd gael eu cyfuno'n adlewyrchu'r balansau a gynhwysir ar 1 Ebrill 2018 ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru a Thrafnidiaeth Cymru.

[2] Mae £251m o'r Symiau Derbyniadwy Anghyfredol trwy Fasnach yng nghyfrifon blynyddol DBW ar gyfer 2017-18 wedi'u hailddosbarthu fel Asedau Ariannol Anghyfredol.

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 88 i 126 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr

## Grŵp Llywodraeth Cymru

| | Cronfa Gyffredinol £m | Cronfa Ailbrisiadau £m | Cyfanswm Cronfeydd £m |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | **12,489** | **8,544** | **21,033** |
| Cronfa Gyfunol Cymru – ariannu net | 15,330 | – | 15,330 |
| Cost gweithredu net am y flwyddyn | (15,048) | – | (15,048) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | 11 | 596 | 607 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | 15 | (15) | – |
| Addasiadau eraill | (30) | 8 | (22) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | **12,767** | **9,133** | **21,900** |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno[1] | 15 | 37 | 52 |
| Cronfa Gyfunol Cymru – ariannu net | 16,108 | – | 16,108 |
| Cost gweithredu net am y flwyddyn | (15,242) | – | (15,242) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | – | 626 | 626 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | 66 | (66) | – |
| Addasiadau eraill | 27 | (9) | 18 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | **13,741** | **9,721** | **23,462** |

## Craidd Llywodraeth Cymru

| | Cronfa Gyffredinol £m | Cronfa Ailbrisiadau £m | Cyfanswm Cronfeydd £m |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | **10,614** | **8,156** | **18,770** |
| Cronfa Gyfunol Cymru – ariannu net | 15,330 | – | 15,330 |
| Cost gweithredu net am y flwyddyn | (15,125) | – | (15,125) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | – | 480 | 480 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | 13 | (13) | – |
| Addasiadau eraill | (30) | 8 | (22) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | **10,802** | **8,631** | **19,433** |
| Cronfa Gyfunol Cymru – ariannu net | 16,108 | – | 16,108 |
| Cost gweithredu net am y flwyddyn | (15,434) | – | (15,434) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | – | 613 | 613 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | 51 | (51) | – |
| Addasiadau eraill | (9) | (8) | (17) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | **11,518** | **9,185** | **20,703** |

[1] Mae cyrff sydd newydd gael eu cyfuno'n adlewyrchu'r balansau a gynhwysir ar 1 Ebrill 2018 ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru a Thrafnidiaeth Cymru.

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 88 i 126 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol wedi'u paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM). Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y maent wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae'r polisi cyfrifyddu y bernir ei fod fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Llywodraeth Cymru at ddibenion rhoi golwg gywir a theg wedi'i ddewis. Disgrifir y polisïau penodol sydd wedi cael eu mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru (ar gyfer y gweithgarwch adroddadwy) yn Atodiad A neu fel troednodiadau i'r nodyn perthnasol. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau y bernir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratoir o dan IFRS, mae FReM hefyd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru baratoi prif ddatganiadau ychwanegol. Cynhwysir y Crynodeb o Alldro Adnoddau sy'n dangos alldro gwirioneddol yn erbyn y gyllideb a nodiadau ategol sy'n cysoni alldro i gost gweithredu net, ac adnoddau i'r gofyniad am arian parod yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

### 1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi o dan y confensiwn costau hanesyddol, gan eu haddasu i roi cyfrif am ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi a rhai asedau ariannol a rhwymedigaethau penodol.

### 1.2 Sail Cyfuno

Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu'r asedau a'r rhwymedigaethau cyfunol a chanlyniadau endidau o fewn ffin gyfrifyddu gyfuno Llywodraeth Cymru. Mae'r ffin gyfrifyddu gyfuno'n cynnwys ymgymeriadau is-gorff fel sy'n ofynnol o dan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) y llywodraeth lle y'u dynodir i'w cyfuno trwy offeryn statudol, a lle maent yn uwch na throthwy de minimis i fod yn berthnasol. Mae'r ffin gyfrifyddu gyfuno hefyd yn cynnwys ymgymeriadau is-gwmni yn uwch na throthwy de minimis a oedd wedi cael eu cyfuno ar sail Safonau Cyfrifyddu Grŵp IFRS cyn i Orchmynion Dynodi gael eu cyflwyno yng Nghymru (yn effeithiol o 2017-18), ac nad yw'r broses ddynodi wedi dod i ben eto ar eu cyfer. Diben hyn yw cadw cysondeb yn achos cyflwyniad cyfuno'r Grŵp tra bo prosiect alinio Llywodraeth Cymru'n mynd rhagddo.

Ers i Orchmynion Dynodi gael eu cyflwyno, ychwanegir endidau at y ffin gyfrifyddu gyfuno yn unig os ydynt wedi'u dynodi ac yn berthnasol.

Mae is-gwmnïau yn cael eu cyfuno o gyfrifon drafft, pan nad yw'r cyfrifon terfynol ar gael. Hepgorir trafodiadadau rhwng endidau a gynhwysir yn y cyfuniad.

Darperir gwybodaeth bellach am yr endidau o fewn y ffin gyfuno yn yr Adroddiad Blynyddol sy'n cyd-fynd â'r cyfrifon hyn – gweler tudalen 2.

### 1.3 Mabwysiadu Safonau Cyfrifyddu newydd

Mae'r grŵp wedi cymhwyso'r safonau cyfrifyddu canlynol am y tro cyntaf ar gyfer y cyfnod adrodd yn dechrau 1 Ebrill 2018:

***IFRS 9 Financial Instruments***

Disodlodd IFRS 9 ddarpariaethau IAS 39 sy'n ymwneud ag adnabod, categoreiddio a mesur asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol, dadgydnabod offerynnau ariannol, amharu ar asedau ariannol a chyfrifyddu mantoli. Cafodd y safon newydd ei chymhwyso yn yr FReM ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19.

Er i fabwysiadu IFRS 9 arwain at newidiadau arwain at newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu ac addasiadau i gyflwyniad symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol, yn unol â'r FReM nid yw datganiadau cymharol wedi'u hailddatgan.

***IFRS 15 Revenue from contracts with customers***

Mae IFRS 15 yn cyflwyno model pum cam newydd ar gyfer cydnabod refeniw o gontractau â chwsmeriaid, gan ddisodli cyn safonau IAS 11 *Construction Contracts*, IAS 18 *Revenue* a dehongliadau IFRIC a SIC cysylltiedig.

Er i fabwysiadu IFRS 15 arwain at newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu ac addasiadau i gyflwyniad symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol, yn unol â'r FReM nid yw datganiadau cymharol wedi'u hailddatgan.

## 2. Incwm Gweithredu

| | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2019 | | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2018 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau:** | | | | |
| Incwm o eiddo a buddsoddiadau | 35 | 35 | 31 | 32 |
| Arall | 8 | 22 | 3 | 5 |
| | **43** | **57** | **34** | **37** |
| **Incwm gweithredu arall nad yw'n incwm yr UE:** | | | | |
| Llog benthyciadau i fyfyrwyr sydd i'w dderbyn[1] | – | – | 89 | 89 |
| Incwm iechyd | 47 | 392 | 36 | 446 |
| Arall | 16 | 26 | 13 | (85) |
| | **63** | **418** | **138** | **450** |
| **Incwm gweithredu arall yr UE:** | | | | |
| Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd | 258 | 258 | 174 | 181 |
| Polisi Amaethyddol Cyffredin | 322 | 322 | 315 | 315 |
| Incwm arall yr UE | 7 | 7 | 4 | 4 |
| | **587** | **587** | **493** | **500** |
| | **693** | **1,062** | **665** | **987** |

[1] Mabwysiadwyd FRS9 1 Ebrill 2018. Yn unol â'r FReM, nid oes angen datgan symiau cymharol blynyddoedd blaenorol. Mae benthyciadau i fyfyrwyr bellach yn cael eu mesur fel Gwerth Teg trwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, sy'n gofyn am gyflwyniad datgelu diwygiedig. Gweler Nodyn 3.

# 3. Gwariant

| | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2019 | | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2018 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Gwariant** | | | | |
| Grantiau[1] | 14,946 | 7,572 | 14,333 | 7,621 |
| Nwyddau a gwasanaethau[1] | 332 | 3,787 | 298 | 3,652 |
| Rhentu o dan lesoedd gweithredu | 17 | 17 | 9 | 35 |
| Costau staff | 289 | 4,122 | 284 | 3,586 |
| PFI a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill | 14 | 14 | 19 | 27 |
| Gwerth teg llyfr benthyciadau i fyfyrwyr | – | – | 302 | 302 |
| Gwerth teg net (enillion)/colledion ar Asedau ariannol yn ôl gwerth teg trwy SOCNE[2] | 178 | 178 | – | – |
| Dibrisiant Asedau Sefydlog | 155 | 334 | 161 | 306 |
| Amorteiddio | 10 | 22 | 4 | 8 |
| Asedau sydd wedi'u rhoi gan y Llywodraeth | – | (7) | – | (9) |
| Amhariadau | 18 | 60 | 58 | 85 |
| (Elw)/Colled ar warediadau | 10 | 9 | (7) | (15) |
| Cyllid Pensiwn | (3) | (3) | (2) | 3 |
| Rhyddhau grant yr UE | – | – | (1) | (1) |
| Darpariaeth Dyledion Drwg | 2 | 2 | – | – |
| | **15,968** | **16,107** | **15,458** | **15,600** |
| **Darpariaethau** | | | | |
| Cynnydd mewn darpariaethau | 159 | 197 | 332 | 435 |
| | **16,127** | **16,304** | **15,790** | **16,035** |

[1] Mae gwariant ar Grantiau a Nwyddau a Gwasanaethau yn adlewyrchu dyraniad Alldro Adnoddau Cwmpasoedd.

[2] Mabwysiadwyd IFRS 9 1 Ebrill 2018. Yn unol â'r FReM nid oes angen datgan symiau cymharol blynyddoedd blaenorol. Mae benthyciadau i fyfyrwyr bellach yn cael eu mesur fel Gwerth Teg trwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, sy'n gofyn am gyflwyniad datgelu diwygiedig. Mae Asedau ariannol Cymorth i Brynu – Cymru bellach yn cael eu mesur fel Gwerth Teg trwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y Cyfrif Craidd, sy'n gofyn am gyflwyniad datgelu diwygiedig.

## Costau staff

Mae dadansoddiad llawn o gostau staff, gan gynnwys niferoedd staff a gwybodaeth gysylltiedig, wedi'i ddarparu yn Adroddiad Atebolrwydd y ddogfen hon.

## Ffioedd Archwilio

Y swm sy'n daladwy i'r Archwilydd Cyffredinol am osod barn am ddatganiadau ariannol cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 yw £368,703 (£368,703 2017-18) ac mae wedi'i gynnwys yn y Nwyddau a Gwasanaethau a ddatgelir uchod. Cynhwysir uchod hefyd ffioedd a godir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â chyfrifon eraill a baratoir gan Weinidogion Cymru fel a ganlyn:

| | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2019 £ | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2018 £ |
|---|---|---|
| Cyfrif Cryno'r GIG | 28,274 | 29,770 |
| Cyfrif Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | 8,359 | 9,774 |
| Cyfrif y Llywodraeth Gyfan | 9,500 | 32,689 |
| Cronfa Gyfunol Cymru | 16,475 | 16,475 |

Datgelir ffioedd archwilio cyrff cyfunol o fewn eu cyfrifon unigol.

Yn 2017-18 roedd costau sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru o £6,467,782 wedi eu cynnwys yng ngwariant Llywodraeth Cymru.

# 4. Eiddo, Offer a Chyfarpar

| | Asedau Rhwydwaith £m | Tir £m | Adeiladau gan gynnwys anheddau £m | Technoleg Gwybodaeth, Gosodiadau a Ffitiadau £m | Taliadau ar gyfrif ac asedau sy'n cael eu hadeiladu £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 18,224 | 413 | 2,658 | 809 | 618 | 22,722 |
| Ychwanegiadau | 120 | 19 | 32 | 81 | 332 | 584 |
| Gwarediadau | (120) | (1) | (3) | (36) | – | (160) |
| Trosglwyddiadau | (47) | – | – | – | – | (47) |
| Amhariadau | – | (11) | (80) | (5) | (7) | (103) |
| Ailbrisiadau | 555 | (29) | (167) | – | – | 359 |
| Ailddosbarthwyd i 'mewn llaw i'w gwerthu' | – | – | – | – | – | – |
| Ailddosbarthu | – | – | 92 | 10 | (127) | (25) |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **18,732** | **391** | **2,532** | **859** | **816** | **23,330** |
| **Dibrisiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 (wedi'i ailddatgan) | 2,370 | – | 422 | 541 | 2 | 3,335 |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 151 | – | 82 | 72 | – | 305 |
| Gwarediadau | (120) | – | (2) | (36) | – | (158) |
| Trosglwyddiadau | (2) | – | – | – | – | (2) |
| Amhariadau | – | – | (50) | – | – | (50) |
| Ailbrisiadau | 75 | – | (317) | – | – | (242) |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **2,474** | – | **135** | **577** | **2** | **3,188** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2018** | **16,258** | **391** | **2,397** | **282** | **814** | **20,142** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2017 (wedi'i ailddatgan) | 15,854 | 413 | 2,236 | 268 | 616 | 19,387 |
| **Cyllido asedau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2018** | | | | | | |
| Mewn perchnogaeth | 15,852 | 381 | 2,282 | 281 | 814 | 19,610 |
| Wedi'u prydlesu o ran cyllid | – | – | 12 | 1 | – | 13 |
| Contractau PFI ar y fantolen | 406 | 10 | 103 | – | – | 519 |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **16,258** | **391** | **2,397** | **282** | **814** | **20,142** |

# 4. Eiddo, offer a chyfarpar (parhad)

| | Asedau Rhwydwaith £m | Tir £m | Adeiladau gan gynnwys anheddau £m | Technoleg Gwybodaeth, Gosodiadau a Ffitiadau £m | Taliadau ar gyfrif ac asedau sy'n cael eu hadeiladu £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2018 | 18,732 | 391 | 2,532 | 859 | 816 | 23,330 |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno[1] | – | 27 | 76 | 211 | 27 | 341 |
| Ychwanegiadau | 66 | 1 | 42 | 110 | 472 | 691 |
| Gwarediadau | (66) | (1) | (3) | (58) | – | (128) |
| Trosglwyddiadau | – | – | – | – | 1 | 1 |
| Amhariadau | – | 1 | (46) | (8) | (3) | (56) |
| Ailbrisiadau | 713 | 6 | 8 | – | – | 727 |
| Ailddosbarthwyd i 'mewn llaw i'w gwerthu' | – | (1) | (1) | – | – | (2) |
| Ailddosbarthu | 2 | 3 | 120 | 16 | (166) | (25) |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **19,447** | **427** | **2,728** | **1,130** | **1,147** | **24,879** |
| **Dibrisiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2018 | 2,474 | – | 135 | 577 | 2 | 3,188 |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno[1] | – | – | 7 | 129 | – | 136 |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 147 | – | 94 | 96 | – | 337 |
| Gwarediadau | (66) | – | (1) | (58) | – | (125) |
| Trosglwyddiadau | – | – | – | – | – | – |
| Amhariadau | – | – | (3) | – | – | (3) |
| Ailbrisiadau | 105 | – | (1) | – | – | 104 |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **2,660** | – | **231** | **744** | **2** | **3,637** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2019** | **16,787** | **427** | **2,497** | **386** | **1,145** | **21,242** |
| **Cyllido asedau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2019** | | | | | | |
| Mewn perchnogaeth | 16,325 | 424 | 2,318 | 384 | 1,145 | 20,596 |
| Wedi'u prydlesu o ran cyllid | – | – | 2 | 2 | – | 4 |
| Contractau PFI ar y fantolen | 462 | 3 | 177 | – | – | 642 |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **16,787** | **427** | **2,497** | **386** | **1,145** | **21,242** |
| **Adran graidd ar 31 Mawrth 2019** | **16,787** | **46** | **121** | **48** | **713** | **17,715** |
| **BILlau ac is-gyrff ar 31 Mawrth 2019** | – | **381** | **2,376** | **338** | **432** | **3,527** |
| Adran graidd ar 31 Mawrth 2018 | 16,258 | 46 | 121 | 30 | 566 | 17,021 |
| BILlau ac is-gyrff ar 31 Mawrth 2018 | – | 345 | 2,276 | 252 | 248 | 3,121 |

[1] Mae cyrff sydd newydd gael eu cyfuno'n adlewyrchu'r balansau a gynhwysir ar 1 Ebrill 2018 ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru a Thrafnidiaeth Cymru.

## 4. Eiddo, offer a chyfarpar (parhad)

### Tir ac adeiladau, gan gynnwys anheddau

Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol a thir ac adeiladau lesddaliadol, lle'r oedd y les wreiddiol am fwy na chan mlynedd, yn cael eu dal ar werth y farchnad agored at eu defnydd presennol, gan ddefnyddio prisiadau proffesiynol naill ai bob pum mlynedd, neu yn flynyddol. Cafodd y rhan fwyaf o dir ac adeiladau rhydd-ddaliadol Llywodraeth Cymru eu prisio ar 31 Mawrth 2015 gan GVA Grimley, Syrfewyr Siartredig, ar sail gwerth agored y farchnad gyda'r Llawlyfr Gwerthuso a Phrisio a gynhyrchir ar y cyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, Cymdeithas Gorfforedig Gwerthoedd ac Arwerthwyr a'r Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw. Mae eiddo arbenigol yn cael eu prisio ar sail cost adnewyddu wedi'i dibrisio, yn unol â'r Llawlyfr Gwerthuso a Phrisio. Yn y blynyddoedd ariannol rhwng y prisiadau pum mlynedd ffurfiol, mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol yn cael eu prisio gan ddefnyddio'r mynegeion diweddaraf sydd ar gael ym Mawrth bob blwyddyn ariannol i ddarparu amcangyfrif rhesymol o werth.

Mae ffigurau Grŵp Llywodraeth Cymru'n cynnwys Tir ac Adeiladau'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG a gafodd eu hailbrisio gan y Gwasanaeth Prisio Ardal gyda dyddiad dod i rym o 1 Ebrill 2017. Mae'r prisiad wedi'i baratoi yn unol â thelerau Safonau Prisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, 6ed argraffiad. Mae Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn cymhwyso'r model ailbrisio a nodir yn IAS 16 fel y mae wedi'i addasu gan FReM. Mae tir ac adeiladau nad ydynt yn arbenigol yn cael eu dal ar werth y farchnad at eu defnydd presennol; mae adeiladau arbenigol yn cael eu dal ar gost adnewyddu wedi'i dibrisio.

# 5. Asedau Anniriaethol

| | Technoleg Gwybodaeth | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ar 31 Mawrth 2019 | | Ar 31 Mawrth 2018 | |
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Cost neu brisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill | 59 | 90 | 28 | 55 |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno[1] | – | 65 | – | – |
| Ychwanegiadau | – | 10 | 6 | 10 |
| Gwarediadau | (2) | (4) | – | (1) |
| Ailddosbarthiadau | – | 4 | 25 | 26 |
| **Ar 31 Mawrth** | **57** | **165** | **59** | **90** |
| **Amorteiddio** | | | | |
| Ar 1 Ebrill | 18 | 39 | 14 | 31 |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno[1] | – | 42 | – | – |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 10 | 23 | 4 | 8 |
| Gwarediadau | – | (2) | – | – |
| **Ar 31 Mawrth** | **28** | **102** | **18** | **39** |
| **Gwerth Net ar y Llyfrau ar 31 Mawrth** | **29** | **63** | **41** | **51** |
| Gwerth Net ar y Llyfrau ar 1 Ebrill | 41 | 51 | 14 | 24 |

[1] Mae cyrff sydd newydd gael eu cyfuno'n adlewyrchu'r balansau a gynhwysir ar 1 Ebrill 2018 ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru.

# 6. Asedau Ariannol – Buddsoddiadau a Benthyciadau

| | Benthyciadau Myfyrwyr £m | Cyfalaf Difidend Cyhoeddus Ymddiriedolaethau'r GIG £m | Asedau Ariannol Eraill £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | **2,675** | **175** | **368** | **3,218** |
| Ychwanegiadau | 506 | (3) | 87 | 590 |
| Ad-daliadau benthyciadau | (119) | – | (27) | (146) |
| Llog wedi'i gyfalafu | 89 | – | – | 89 |
| Addasiad i'r gwerth teg[1] | (302) | – | 21 | (281) |
| Aiddosbarthu[1] | – | – | 251 | 251 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018 wedi'i ailddosbarthu[2]** | **2,849** | **172** | **700** | **3,721** |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno | – | (172) | – | (172) |
| Ychwanegiadau | 596 | – | 181 | 777 |
| Gwarediadau | – | – | (41) | (41) |
| Ad-daliadau benthyciadau | (123) | – | (40) | (163) |
| Llog wedi'i gyfalafu | – | – | – | – |
| Addasiad i'r gwerth teg | – | – | (14) | (14) |
| Enillion/(colledion) gwerth teg net ar asedau ariannol gwerth teg trwy SOCNE (gweler nodyn 3 Gwariant)[3] | (207) | – | 38 | (169) |
| Ailddosbarthu | – | – | 51 | 51 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019[2]** | **3,115** | – | **875** | **3,990** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Craidd LIC yn unig** | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2019[2]** | **3,115** | **189** | **1,399** | **4,703** |
| Ar 31 Mawrth 2018[2] | 2,849 | 172 | 1,077 | 4,098 |

[1] Mae £251m o'r Symiau Derbyniadwy Anghyfredol trwy Fasnach yng nghyfrifon blynyddol DBW ar gyfer 2017-18 wedi'u hailddosbarthu fel Asedau Ariannol Anghyfredol.

[2] Cynhwysir yn y balans sy'n cael ei gario ymlaen £173m (2018 – £130m) sy'n ddyledus o fewn blwyddyn.

[3] Mabwysiadwyd FRS9 1 Ebrill 2018. Yn unol â'r FReM, nid oes angen datgan symiau cymharol blynyddoedd blaenorol. Mae benthyciadau i fyfyrwyr bellach yn cael eu mesur fel gwerth teg trwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (gweler Nodyn 3 Gwariant), sy'n gofyn am gyflwyniad datgelu diwygiedig. Nodir manylion mesuriad Gwerth Teg Benthyciadau i Fyfyrwyr a dod i gysylltiad â risgiau isod. Mae Asedau Ariannol Cymorth i Brynu, Cymru bellach yn cael eu mesur fel Gwerth Teg trwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y Cyfrif Craidd, sy'n gofyn am gyflwyniad datgelu diwygiedig.

## Gwerth enwol

Mae'r tabl isod yn cysoni rhwng gwerth cario ymlaen a gwerth enwol y benthyciadau myfyrwyr a roddir.

| | Benthyciadau myfyrwyr £m |
|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | **3,559** |
| Ychwanegiadau | 506 |
| Ad-daliadau | (120) |
| Llog | 90 |
| Dileadau polisi | (26) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | **4,009** |
| Ychwanegiadau | 596 |
| Ad-daliadau | (123) |
| Llog | 129 |
| Dileadau polisi | (21) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | **4,590** |

| | |
|---|---|
| **Addasiadau/amhariadau gwerth teg wrth gloi:** | |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **(1,475)** |
| Ar 31 Mawrth 2018 | (1,160) |

| | |
|---|---|
| **Gwerth cario ymlaen:** | |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **3,115** |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 2,849 |

# 6. Asedau Ariannol – Buddsoddiadau a benthyciadau (Parhad)

## 6.1 Benthyciadau i Fyfyrwyr

Mae benthyciadau ar gyfer myfyrwyr mewn addysg uwch a phellach yn deillio o Lywodraeth Cymru ac yn cael eu cydnabod ganddi.

**Benthyciadau myfyrwyr**

Wrth fabwysiadu IFRS 9 fel yr oedd ar 1 Ebrill 2018 mae'r dull o ddosbarthu a mesur benthyciadau myfyrwyr wedi newid. Yn ystod 2017-18, roedd benthyciadau myfyrwyr yn cael eu dal ar gost wedi'i hamorteiddio fel sy'n ofynnol gan IAS 39. Roedd incwm llog yn cael ei gydnabod gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, a'r amhariad yn cael ei gydnabod yn flynyddol wrth i'r llifoedd arian disgwyliedig gael eu diwygio.

O dan IFRS 9, mae benthyciadau myfyrwyr yn cael eu cydnabod ar werth teg trwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SOCNE). Wrth benderfynu gwerth teg benthyciadau myfyrwyr, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio model llif arian wedi'i ddisgowntio (gweler isod) ac mae hyn yn cynnwys yr holl lifoedd arian disgwyliedig, gan gynnwys y llog y disgwylir ei dderbyn. O ganlyniad, caiff symudiad gwerth teg unigol ei gydnabod yn awr yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr.

Wrth ystyried dibynadwyedd y mewnbynnau a ddefnyddir wrth benderfynu ar werth teg mae Benthyciadau i Fyfyrwyr wedi'u categoreiddio fel mewnbynnau lefel 3 o dan y Safonau Cyfrifyddu, a ddiffinnir fel: Os nad yw un neu ragor o'r mewnbynnau sylweddol yn seiliedig ar ddata amlwg yn y farchnad, cynhwysir yr offeryn fel lefel 3. Mae gwerth teg benthyciadau i fyfyrwyr, felly, yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio model ariannu y Llwybr Enillion Stochastic (StEP) a ddarperir gan Adran Addysg Llywodraeth y DU.

Cyfrifir gwerth benthyciadau newydd gan ddefnyddio model StEP sy'n defnyddio data am ddemograffeg myfyrwyr addysg uwch er mwyn darogan y tebygolrwydd y byddant yn ad-dalu benthyciadau. Mae modelau wedi'u haddasu hefyd ar gyfer benthycwyr sy'n codi gwahanol fathau o fenthyciadau – benthyciadau cyn 2012 a benthyciadau ar ôl 2012 (benthyciadau i is-raddedigion a myfyrwyr rhan-amser a myfyrwyr ôl-raddedig sy'n astudio am radd meistr neu ddoethuriaeth). Mae'r modelau'n dibynnu ar set gymhleth o ragdybiaethau, ac yn arbennig enillion benthycwyr. Modelau hirdymor yw'r rhain, ond maent yn defnyddio rhagolygon hirdymor a byrdymor diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer RPI, cyfraddau sylfaenol a thwf enillion. Wrth eu natur, mae gwerth y llyfrau benthyciadau i fyfyrwyr yn ansicr gan eu bod yn dibynnu i raddau helaeth ar amgylchiadau macroeconomaidd ac enillion graddedigion dros y 30 mlynedd nesaf, yn ogystal â nifer o ragdybiaethau cymhleth eraill. O gofio pa mor newydd ydynt, nid oes fawr o ddata hanesyddol ar gael am ad-daliadau ar gyfer benthyciadau ar ôl 2012 gan nad oedd raid dechrau ad-dalu'r rhain tan 2016-17. Mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn y modelau ad-dalu'n cael eu had-dalu'n ffurfiol bob blwyddyn ac mae'r symiau a ddarperir ar hyn o bryd yn adlewyrchu'r amcangyfrif fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019.

## 6. Asedau Ariannol – Buddsoddiadau a benthyciadau (Parhad)

Y **newidynnau** a'r rhagdybiaethau allweddol a ddefnyddir yn y model yw:

- **Cyfradd disgownt** – Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr egwyddorion o dan IFRS 9 ac wedi defnyddio'r gyfradd fel y'i nodir ym mhapur PES, sef RPI plws 0.7%. Hon yw cyfradd disgownt hirdymor Trysorlys Ei Mawrhydi sef cost benthyca hirdymor Llywodraeth Cymru. Anaml y mae hyn yn newid, gydag unrhyw gynnydd yn y Gyfradd Disgownt yn gostwng gwerth cario Benthyciadau i Fyfyrwyr.
- **Chwyddiant RPI** – Mae'r model yn defnyddio cyfraddau RPI yn unol â rhagolygon OBR (a ddaeth i law Hydref 2018) tan 2024-25. Tybir y bydd RPI yn y dyfodol yn dilyn tuedd linynnol o 2025-26 2039-40, ac wedyn newid sylweddol i 3.00% o 2040-41 ymlaen. Bydd RPI uwch yn cynyddu llog ar gyfer y mwyafrif o fenthyciadau, a fydd yn arwain at ostyngiad yn y swm cario.
- **Enillion Graddedigion** – Mae'r model yn rhagdybio y bydd twf enillion enwol cyfartalog byrdymor yn cydymffurfio â rhagolygon OBR tan 2025-26. Rhagdybir bod twf enillion yn y dyfodol yn 4.24% o 2031-32, gan mai dyma'r rhagolwg hirdymor, gyda newid llinynnol o werth 2025-26 bob blwyddyn hyd at 2031-32. Bydd cynnydd mewn Enillion Graddedigion yn cynyddu gwerth cario benthyciadau i fyfyrwyr.
- **Trothwy enillion graddedigion** – Ar 18 Hydref 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'r trothwy ad-dalu ar gyfer pob benthyciad ar ôl 2012 yn cael ei gynyddu o £21,000 y flwyddyn i £25,000 y flwyddyn gydag effaith o 1 Ebrill 2018. Mae'r swm o £25,000 y flwyddyn wedi'i ddefnyddio o fewn y model ar gyfer benthyciadau ar ôl 2012. Yn y blynyddoedd i ddod disgwylir i hyn gynyddu yn unol â thwf mewn enillion. Bydd cynnydd yn y trothwy'n lleihau'r gwerth cario, gan y câi taliadau'r dyfodol eu lleihau.
- **Dosbarthiad incwm graddedigion** – Mae'r model yn rhagdybio y bydd dosbarthiadau incwm graddedigion yn y dyfodol yn debyg i rai graddedigion yn y gorffennol ac fe'u seilir ar yr Arolwg o'r Llafurlu, Panel Aelwydydd Prydain a data gweinyddol a ddelir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.
- **Dileu yn rhannol** – Polisi gan Lywodraeth Cymru yw dileu yn rhannol sy'n gymwys i fenthyciadau cynnal a chadw, lle y gellir cymhwyso dilead o hyd at £1,500 wrth gael yr ad-daliad cyntaf yn erbyn y benthyciad os nad oes gan y myfyriwr unrhyw daliadau, costau, treuliau neu gosbau heb eu talu mewn perthynas â'r benthyciad neu os ydynt yn torri cytundeb y benthyciad.
- **Cyfraddau sylfaenol** – Mae'r model yn rhagdybio y bydd cyfraddau sylfaenol Banc Lloegr yn cydymffurfio â rhagolygon OBR tan 2068-69. Mae cap i'r gyfradd sylfaenol yn cael ei gymhwyso i'r gyfradd sylfaenol o 2018-19 ymlaen, gan leihau'r gyfradd sylfaenol i lefel y cap rhwng 2018-19 a 2022-23. Bydd cynnydd mewn Cyfraddau Sylfaenol yn cynyddu'r gwerth cario.

Defnyddir nifer o ragdybiaethau eraill yn y model, ond nid yw newid y rhain i ganlyniadau rhesymol eraill yn cael effaith sylweddol ar werth y llyfrau benthyciadau. Mae llawer o'r rhagdybiaethau yn annibynnol ar ei gilydd, er y gallent newid ar yr un pryd.

## 6.2 Cyfalaf Difidend Cyhoeddus Ymddiriedolaethau'r GIG

Cynrychiolir buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Ymddiriedolaethau'r GIG gan Gyfalaf Difidend Cyhoeddus (PDC). Delir PDC yn unol â dehongliad FReM o IFRS 9 ar gost hanesyddol llai amhariadau, yn gyson â blynyddoedd blaenorol. Adeg cyfuno Ymddiriedolaethau'r GIG caiff y buddsoddiad PDC ei ddileu.

## 6.3 Asedau Ariannol Eraill

Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi offerynnau ariannol, yn enwedig benthyciadau, i gyrff eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru a chyllid a benthyciadau i fusnesau i gefnogi datblygu economaidd. Mae'r benthyg hwn yn digwydd fel rhan o'i gweithgareddau arferol ac nid yw Llywodraeth Cymru yn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch masnachu yn yr offerynnau ariannol hyn.

Fel offerynnau dyled syml delir y mwyafrif o asedau ariannol craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer casglu llif arian parod contractiol, ac felly maent yn cael eu dal yn ôl Cost wedi'i Hamorteiddio o dan IFRS 9. Adeg mabwysiadu IFRS 9 delir asedau ariannol Cymorth i Brynu, Cymru trwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, ac fe'u dilëir adeg cyfuno. Ni ddelir unrhyw asedau ariannol perthnasol yn ôl gwerth teg trwy Wariant Net Cynhwysfawr Cyfunol Arall yn y Cyfrif Craidd.

Mae asedau ariannol eraill y grŵp yn cynnwys: Buddiannau ariannol Llywodraeth Cymru mewn cyd-fentrau, benthyciadau eraill a buddsoddiadau, benthyciadau Buddsoddi i Arbed gyda'r Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill; ac asedau a ddelir gan Fanc Buddsoddi Cymru CCC.

Mae Llywodraeth Cymru wedi manteisio ar yr esemptiad sydd ar gael ar gyfer peidio â chyfrif am ddyledwyr a chredydwyr byrdymor.

# 7. Stocrestri

| | Ar 31 Mawrth 2019 | | Ar 31 Mawrth 2018 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| Asedau Datblygu | 165 | 164 | 157 | 157 |
| Cyffuriau | 19 | 45 | 24 | 47 |
| Deunydd telathrebu dros ben | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Halen ffyrdd | 1 | 1 | 2 | 2 |
| Defnyddiau traul eraill | 1 | 50 | 1 | 38 |
| | **187** | **261** | **185** | **245** |

# 8. Symiau derbyniadwy trwy fasnach asedau ariannol ac asedau eraill

| | Ar 31 Mawrth 2019 | | Ar 31 Mawrth 2018 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC Wedi'i ailddosbarthu £m |
| **Symiau sy'n ddyledus cyn pen un flwyddyn:** | | | | |
| Symiau derbyniadwy trwy fasnach[1] | 114 | 221 | 114 | 219 |
| Treth arall | 13 | 13 | 24 | 24 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | 129 | 175 | 46 | 73 |
| | **256** | **409** | **184** | **316** |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn:** | | | | |
| Symiau derbyniadwy trwy fasnach[1] | 13 | 99 | 18 | 130 |
| Rhagdaliadau | 14 | 18 | 12 | 16 |
| Symiau derbyniadwy eraill | – | – | – | – |
| | **27** | **117** | **30** | **146** |
| **Cyfanswm y symiau derbyniadwy trwy fasnach ac asedau cyfredol eraill** | **283** | **526** | **214** | **462** |

[1] Mae £251m o'r Symiau Derbyniadwy Anghyfredol trwy Fasnach yng nghyfrifon blynyddol DBW ar gyfer 2017-18 wedi'u hailddosbarthu fel Asedau Ariannol Anghyfredol.

# 9. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

| | Ar 31 Mawrth 2019 | | Ar 31 Mawrth 2018 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Balans ar 1 Ebrill** | **127** | **444** | **141** | **299** |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno[1] | – | 38 | – | – |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | (20) | 216 | (14) | 145 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **107** | **698** | **127** | **444** |
| **Roedd y balansau canlynol yn cael eu dal yn:** | | | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 105 | 151 | 126 | 144 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 2 | 547 | 1 | 300 |
| | **107** | **698** | **127** | **444** |

[1] Mae cyrff sydd newydd gael eu cyfuno'n adlewyrchu'r balansau a gynhwysir ar 1 Ebrill 2018 ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru a Thrafnidiaeth Cymru.

# 10. Symiau masnachol a symiau taladwy eraill

| | Ar 31 Mawrth 2019 | | Ar 31 Mawrth 2018 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Symiau sy'n ddyledus cyn pen un flwyddyn:** | | | | |
| Trethi a nawdd cymdeithasol | 1 | 67 | 1 | 58 |
| Symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 636 | 1,034 | 558 | 935 |
| Incwm Gohiriedig yr Undeb Ewropeaidd | 66 | 66 | 86 | 86 |
| Croniadau eraill ac incwm gohiriedig | 267 | 606 | 280 | 646 |
| Symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | – | – | – | – |
| Rhwymedigaethau o dan lesoedd cyllid a chontractau PFI | 10 | 14 | 10 | 19 |
| | **980** | **1,787** | **935** | **1,744** |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn:** | | | | |
| Symiau masnachol a symiau taladwy eraill | – | 1 | – | – |
| Rhwymedigaethau o dan PFI | 93 | 150 | 103 | 164 |
| Rhwymedigaethau o dan lesoedd cyllid | 3 | 3 | 3 | 3 |
| | **96** | **154** | **106** | **167** |
| **Cyfanswm symiau taladwy ar gyfer masnach a rhwymedigaethau cyfredol eraill** | **1,076** | **1,941** | **1,041** | **1,911** |

# 11. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Ar 31 Mawrth 2019 | | Ar 31 Mawrth 2018 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Craidd LIC £m** | **Grŵp LIC £m** | **Craidd LIC £m** | **Grŵp LIC £m** |
| **Balans ar 1 Ebrill** | **1,135** | **1,147** | **927** | **945** |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno[1] | – | 11 | – | – |
| Darperir yn y flwyddyn | 162 | 214 | 319 | 557 |
| Darpariaethau nad oes mo'u hangen ac a adferwyd | – | (4) | (2) | (111) |
| Trosglwyddo | – | 61 | – | (24) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (117) | (151) | (109) | (220) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1,180** | **1,278** | **1,135** | **1,147** |
| **Dadansoddi amseriad disgwyliedig llifoedd wedi'u disgowntio:** | | | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 295 | 347 | 287 | 287 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 353 | 482 | 343 | 354 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 532 | 449 | 505 | 506 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1,180** | **1,278** | **1,135** | **1,147** |

[1] Mae cyrff sydd newydd gael eu cyfuno'n adlewyrchu'r balansau a gynhwysir ar 1 Ebrill 2018 ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru a Thrafnidiaeth Cymru.

## Grŵp Llywodraeth Cymru yn unig

| | Arall £m | Iechyd £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|
| **Dadansoddi amseriad disgwyliedig llifoedd wedi'u disgowntio:** | | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 12 | 335 | 347 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 15 | 467 | 482 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 72 | 377 | 449 |
| | **99** | **1,179** | **1,278** |

## 11. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau (Parhad)

### 11.1 Darpariaethau eraill

Mae hyn yn cynnwys amrywiol rwymedigaethau posibl mewn perthynas â phensiynau a chyflogaeth mewn perthynas â gweithgarwch cyflenwi Llywodraeth Cymru.

### 11.2 Darpariaethau Iechyd

Mae gan Lywodraeth Cymru ddarpariaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd, ar gyfer Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru ac ad-daliadau Cronfa Risg Cymru a ddisgwylir yn y dyfodol.

Ar 30 Mawrth 2017 cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon drefniadau cymorth newydd i unigolion a'u teuluoedd y mae hepatitis C ac HIV wedi effeithio arnynt oherwydd eu trin â gwaed halogedig yng Nghymru. Cafodd un gwasanaeth symlach i Gymru ei gyflwyno ar 1 Tachwedd 2017. Mae hawlwyr yn y cynlluniau newydd wedi cael eu symud i'r cynllun newydd. Mae Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru yn disodli hen Gronfeydd Skipton a Caxton ac yn ymwneud â darpariaethau ar gyfer taliadau ex gratia i'r rhai y mae hepatitis C ac HIV yn effeithio arnynt.

Mae Cronfa Risg Cymru (WRP) yn helpu cyrff GIG Cymru gyda rheoli risg a setlo hawliadau y mae anghydfod yn eu cylch ar gyfer honiadau o esgeuluster meddygol neu esgeuluster fel cyflogwr. Balans WRP ar 31 Mawrth 2019 yw £1,081m (2017-18: £1,063m).

Mae'r ddarpariaeth o Gronfa Risg Cymru yn parhau'n dyst i effaith newidiadau yng nghyfradd y disgownt niwed personol a gyhoeddwyd gan yr Arglwydd Ganghellor ar 27 Chwefror 2017, gyda grym o 20 Mawrth 2017. Newidiodd y gyfradd o 2.5% (y lefel sydd wedi parhau ers 2001) i -0.75%. Bydd newid yn y gyfradd yn arwain at daliadau uwch ar gyfer elfen cyfandaliad hawliadau niwed personol, gan gynnwys y rhai y mae esgeuluster meddygol wedi effeithio arnynt. Dechreuodd yr Arglwydd Ganghellor adolygiad o'r gyfradd ym mis Mawrth 2019, y disgwylir iddo ddod i ben yn Awst 2019.

Seilir amseriad disgwyliedig llifoedd wedi'u disgowntio ar yr wybodaeth orau sydd ar gael; ond fe allai newid yn dibynnu ar amgylchiadau'r achosion unigol.

# 12. Rhwymedigaethau Digwyddiadol

| | Ar 31 Mawrth 2019 | | Ar 31 Mawrth 2018 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| Hawliadau cyfreithiol – honiadau o esgeuluster meddygol neu esgeuluster fel cyflogwr | 936 | 995 | 815 | 849 |
| Rhwymedigaethau contractiol posibl o dan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 | 10 | 10 | 10 | 10 |
| Hawliadau cyfreithiol a chontractiol eraill | 108 | 108 | 115 | 175 |
| | **1,054** | **1,113** | **940** | **1,034** |

**(i) Hawliadau cyfreithiol – honiadau o esgeuluster meddygol neu esgeuluster fel cyflogwr**
Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod rhaid i Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Cymru 2006 dalu rhwymedigaethau Cronfa Risg Cymru os bydd cyrff y GIG yn peidio â bodoli.

**(ii) Hawliadau cyfreithiol a chontractiol eraill**
Mae hawliadau cyfreithiol a chontractiol eraill yn cynnwys hawliadau cyfreithiol a chontractiol sydd ar y gweill a rhwymedigaethau digwyddiadol sy'n gysylltiedig ag indemniadau a gwarantau contractiol. Ni chododd unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol ar gyfer indemniadau neu warantau contractiol yn 2018-19.

**(iii) Rhwymedigaethau digwyddiadol nad ydynt wedi'u meintioli**
Ar 29 Mawrth 2017, cyflwynodd Llywodraeth y DU hysbysiad o'i bwriad i ymadael â'r UE yn unol ag Erthygl 50. Pan gafodd Erthygl 50 ei thanio, dechreuodd proses negodi dwy flynedd rhwng y DU a'r UE. Ar 11 Ebrill 2019, cadarnhaodd y llywodraeth gytundeb â'r UE ar estyniad tan 31 Hydref 2019 fan bellaf, gyda'r dewis o ymadael yn gynharach cyn gynted ag y câi cytundeb ei ddilysu.

Mae unrhyw newidiadau dilynol mewn deddfwriaeth, rheoleiddio a threfniadau ariannu'n ddarostyngedig i ganlyniad y negodiadau.

## 12.1 Rhwymedigaethau Digwyddiadol Pell

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r rhwymedigaethau digwyddiadol canlynol trwy gynnig gwarantau, indemniadau neu drwy roi llythyrau cefnogaeth. Nid oes yr un o'r rhain yn rhwymedigaeth ddigwyddiadol o fewn ystyr IAS 37 gan fod y posibilrwydd o drosglwyddo budd economaidd yn rhy annhebygol.

Yn 2018 Cytunodd Llywodraeth Cymru i sicrwydd, gwarantiadau, indemniadau, a cholledion posibl y gellir eu meintioli (wedi'u datgelu) ac nad oes modd ei meintioli o dan y 'Cytundeb Grant' â'i ddarparwr (Trafnidiaeth Cymru – Gwasanaethau Trên) a'r 'Cytundeb Rhyddarbed' â'r Adran Drafnidiaeth.

### Rhwymedigaethau digwyddiadol pell y gellir eu meintioli:

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu indemniad i'r darparwr gwasanaethau trên os bydd yr archeb am gerbydau y mae'r darparwr gwasanaethau trên wedi'i osod yn gorfod cael ei ganslo, a hynny trwy benderfyniad Llywodraeth Cymru. Amcangyfrifir mai'r rhwymedigaeth uchaf ar gyfer Llywodraeth Cymru o dan yr indemniad hwn yw £68m.

### Rhwymedigaethau digwyddiadol pell na ellir eu meintioli:

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu indemniad i'r Adran Drafnidiaeth a Network Rail os bydd unrhyw anfanteision o ran costau neu unrhyw risgiau ariannol newydd yn dod i'r amlwg o ganlyniad i datganoli pwerau masnachfreinio'r rheilffyrdd a'r bwriad i drosglwyddo asedau craidd llinellau'r Cymoedd o Network Rail i Trafnidiaeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu indemniad i'r darparwr gwasanaethau trên am amser cyfyngedig yn unig yn erbyn unrhyw dariffau ychwanegol o ganlyniad i Brexit.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu indemniad i'r darparwr gwasanaethau trên yn erbyn effaith unrhyw benderfyniad a wneir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau o ganlyniad i'r adolygiad y mae'n ei gynnal ar hyn o bryd mewn perthynas â statws cynlluniau pensiwn Cwmnïau Gweithredu Trenau (TOC).

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu indemniad i'r darparwr gwasanaethau trên yn erbyn newidiadau sydd wedi deillio o'r Adran Drafnidiaeth i daliadau cynlluniedig ar gyfer mynediad i draciau. Yn yr un modd mae Llywodraeth Cymru wedi'i hindemnio gan yr Adran Drafnidiaeth.

**Gwarantau:**

O dan amgylchiadau arbennig mae Llywodraeth Cymru'n gweithredu fel gwarantwr ar gyfer y cyrff a noddir ganddi. Nid oes yr un o'r gwarantau hyn yn sylweddol.

**Indemniadau:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i indemnio cyrff Trosglwyddo Stoc Tai rhag canlyniadau ariannol tynnu'r Cynllun Lliniaru Treth ar Werth yn ôl neu ei ddiwygio yn y dyfodol. Mae'r rhwymedigaethau'n cwmpasu 11 sefydliad am £437 miliwn ac mae'r cyfnod rhwymedigaeth yn amrywio. Nid oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd ynghylch parhad y cynllun, a bernir bod y potensial i'r rhwymedigaeth aeddfedu'n rhy annhebygol i gael ei chynnwys fel rhwymedigaeth ddigwyddiadol.

Mae Cynllun Indemniad y Llywodraeth yn darparu indemniadau i alluogi Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, a sefydliadau cymwys eraill i gael benthyg gwrthrychau a gweithiau celf. Bernir bod y tebygolrwydd y gweithredir ar y gwarantau hyn yn rhy annhebygol i gael ei gynnwys fel rhwymedigaeth ddigwyddiadol. Gwerth y gwarantau hyn ar 31 Mawrth 2019 oedd £29.3 miliwn.

**Llythyrau o gefnogaeth:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi anfon llythyr sicrwydd Busnes Gweithredol at Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio i gwmpasu rhwymedigaethau'r dyfodol o £0.151 miliwn. O gofio lefel sylweddol cronfeydd wrth gefn yng Nghronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio, bernir ei bod yn dra annhebygol y bydd y rhwymedigaeth hon yn codi.

# 13. Rhwymedigaethau Eraill

| | Ar 31 Mawrth 2019 | | Ar 31 Mawrth 2018 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| Diffygion cronfeydd pensiwn | 54 | 91 | 66 | 98 |
| Cronfa Benthyciadau Cenedlaethol (yn ddyledus ar ôl pum mlynedd)[1] | 11 | 11 | 11 | 11 |
| | **65** | **102** | **77** | **109** |

[1] Balansau'r Gronfa'r Benthyciadau Gwladol yw Cronfeydd Benthyciadau Gwladol a gafodd eu benthyg ymlaen i Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn wreiddiol i Gorfforaeth Datblygu'r Canolbarth. Cafodd y rhain eu trosglwyddo wedyn i Fwrdd Datblygu Cymru Wledig yn yr 1980au; ac i Awdurdod Datblygu Cymru pan ddiddymwyd y Bwrdd yn 1998. Ers i'r Awdurdod gael ei ddiddymu yn 2006, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ad-dalu prifswm a llog.

# 14. Symudiadau mewn cyfalaf gweithio heblaw arian parod

| | Ar 31 Mawrth 2019 | | Ar 31 Mawrth 2018 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn stocrestri | 5 | (1) | 9 | 10 |
| **(Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau derbyniadwy:** | | | | |
| cyfredol | (72) | (76) | 52 | 64 |
| anghyfredol | 3 | 30 | (16) | 155 |
| **Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau taladwy:** | | | | |
| cyfredol | 45 | – | 111 | 152 |
| anghyfredol | (10) | (13) | (10) | (14) |
| Llog Benthyciadau i Fyfyrwyr | – | – | (89) | (89) |
| Symudiad mewn asedau datblygu | (7) | (7) | (8) | (8) |
| Addasiadau ar gyfer symud croniadau: asedau sefydlog | – | – | – | 8 |
| Elfen gyfalaf lesoedd cyllid/PFI | 10 | 10 | 8 | 8 |
| Addasiad arall | 66 | 60 | – | – |
| Llai symudiad mewn symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru a balansau costau anweithredol eraill | 11 | 11 | – | – |
| | **51** | **14** | **57** | **286** |

# 15. Cyfalaf ac ymrwymiadau eraill

## 15.1 Ymrwymiadau cyfalaf

Ymrwymiadau cyfalaf wedi'u contractio sydd heb eu cynnwys fel arall yn y datganiadau ariannol hyn.

| | Ar 31 Mawrth 2019 | | Ar 31 Mawrth 2018 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 215 | 480 | 142 | 404 |
| Buddsoddiadau a benthyciadau | 94 | 94 | 181 | 181 |
| | **309** | **574** | **323** | **585** |

## 15.2 Ymrwymiadau o dan lesoedd

### 15.2.1 Ymrwymiadau o dan lesoedd gweithredol

Rhoddir cyfanswm isafswm taliadau o dan lesoedd gweithredol yn y tabl isod.

| | Ar 31 Mawrth 2019 | | Ar 31 Mawrth 2018 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Adeiladau** | | | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 6 | 35 | 6 | 27 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 22 | 79 | 22 | 65 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 46 | 113 | 47 | 92 |
| | **74** | **227** | **75** | **184** |
| **Arall** | | | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | – | 1 | – | – |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | – | 2 | – | – |
| Hwyrach na phum mlynedd | – | 2 | – | – |
| | – | **5** | – | – |
| | **74** | **232** | **75** | **184** |

### 15.2.2 Ymrwymiadau o dan lesoedd cyllid

Rhoddir cyfanswm isafswm taliadau lesoedd o dan lesoedd cyllid yn y tabl isod.

| | Ar 31 Mawrth 2019 | | Ar 31 Mawrth 2018 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 1 | 3 | 1 | 1 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 2 | 2 | 3 | 4 |
| Hwyrach na phum mlynedd | – | – | – | – |
| | **3** | **5** | **4** | **5** |
| Llai'r elfen llog | (1) | (1) | (1) | (1) |
| | **2** | **4** | **3** | **4** |

## 15.3 Ymrwymiadau o dan gontractau PFI

Mae gan y Byrddau Iechyd Lleol ddeg contract PFI y mae wyth ohonynt ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Nid oes unrhyw gontractau â chyfanswm ymrwymiad unigol o fwy na £500m. Cynhwysir manylion y cynlluniau unigol yng nghyfrifon statudol y Bwrdd Iechyd Lleol unigol.

### 15.3.1 Ddim ar y fantolen

#### Contract PFI Bute Avenue

Ers 2000 mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i dalu £5.1m bob blwyddyn, yn gysylltiedig â'r mynegai, i'r contractwr preifat sy'n gysylltiedig â phrosiect Bute Avenue (PFI), tan fis Tachwedd 2025. Mae partner y sector preifat yn cynnal rhwydwaith ffyrdd Bute Avenue am 25 o flynyddoedd (o 2000-01). Ar ôl y cyfnod hwn caiff y ffordd ei throsglwyddo i Gyngor Sir Caerdydd. Nid yw'r ffordd yn ased i Lywodraeth Cymru. Y cyfanswm a godwyd yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn perthynas â thrafodiadau PFI nad ydynt ar y fantolen oedd £8,819,158 (2017-18: £8,637,765); ac mae'r taliadau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt, fel a ganlyn:

| | Ar 31 Mawrth 2019 £m | Ar 31 Mawrth 2018 Wedi'i ailddatgan £m |
|---|---|---|
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 9 | 9 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 38 | 37 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 20 | 30 |
| | **67** | **76** |

### 15.3.2 Ar y fantolen

#### Contract PFI yr A55

Cynhelir rhwydwaith ffyrdd yr A55 gan gontractwyr am gyfnod o 30 o flynyddoedd (o 1998), ac ar ôl hynny bydd perchnogaeth yr A55 yn mynd yn ôl i Lywodraeth Cymru. Mae'r ffordd yn cael ei thrin fel un o asedau Llywodraeth Cymru ac mae taliadau unedol yn cynnwys dwy elfen – taliadau lesoedd cyllid wedi'u priodoli a thaliadau gwasanaeth. Y cyfanswm a godwyd yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn perthynas ag elfen gwasanaeth PFI ar y fantolen neu drafodiadau consesiwn gwasanaeth eraill oedd £10,288,537 (2017-18 £10,152,135). Rhoddir cyfanswm y rhwymedigaethau yn y dyfodol o dan PFI ar y fantolen a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill yn y tabl isod am bob un o'r cyfnodau hyn.

| | Ar<br>31 Mawrth 2019<br>£m | Ar<br>31 Mawrth 2018<br>£m |
|---|---|---|
| **Isafswm Taliadau Lesoedd** | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 12 | 12 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 48 | 48 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 60 | 72 |
| | **120** | **132** |
| Llai'r elfen llog | (17) | (20) |
| | **103** | **112** |

| | Ar<br>31 Mawrth 2019<br>£m | Ar<br>31 Mawrth 2018<br>£m |
|---|---|---|
| **Elfennau gwasanaeth sy'n ddyledus yn y dyfodol** | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 8 | 10 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 32 | 32 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 6 | 14 |
| | **46** | **56** |

## 15.4 Ymrwymiadau Ariannol Eraill

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud contractau na ellir eu dileu (nad ydynt yn lesoedd neu'n gontractau PFI) ar gyfer gwasanaethau. Mae'r taliadau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod y mae'r ymrwymiad yn dod i ben ynddo, fel a ganlyn:

| | Ar 31 Mawrth 2019 | | Ar 31 Mawrth 2018 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Craidd LIC £m** | **Grŵp LIC £m** | **Craidd LIC £m** | **Grŵp LIC £m** |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 446 | 446 | 277 | 277 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 1,088 | 1,088 | 252 | 252 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 2,689 | 2,689 | 421 | 421 |
| | **4,223** | **4,223** | **950** | **950** |

Ymysg yr ymrwymiadau ariannol eraill sy'n daladwy o fewn un flwyddyn mae £182m fel ffrwd incwm ymrwymedig, drwy'r cytundeb grant gyda'i wasanaeth rheilffordd a'i ddarparwr rheoli seilwaith (Gwasanaethau Rheilffordd Trafnidiaeth Cymru). Mae'r ymrwymiadau sy'n daladwy o fewn 2 i 5 mlynedd yn cynnwys £782, a £2.2bn y tu hwnt i 5 mlynedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant ar gyfer nifer o endidau yn flynyddol. Mae'r grantiau wedi'u hymrwymo yn rhan olaf y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2019 er mwyn rhoi sicrwydd i'r corff sy'n eu cael. Gan eu bod yn ymwneud â'r flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2020 ac yn cael eu hariannu gan ddyraniad cyllideb Llywodraeth Cymru am y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 nid ydynt wedi'u datgelu o fewn yr ymrwymiadau uchod.

## 16. Trafodiadau Partïon Cysylltiedig

Mae Llywodraeth Cymru'n cael y rhan fwyaf o'i chyllid gan Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n ariannu'r awdurdodau lleol, cyrff y GIG yng Nghymru, is-gyrff a Chyrff a Noddir. Ystyrir y cyrff hyn yn bartïon cysylltiedig y mae Llywodraeth Cymru wedi cael amryw o drafodiadau perthnasol â hwy yn ystod y cyfnod. Yn ychwanegol, mae Llywodraeth Cymru wedi cael nifer o drafodiadau gyda chyrff eraill y Llywodraeth a chyrff y Llywodraeth Ganolog, yn bennaf Swyddfa Cymru, yr Asiantaeth Taliadau Gwledig a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Nid oes unrhyw rai o Weinidogion Cymru, staff rheoli allweddol na staff partïon wedi cynnal unrhyw drafodiadau sylweddol â Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn, ac eithrio fel y nodir isod:

Mae Dafydd Elis-Thomas (y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth) a Lesley Griffiths (Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig) yn Is-lywyddion ac mae Ken Skates (Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth) yn Llywydd Anrhydeddus Eisteddfod Ryngwladol Llangollen a gafodd gyllid grant o £4,624 yn 2018-19.

Mae Dafydd Elis-Thomas (y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth) hefyd yn stiward yn Eglwys Gadeiriol Llandaf, a gafodd gyllid grant Treftadaeth o £25,656; ac yn aelod o'r Academi Gymreig a weinyddir gan Lenyddiaeth Cymru a gafodd gyllid grant o £20,975 yn 2018-19 ym maes amgueddfeydd, twristiaeth a hyfforddiant datblygu'r Gymraeg. Mae hefyd yn aelod anrhydeddus am oes o Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a gafodd £105,054.

Mae gŵr Kirsty Williams (y Gweinidog Addysg) yn bartner mewn busnes ffermio a gafodd gymorth o £71,898 yn 2018-19 o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr UE. Mae Kirsty Williams yn aelod o Undeb Credyd Aberhonddu a'r Cylch a gafodd gyllid o £17,967 yn 2018-19.

Mae Jeremy Miles (Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit) a Rebecca Evans yn aelodau o Undeb Credyd Celtic, a gafodd gyllid grant o £256,976 yn 2018-19.

Roedd Peter Kennedy (Aelod o'r Bwrdd) hefyd ar fwrdd Trafnidiaeth Cymru tan 1/08/2018. Yn ystod y cyfnod hwn cafodd Trafnidiaeth Cymru gyllid grant o £5,732,833.

Mae gŵr Gillian Baranski (Aelod o'r Bwrdd) yn bartner yng nghwmni Cyfreithiol Geldards LLP a benodwyd yn ddarparwr ar Fframwaith Gwasanaethau Cyfreithiol gan Gyfreithwyr gyda'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Talwyd £1,355,446 i'r cwmni yn 2018-19 am y Gwasanaethau Cyfreithiol hyn.

Mae partner Tracey Burke (Aelod o'r Bwrdd) yn gynghorydd newid busnes di-dâl i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) ac nid yw'n ymwneud â cheisiadau am gyllid. Cafodd WCVA £9,103,401 yn 2018-19 ar gyfer gwahanol raglenni cyllid grant.

Roedd Elan Closs Stephens (cyfarwyddwr anweithredol tan 30 Ebrill 2018) yn aelod o bwyllgor Awdurdod S4C a gafodd £1,170 yn y cyfnod hwn. Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw ran uniongyrchol yn y trafodiad hwn, a oedd ar lefel Weithredol.

Mae Ellen Donovan (cyfarwyddwr anweithredol) hefyd yn gyfarwyddwr anweithredol Cymwysterau Cymru a gafodd gyllid o £7,402,433 a Marie Curie a gafodd £2,000 gan Lywodraeth Cymru yn 2018-19.

Mae Gareth Lynn (cyfarwyddwr anweithredol) hefyd yn Gadeirydd Annibynnol Ymddiriedolwyr Cynllun Buddion Ymddeol (pensiwn) Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau. Gwneir y penodiad gan Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau a thelir tâl cydnabyddiaeth amdano. Cafodd Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau £47,748 yn 2018-19.

Mae trafodiadau partïon cysylltiedig y Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru ac is-gwmnïau eraill yn cael eu datgelu yn eu cyfrifon cyhoeddedig eu hunain.

## 16.1 Canlyniadau cwmnïau cyfunol o dan berchnogaeth lwyr

| | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2019 £m | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2018 £m |
|---|---|---|
| **Elw /Colled** | | |
| DBW PLC[1] | 3 | 5 |
| Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio LLP | 3 | 1 |
| WGC Holdco Limited | – | – |
| Dewis Gyrfa Career Choices Limited | (2) | (2) |
| Trafnidiaeth Cymru | – | – |
| **Cyfalaf Cyfrannau a Chronfeydd Wrth Gefn** | | |
| DBW PLC | 156 | 141 |
| Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio LLP | 39 | 36 |
| WGC Holdco Limited | 61 | 61 |
| Dewis Gyrfa Career Choices Limited | (31) | (25) |
| Trafnidiaeth Cymru | 1 | – |

[1] Buddsoddiad o 49,999 o gyfranddaliadau £1 cyffredin, 25c wedi'i ran-dalu.

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u cyfuno gan ddefnyddio ffigurau drafft, gan nad ydynt yn sylweddol wahanol i'r cyfrifon terfynol.

## 16.2 Mân is-gyrff a buddiannau eraill

Cynhwysir y Cyd-fentrau canlynol gan Lywodraeth Cymru yn y cyfrifon cyfunol:

- International Convention Centre Wales Limited – Mae Llywodraeth Cymru'n berchen ar 50% o gyfalaf cyfrannau International Convention Centre Wales Limited, gyda'r 50% arall yn cael ei ddal gan y Celtic Manor Resort Limited.
- Airbus Group Endeavr Wales (gynt EADS Foundation Wales) – cyd-fuddiant mewn cwmni cyfyngedig drwy warant. Delir perchnogaeth ar y cyd gydag Airbus Defence and Space Ltd (gynt Cassidian Holdings Limited) a Phrifysgol Caerdydd.

Ni chynhwysir y buddiannau canlynol gan Lywodraeth Cymru yn y cyfrifon cyfunol:

Llywodraeth Cymru – Adrannau Anweinidogol – yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi ond yn amherthnasol i'w cyfuno

- Awdurdod Cyllid Cymru

Is-gwmnïau Llywodraeth Cymru – yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi ac yn amherthnasol i'w cyfuno:

- Design Commission for Wales Limited (Comisiwn Dylunio Cymru)
- Hybu Cig Cymru Cyf / Meat Promotion Wales Limited
- Sector Development Wales Partnership Limited
- Life Sciences Hub Wales Limited (Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru)
- Innovation Point Limited (Yr Arloesfa)
- Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol

Is-gwmnïau Llywodraeth Cymru – ddim yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi ac yn amherthnasol i'w cyfuno:

- Welsh Development Management Limited
- International Business Wales Limited (Busnes Rhyngwladol Cymru)

Student Loans Company Limited (Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr)

Mae Llywodraeth Cymru'n dal un gyfran gyda gwerth enwol o £1. Delir perchnogaeth ar y cyd ag Adran Addysg Lloegr, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Gogledd Iwerddon. Mae'r gyfran yn rhoi daliad o 5% i Lywodraeth Cymru yn y cwmni.

Elusennau'r GIG

Mae elusennau'r GIG yng Nghymru'n Is-gwmnïau i'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Nid ydynt yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi ac yn amherthnasol i'w cyfuno.

# Atodiad A – Polisïau Cyfrifyddu

## A.1 Eiddo, offer a chyfarpar

### Tir ac adeiladau (gan gynnwys anheddau)

Mae Llywodraeth Cymru a'i chyrff cysylltiedig yn cyfalafu eiddo rhydd-ddaliadol lle mae'n cael ei gadw i'w ddefnyddio gan y corff ei hun. Mae eiddo ar brydles, lle'r oedd y les wreiddiol am lai na chan mlynedd, yn cael ei drin fel cost refeniw. Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol a thir ac adeiladau lesddaliadol, lle'r oedd y les wreiddiol am fwy na chan mlynedd, yn cael eu dal yn ôl y gost gyfredol gan ddefnyddio prisiadau proffesiynol naill ai bod pum mlynedd, neu yn flynyddol, gyda mynegeion priodol yn y blynyddoedd eraill am brisiadau nad ydynt yn flynyddol. Yr eithriad yw eiddo o natur arbenigol a ddelir ar gost adnewyddu wedi'i dibrisio. Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio Mynegai Misol y Banc Data Eiddo Buddsoddi (IPD) ar gyfer mynegeion Canolbarth Lloegr a Chymru.

### Asedau'r Rhwydwaith

Mae'r rhwydwaith ffyrdd wedi'i brisio yn ôl ei gost adnewyddu wedi'i dibrisio yn unol â'r canllawiau yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) ar gyfer asedau arbenigol nad oes prisiadau'r farchnad ar gael ar eu cyfer. Er mwyn cynhyrchu'r prisiad hwn mae angen defnyddio rhagdybiaethau, amcangyfrifon a chrebwyll personol. Y model a ddefnyddir i gynhyrchu'r prisiad yw Systemau Prisio Asedau Awdurdodau Ffyrdd (RAAVS), a redir gan ymgynghorwyr allanol W.S. Atkins. Mae syrfewyr proffesiynol allanol yn cynnal prisiad llawn o'r rhwydwaith ar adegau heb fod yn fwy na phum mlynedd. Cynhaliwyd y prisiad hwn ddiwethaf yn 2014-15. Mae prisiadau interim yn defnyddio cyfres o gostau safonol i brisio cydrannau unigol asedau'r rhwydwaith a mynegeion i ailbrisio'r rhain yn flynyddol.

Cydnabyddir bod y rhwydwaith cefnffyrdd yn ased seilwaith unigol yn unol â'r canllawiau cymwys a amlinellir yn FReM. Er hynny, mae'n cynnwys pedair elfen neilltuol y cyfrifir amdanynt yn wahanol: tir; palmant y ffordd; strwythurau (megis pontydd a chwlfertau); a chyfathrebu (megis arwyddion negeseuon amrywiol).

Mae'r elfen palmant ffordd yn cael ei phrisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunwyd arnynt i nodi cost adnewyddu gros mathau cymwys o ffyrdd ar sail adeiladu newydd ar safle maes gwyrdd. Mae'r cyfraddau hyn yn cael eu hailbrisio'n flynyddol gan ddefnyddio mynegeion i adlewyrchu prisiau cyfredol.

Caiff strwythurau eu prisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunir arnynt i nodi cost adnewyddu mathau cymwys o strwythur ar safle maes gwyrdd lle mae'r rhain ar gael; ond mae strwythurau arbennig, sy'n tueddu i fod yn unigryw eu natur, yn cael eu prisio gan ddefnyddio costau penodol sy'n cael eu diweddaru i'r prisiau cyfredol.

Mae cyfathrebu'n cael ei brisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunir arnynt i nodi cost adnewyddu mathau cymwys o gyfathrebu.

Caiff yr holl waith cynnal a chadw sy'n cadw potensial gwasanaeth y rhwydwaith ffyrdd ei gyfalafu. Mae gwariant olynol sy'n ychwanegu at wasanaeth neu oes y rhwydwaith ffyrdd yn cael ei gyfalafu.

Mae ffyrdd newydd yn cael eu hailgatagoreiddio o Asedau o dan Adeiladwaith pan fydd y manylion strwythurol wedi'u darparu gan yr Awdurdod Asiant i'w mewnbynnu i'r model, a allai fod beth amser ar ôl i'r ffordd agor.

Cyfeirir at drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros gynnal a chadw darnau o'r ffordd fel rhan o'r rhwydwaith cefnffyrdd i rwydwaith yr awdurdod lleol neu oddi yno fel 'creu statws cefnffordd' neu 'dynnu statws cefnffordd' yn eu trefn. Mae 'creu statws cefnffordd' neu 'dynnu statws cefnffordd' oddi wrth yr awdurdodau lleol neu iddynt yn cael ei drin fel trosglwyddiad oddi wrth adrannau eraill o'r Llywodraeth neu iddynt. Ymdrinnir â ffyrdd a strwythurau y tynnwyd eu statws fel gwarediadau o safbwynt cyfrifyddu heb unrhyw gost ynghlwm wrthynt. Mae'r elw neu'r golled gysylltiedig yn cael eu prosesu trwy'r gronfa gyffredinol.

Y ffactorau mynegeio a gymhwysir yma yw:

- Palmant Ffordd a Strwythurau – Mynegai Baxter
- Cyfathrebu – Mynegai Baxter
- Tir – Cynhyrchir mynegeion tir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

Cymerir symudiadau ar i fyny o ran gwerth i'r gronfa ailbrisiadau. Mae symudiadau ar i lawr o ran gwerth yn cael eu gosod yn erbyn unrhyw falans credyd a ddelir yn y gronfa ailbrisiadau nes i'r credyd ddodi ben a chânt eu gosod fel traul wedyn yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## Technoleg Gwybodaeth a Gosodiadau a Ffitiadau

Mae technoleg gwybodaeth a gosodiadau a ffitiadau (sy'n cynnwys cerbydau, offer a chyfarpar), ar gost hanesyddol. Gan mai oes ddefnyddiol fer sydd i'r dosbarthiadau hyn o asedau, dim ond am bris gormodol y gellid cael ailbrisiadau dibynadwy o'r asedau hyn. Ni ddefnyddir unrhyw amcangyfrif arwyddocaol wrth brisio'r dosbarthiadau hyn o asedau.

Y lefel isaf ar gyfer cyfalafu asedau unigol ac asedau wedi'u grwpio yw £5,000.

## Asedau Treftadaeth

Mae Llywodraeth Cymru'n dal nifer o asedau treftadaeth anweithredol lle mae'r gwerth diwylliannol, addysgol a hanesyddol yn annhebygol o gael ei adlewyrchu'n llawn mewn gwerth ariannol sy'n deillio o fecanwaith neu bris y farchnad. Mae'r asedau hyn yn arbenigol eu natur a naill ai ni ellir sicrhau prisiadau dibynadwy neu ni ellid eu sicrhau ond am bris gormodol. Nid yw Llywodraeth Cymru, felly'n cyfalafu'r asedau hyn yn y cyfrifon.

## A.2 Dibrisiant

Mae'r gost dibrisiant ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd yn cynnwys tair elfen:

i. tâl cynnal a chadw blynyddol;

ii. amcangyfrif o ddirywiad parhaol yng nghyflwr y rhwydwaith yn y flwyddyn (a gyfrifwyd gan y model cyfrifiadur ar sail y data diweddaraf am gyflwr y rhwydwaith y cyfeirir ato yn y nodyn ar asedau nad ydynt yn gyfredol uchod);

iii. dibrisiant wedi'i gyfrifo o'r strwythurau a chyfathrebu.

Cyfrifir am ddibrisiant mewn perthynas â'r palmant ffordd trwy gyfeirio at y potensial gwasanaeth a asesir gan arolygon cyflwr a gyflawnir dros y rhwydwaith cyfan fel rhan o raglen dreigl sy'n cwmpasu pob darn o'r ffordd bob pum mlynedd. Y gost dibrisiant flynyddol ar gyfer arwynebedd y ffordd yw gwerth y potensial gwasanaeth a ddisodlwyd trwy'r rhaglen cynnal a chadw, plws neu lai unrhyw addasiad sy'n deillio o'r arolwg cyflwr blynyddol. Mae'r elfennau Strwythurau a Chyfathrebu'n cael eu dibrisio gan ddefnyddio'r dull llinell syth sy'n cael ei gymhwyso i'r costau adnewyddu wedi'u hailbrisio, a hefyd yn cael eu harchwilio bob pum mlynedd i nodi unrhyw newidiadau eraill. Nid yw tir yn cael ei ddibrisio.

Darperir dibrisiant yn ôl cyfraddau a gyfrifir i ddileu gwerth asedau nad ydynt yn ddiriaethol ac eiddo arall, asedau eiddo, offer a chyfarpar trwy randaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol a amcangyfrifir.

Dangosir oes yn yr amrediadau canlynol:

| | |
|---|---|
| Arwynebedd y rhwydwaith | 20 i 50 o flynyddoedd |
| Strwythurau'r rhwydwaith | 20 to 120 o flynyddoedd |
| Cyfathrebu'r rhwydwaith | 15 o flynyddoedd |
| Tir ac adeiladau lesddaliadol | Gweddill oes |
| Anheddau | Gweddill oes |
| Adeiladau rhydd-ddaliadol | hyd at 60 o flynyddoedd |
| Technoleg Gwybodaeth | 3 i 10 o flynyddoedd |
| Asedau meddalwedd anniriaethol | 2 i 10 o flynyddoedd |
| Gosodiadau a ffitiadau | 3 i 20 o flynyddoedd |

Nid yw tir rhydd-ddaliadol ac asedau o dan adeiladwaith yn cael eu dibrisio.

Mae amhariadau asedau sefydlog diriaethol yn cael eu codi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y cyfnod y maent yn cael eu tynnu.

## A.3 Ymchwil a Datblygu

Mae gwariant ymchwil a datblygu yn cael ei godi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y mae'n cael ei dynnu, ac eithrio lle mae'n cyfeirio at brosiect pendant a lle gellir barnu bod y buddion yn sicr. Mae'r gwariant sy'n cael ei ohirio'n cael ei gyfyngu i werth buddion a ddisgwylir yn y dyfodol ac mae'n cael ei amorteiddio trwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail systematig dros y cyfnod y disgwylir elwa ar y prosiect.

## A.4 Asedau ariannol

### Benthyciadau a Chyllid ad-daladwy

Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi benthyciadau a chyllid ad-daladwy i gwmnïau grŵp (e.e. Banc Datblygu Cymru), cyrff eraill y sector cyhoeddus a chwmnïau'r sector preifat at ddibenion datblygu economaidd neu amcanion gweithredu polisi. Delir yr asedau ariannol hyn at ddibenion casglu taliadau contractiol y prifswm ac unrhyw log sydd i'w godi, ac fe'u delir yn ôl cost wedi'i hamorteiddio yn unol ag IFRS 9.

Mae benthyciadau Cymorth i Brynu – Cymru yn fenthyciadau Ecwiti a Rennir ac fe'u delir yn ôl Gwerth Teg trwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn unol ag IFRS 9.

### Cyfalaf Difidend Cyhoeddus

Delir Cyfalaf Difidend Cyhoeddus ar gost hanesyddol llai amhariadau yn unol â dehongliad FReM o IFRS 9.

### Buddsoddiadau

Delir buddsoddiadau yn endidau grŵp is-gwmnïau ar gost yng Nghyfrif Llywodraeth Cymru yn unol â IAS 27. Delir buddsoddiadau mewn cyd-fentrau ar werth teg.

Cyfrifir am fenthyciadau a buddsoddiadau ecwiti a wneir gan Fanc Datblygu Cymru yn unol ag IRS 9 lle mae offerynnau dyled a ddelir i gasglu taliadau contractiol y prifswm a'r llog yn cael eu dal yn ôl cost wedi'i hamorteiddio a delir buddsoddiadau ecwiti yn ôl gwerth teg trwy Elw a Cholled. Nodir manylion llawn polisïau cyfrifyddu Banc Datblygu Cymru ar gyfer asedau Asedau ariannol yn eu Hadroddiad Blynyddol a'u Cyfrifon.

### Benthyciadau i Fyfyrwyr

Polisi cyfrifyddu Llywodraeth Cymru yw cydnabod ychwanegiad at y llyfr benthyciadau myfyrwyr pan fydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC) wedi rhoi'r benthyciad i'r myfyriwr. Cesglir ad-daliadau benthyciadau gan SLC a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM). Yn achos ad-daliadau a wneir trwy SLC, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y taliad pan fydd SLC wedi cael yr arian parod a diweddaru cofnod y benthyciwr. Yn achos ad-daliadau a gesglir trwy'r system drethi, cydnabyddir hyn pan ddaw'r symiau

sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru am y flwyddyn ariannol yn ôl amcangyfrif CThEM i law. Dangosir gwerthoedd benthyciadau i fyfyrwyr yn net o ddileadau a amcangyfrifir yn y dyfodol ac maent yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

Yn unol â'r ffordd y mae FReM yn cymhwyso IFRS 9, mae benthyciadau i fyfyrwyr yn cael eu categoreiddio fel benthyciadau a Symiau derbyniadwy ac yn cael eu cario yn ôl Gwerth Teg trwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Nodir esboniad manwl o'r dull gweithredu ar gyfer prisio yn Nodyn 6. Nodir datgeliadau sy'n ymwneud â risg, sy'n ofynnol o dan IFRS 7, ym Mholisi Cyfrifyddu A15.

### Asedau Anghyfredol

Dynodir asedau nad ydynt yn gyfredol fel rhai sy'n cael eu dal i'w gwerthu os caiff eu swm cario ei adfer trwy ei werthu yn hytrach na defnydd parhaus. Bernir bod yr amod hwn yn cael ei fodloni yn unig pan fydd y gwerthiant yn debygol iawn a bod yr ased ar gael i'w werthu ar unwaith yn ei gyflwr presennol. Rhaid i'r rheolwyr ymrwymo i'r gwerthiant a dylid disgwyl cwblhau hyn cyn pen un flwyddyn i ddyddiad y dosbarthiad.

Mae'r asedau anghyfredol sy'n cael eu dal i'w gwerthu'n cael eu mesur ar lefel isaf swm cario a gwerth teg llai costau i werthu.

## A.5 Stocrestri

Mae asedau datblygu, gan gynnwys tir a ddelir i'w ddatblygu yn y dyfodol ac eiddo adeiledig nad oes mo'u hangen at eu defnydd eu hunain, a ddelir gyda'r bwriad o'u hailwerthu yn y pen draw, yn cael eu dangos ar lefel isaf cost hanesyddol a phrisio asedau proffesiynol, gan ddiddymu unrhyw amhariad adeg ailbrisio i Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae gwrthdroi sylweddol yn achos amhariadau blynyddoedd blaenorol yn cael eu hysgrifennu yn ôl i Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr lle ceir tystiolaeth bresennol o gynnydd mewn gwerth yn deillio o wariant blynyddoedd blaenorol.

Mae stocrestri eraill yn cael eu prisio ar lefel isaf cost adnewyddu a gwerth gwireddadwy net. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod gwahaniaeth o sylwedd rhwng y gost adnewyddu a chost hanesyddol stociau. Mae stociau sydd ag oes economaidd ddefnyddiol gyfyngedig yn cael eu dileu ar ddiwedd eu hoes.

## A.6 Incwm Gweithredu

Mae incwm gweithredu yn cyfeirio'n uniongyrchol at weithgareddau gweithredu Llywodraeth Cymru a'r cyrff cysylltiedig. Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru IFRS 15 *Revenue from Contracts with Customers* o 1 Ebrill 2018. Mae IFRS 15 yn cyflwyno model pum cam newydd ar gyfer cydnabod refeniw o gontractau â chwsmeriaid. Cyfrifwyd am holl refeniw Llywodraeth Cymru sy'n dod o fewn cwmpas y safon hon, yn unol â hi. Mae effaith mabwysiadu ar gyfer Llywodraeth Cymru yn amherthnasol.

Mae refeniw o'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â rhaglenni, cronfeydd a mentrau Ewropeaidd yn cael ei ddwyn i gyfrif yn unol â grantiau sy'n daladwy ac fe'i dangosir yn Nodyn 2. Mae'r cronfeydd yn cael eu talu i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Mae'r cronfeydd hyn wedyn yn cael eu trosglwyddo i'r adran berthnasol yn Llywodraeth Cymru ac fe gyfrifir amdanynt yn Nodyn 3.

## A.7 Treth ar Werth (TAW)

Mae Llywodraeth Cymru'n adennill rhai elfennau ar TAW ar gyfer gwasanaethau busnes a gwasanaethau sy'n cael eu contractio allan. Yn achos gwariant arall ar nwyddau a gwasanaethau cofnodir y rhain yn gynhwysol o TAW.

## A.8 Pensiynau

Cynhwysir y mwyafrif o gyflogeion presennol a blaenorol Llywodraeth Cymru yn narpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PSPCS) a ddisgrifir yn yr Adroddiad Atebolrwydd. Nid yw elfennau buddion diffiniedig y cynllun yn cael eu hariannu. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymol dros y cyfnod y mae'n elwa ar wasanaethau cyflogeion trwy dalu i PCSPS symiau a gyfrifir ar sail gronnus. Mae'r rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol yn gost i PCSPS. O ran y cynlluniau cyfraniadau diffiniedig, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn. Cydnabyddir yr holl enillion a cholledion actiwaraidd sy'n deillio o addasiadau profiadau a newidiadau mewn rhagdybiaethau actiwaraidd trwy gronfeydd wrth gefn yn y cyfnod y maent yn codi.

Mae rhai o gyn staff Awdurdod Datblygu Cymru, staff presennol Banc Datblygu Cymru CCC a staff Dewis Gyrfa yn cymryd rhan mewn nifer o Gynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru sy'n gynlluniau a ariennir gan aml-gyflogwr.

Mae rhai o staff Llywodraeth Cymru'n cyfrannu at: Yr Adran Iechyd ac Ymddiriedolaeth Les y Nyrsys; a West Yorkshire Pension Scheme a weinyddir gan City of Bradford Metropolitan District Council.

Mae cyflogeion Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn cymryd rhan yng nghynllun pensiwn y GIG. Mae gwybodaeth am y cynllun hwn i'w gweld yng Nghyfrifon Cryno'r GIG.

## A.9 Costau ymadael yn gynnar

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru dalu cost ychwanegol buddion y tu hwnt i fuddion PCSPS arferol mewn perthynas â gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu yn llawn am y gost hon pan fo'r rhaglen ymddeoliad cynnar wedi'i gyhoeddi ac mae'n rhwymo. Caiff Llywodraeth Cymru, o dan rai amgylchiadau, setlo rhywfaint neu'r cyfan o'i rhwymedigaeth ymlaen llaw trwy wneud taliad i Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth yn y Bank of England i gredydu'r Bleidlais Blwydd-daliadau Sifil. Mae trefniadau tebyg yn bodoli ar gyfer cyflogeion BILl ac Ymddiriedolaethau'r GIG sy'n ymddeol yn gynnar.

Ar gyfer cyflogeion cyn uno a chyn-weithwyr yr hen Awdurdod Datblygu Cymru yng Nghynllun Pensiwn Rhondda Cynon Taf, mae Llywodraeth Cymru'n talu cost ychwanegol buddion y cynllun mewn perthynas â gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar.

## A.10 Lesoedd gweithredol

Codir gwariant ar lesoedd gweithredol heb eu cyfalafu, gan gynnwys tir ac adeiladau, ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y cyfnod y mae'n ymwneud ag ef.

## A.11 Grantiau

Cofnodir grantiau sy'n daladwy fel gwariant yn y cyfnod y mae'r digwyddiad neu'r gweithgaredd sy'n rhoi hawl i'r grant yn digwydd.

## A.12 Y Fenter Cyllid Preifat/Trafodiadau'r Sector Cyhoeddus neu Breifat

Mae Trysorlys Ei Mawrhydi wedi penderfynu y bydd rhaid i gyrff y Llywodraeth gyfrif am gynlluniau PFI seilwaith lle mae corff y Llywodraeth yn rheoli'r defnydd o'r seilwaith a'r buddiant gweddilliol yn y seilwaith ar ddiwedd y trefniant fel trefniadau consesiwn gwasanaeth, gan ddilyn egwyddorion gofynion IFRIC 12. Mae ased PFI yn cael ei gydnabod fel eitem o eiddo, offer a chyfarpar ynghyd â rhwymedigaeth i dalu amdano. Mae'r gwasanaethau a dderbynnir o dan y contract yn cael eu cofnodi fel treuliau gweithredol.

Mae'r taliad unedol blynyddol yn cael ei rannu'n gydrannau fel a ganlyn, gan ddefnyddio technegau amcangyfrif priodol lle bo angen;

a. Taliad am werth teg y gwasanaethau a dderbynnir;

b. Taliad am yr ased PFI, gan gynnwys costau cyllid;

c. Taliad am ddisodli'r ased  yn ystod y contract 'adnewyddu cylch oes'.

Cofnodir gwerth teg gwasanaethau a dderbynnir yn y flwyddyn o dan y penawdau gwariant perthnasol o fewn costau rhaglenni.

Cydnabyddir yr asedau PFI fel eiddo, offer a chyfarpar, pan ddechreuir eu defnyddio. Mae'r asedau'n cael eu mesur i ddechrau yn ôl gwerth teg yn unol ag egwyddorion IAS 17. Wedyn, mae'r asedau'n cael eu mesur yn ôl gwerth teg, sy'n cael ei ddiweddaru yn unol ag egwyddorion IAS 16.

Cydnabyddir y rhwymedigaeth PFI ar yr un pryd â'r ased PFI. Mae hyn yn cael ei fesur ar yr un swm â gwerth teg yr asedau PFI ac yn cael ei fesur o ganlyniad fel les cyllid yn unol ag IAS 17. Cyfrifir cost ariannu flynyddol trwy gymhwyso'r gyfradd llog ymhlyg yn y les i rwymedigaeth y les weithredol am y cyfnod ac mae'n cael ei chodi ar Incwm. Mae'r elfen o'r taliad unedol blynyddol sy'n cael ei dyrannu fel rhentiad les cyllid yn cael ei chymhwyso i dalu'r gost ariannu flynyddol ac i ad-dalu rhwymedigaeth y les dros dymor y contract.

## A.13 Enillion a Cholledion y Gyfradd Gyfnewid

Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn gofyn am gyllid rhaglenni oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd ar lefel yr Ewro sy'n cyfateb i'r sterling y mae ei angen ac yn talu cronfeydd allan wedyn mewn sterling. Mae elw neu golled ar y trafodiadau hyn yn cael ei chyfrifo yn unol ag IAS 21.

Mae trafodiadau eraill mewn arian cyfredol tramor yn cael eu trosi'n sterling yn ôl y gyfradd sydd mewn grym ar y dyddiad hwnnw. Cymerir gwahaniaethau cyfnewid i ystyriaeth yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## A.14 Darpariaethau

Yn unol ag IAS 37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol, ac Asedau Digwyddiadol, gwneir darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau ar ddiwedd y flwyddyn lle mae rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol yn bodoli (hy rhwymedigaeth bresennol neu'n deillio o ddigwyddiadau blaenorol), mae all-lif adnoddau y bydd eu hangen i setlo'r rhwymedigaeth yn debygol ac mae modd gwneud amcangyfrif rhesymol o'r rhwymedigaeth.

Lle mae gwerth arian o ran amser yn berthnasol, mae darpariaethau'n cael eu disgowntio i'r gwerth presennol gan ddefnyddio amser darpariaethau disgownt Trysorlys Ei Mawrhydi.

## A.15 Offerynnau Ariannol

IFRS 7: yn ei gwneud yn ofynnol datgelu gwybodaeth sy'n caniatáu i'r defnyddiwr werthuso arwyddocâd offerynnau ariannol ar berfformiad ariannol, a natur a graddau ei gysylltiad â risgiau allweddol sy'n deillio o offerynnau ariannol.

Gan fod y mwyafrif o adnoddau Llywodraeth Cymru yn cael eu talu gan Gronfa Gyfunol Cymru, mae i offerynnau ariannol rôl fwy cyfyngedig wrth greu risg nag a fyddai'n gymwys i gorff o faint tebyg nad yw'n gorff y sector cyhoeddus.

### Risg Credyd

Amcan Llywodraeth Cymru yw adfer dyled yn llawn, ac rydym yn mynd ar drywydd hynny yn weithgar. Y polisi yw defnyddio gweithdrefnau rheoli credyd arferol ar gyfer rheoli'r risg o ddiffygdaliad gan ddyledwyr masnach trwy swyddogaeth Cyfrifon Derbyniadwy. Oherwydd natur a gwerth dyledwyr bernir mai bach iawn yw'r risg credyd cysylltiedig. Cyflwynodd IFRS 9 fodel blaengar o'r credyd y disgwylir ei golli, a dull gweithredu tri cham o ran darparu ar gyfer dyledion. Oherwydd y risg credyd isel, mae'r colledion credyd a ddisgwylir o dan gamau 1 a 2 i Lywodraeth Cymru'n amherthnasol. Gwneir darpariaethau cam 3 ar gyfer dyledion amheus pan fydd dyledion dros 6 mis oed.

Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth statudol i roi benthyciadau i fyfyrwyr, ac ni chaniateir iddi ddal benthyciadau yn ôl ar sail statws credyd gwael. Mae dod i gysylltiad â'r risg o beidio ag ad-dalu benthyciadau'n cael ei fonitro a chyfrifir am yr effaith trwy adolygiad amhariadau blynyddol.

## Risg i'r Farchnad

Y prif risgiau yw i'r portffolio Benthyciadau i Fyfyrwyr yn sgil symudiad ar i lawr yn yr economi a allai arwain at gynnydd yn niweithdra benthycwyr, gan effeithio ar eu gallu i ad-dalu benthyciadau myfyrwyr. Effeithir ar fenthyciadau i fyfyrwyr hefyd oherwydd yr effaith negyddol bosibl wedyn ar dwf enillion graddedigion, sy'n ymestyn y cyfnod amser cyn i fenthyciadau gael eu had-dalu ac yn ymestyn y cyfnod ad-dalu. Gallai hyn effeithio ar y gwerth cario yn y cyfrifon. Gallai arwain hefyd ar gynnydd mewn dileadau gan ei fod yn cynyddu'r debygoliaeth na fydd rhai graddedigion o bosibl yn ad-dalu eu benthyciadau'n llawn erbyn diwedd cyfnod y benthyciad.

Risg Arian Cyfred Tramor – mae Llywodraeth Cymru'n agored i risg arian cyfred bach iawn ar ei thrafodiadau ym maes arian cyfred tramor, ac eithrio cronfeydd a ddaw i law oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Nid yw dewisiadau lliniaru'r sector preifat ar gael. Er hynny, mae cyfanswm y cyllid a ddaw i law oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd yn cael ei reoli er mwyn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael ei ddyrannu'n hyblyg i brosiectau, gan alluogi lefelau gwariant wedi'u targedu i gael eu bodloni. Mae hawliadau cyllid oddi wrth y Comisiwn hefyd yn brydlon i gyfyngu ar oedi rhwng tynnu gwariant a'i ad-dalu.

## Risg Cyfradd Llog

Asedau ariannol cyfradd amrywiadwy Llywodraeth Cymru yn bennaf yw ei benthyciadau i fyfyrwyr sydd â chap cyfradd llog a bennir yn RPI neu gyfradd sylfaenol Banc Lloegr plws 1%. Y gyfradd llog ar fenthyciadau cyn 2012 yw'r isaf o RPI a chyfradd sylfaenol Banc Lloegr plws 1%. Mae faint o log sydd i'w ad-dalu felly'n destun yn destun y gwamaliadau yn y gyfradd sylfaenol ac RPI. Mae'r tebygolrwydd y bydd Llywodraeth Cymru'n adennill gwerth enwol benthyciadau a roddir yn cael ei gynyddu pan fydd cyfradd sylfaenol Banc Lloegr yn isel a'r gyfradd chwyddiant yn gymharol uchel, am fod y gyfradd sylfaenol yn dod i rym ar gyfer y benthyciadau hyn. Mae effaith risg y gyfradd llog ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr a roddir o dan gynllun cyn 2012 yn cael ei ffactora i mewn i'r gwerth cario gan fod y model ad-dalu benthyciad i fyfyrwyr yn cyfrifo effaith cyfradd llog ar lifoedd arian parod a ddisgwylir. Mae risg ynghlwm wrth ragamcanu faint o log sy'n daladwy ac os ceir cyfraddau sylfaenol sy'n is nag RPI, amherir ymhellach ar lifoedd arian parod y dyfodol.

## Risg Hylifedd

Nid yw Llywodraeth Cymru yn benthyca ond oddi wrth y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol, ac mae'n dibynnu'n bennaf ar gyllid a ddaw i law oddi wrth Senedd y DU trwy Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer ei gofynion arian parod. Nid oes rheswm dros gredu na fydd cyllid ar gael yn y dyfodol, felly ar y sail hon nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Hefyd nid oes ganddi adneuon sylweddol, ac mae'r holl asedau a rhwymedigaethau sylweddol wedi'u henwi mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfradd llog na risg cyfradd arian cyfred heblaw'r risgiau sy'n deillio o dderbyn cronfeydd oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd mewn Ewros.

## A.16 Safonau cyfrifyddu newydd eu cyhoeddi nad ydynt mewn grym eto

Mae nifer o safonau a dehongliadau diwygiedig a newydd wedi cael eu cyhoeddi ond nid ydynt mewn grym eto ac nid ydynt wedi cael eu mabwysiadu eto yn y cyfrifon hyn, gan eu bod yn cael eu hystyried ar hyn o bryd gan y Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol (FRAB) i'w cynnwys mewn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) yn y dyfodol.

Y safonau a allai gael effaith sylweddol o'u mabwysiadu yw:

**IFRS 16 Leases** – i ddod i rym 1 Ionawr 2019. Bydd IFRS 16 yn darparu un model ar gyfer yr holl lesoedd a fydd yn rhoi pob les ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol oni bai fod tymor y les yn 12 mis neu'n llai neu fod gwerth isel i'r ased gwaelodol. Mae Trysorlys Ei Mawrhydi yn adolygu goblygiadau'r diwygiad hwn ar sector cyhoeddus y DU er mwyn ei gynnwys yn FReM 2020-21.

Safonau nad ystyrir bod ganddynt effaith sylweddol yn y dyfodol yw:

- IFRS 3 *Business Combinations ac IFRS 11 – Joint Arrangements* – diwygio
- IFRS 9 *Financial Instruments* – diwygio
- IAS 12 *Income Taxes* – diwygio
- IAS19 *Employee Benefits* – diwygio
- IAS 23 *Borrowing Costs* – diwygio
- IAS 28 *Investments in Associates and Joint Ventures* – diwygio
- IFRIC 23 *Uncertainty over Income Tax Treatments* – dehongli
- IFRS 17 *Insurance Contracts* – i ddisodli IFRS 4